
CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND



# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

2024-25

HC 1183

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

tnlcommunityfund.org.uk/welsh

# Cronfa Loteri Fawr*

**Adroddiad a chyfrifon blynyddol 2024-25**

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

Wedi'i gyflwyno i Senedd y Deyrnas Unedig yn unol ag Adran 23(3) a pharagraff 21 Atodlen 4A Deddf Y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a Deddf y Loteri Genedlaethol 2006).

I'w argraffu ar 9 Gorffennaf 2025 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin

HC 1183
SG/2025/145

* (yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol)

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Ni yw'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall.

I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi geisio caniatâd deiliad perthnasol yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Apex House, 3 Embassy Drive, Edgbaston, Birmingham, B15 1TR.

ISBN 978-1-5286-5697-9 E03348114 07/25

Argraffir ar bapur sy'n cynnwys 100% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Llun y clawr blaen: Common Flora

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Fawrhydi



Heroes Return, Gogledd Iwerddon

Ar gyfer y rhai sydd â nam ar y clyw neu'r lleferydd: Cyfnewid Testun: 18001 plws 020 7211 1800 neu 0300 500 5050

# Cynnwys

Neges gan y Cadeirydd ........ 8
Neges gan y Prif Weithredwr ........ 10
Ein blwyddyn mewn rhifau ........ 12
Strwythur y sefydliad ........ 16
Adroddiad perfformiad ........ 18
Adroddiad cynaladwyedd ........ 44
Adroddiad atebolrwydd ........ 58
Datganiadau ariannol ........ 108
Nodiadau i'r cyfrifon ........ 123
Ein cefndir statudol ........ 167

# Neges gan y Cadeirydd

Yr anrhydedd fwyaf yn fy mywyd oedd cael fy ngwahodd i gadeirio Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, y ffynhonnell unigol fwyaf o ariannu cymunedol yn y DU, ac ymgymryd â'r dasg ym mis Tachwedd 2024 wrth i Paul Sweeney, ein Cadeirydd Dros Dro, ymddiswyddo. Rwyf mor ddiolchgar i Paul am ei waith rhagorol a'i arweinyddiaeth o'n Bwrdd a'u cefnogaeth i'n Prif Weithredwr David Knott a'r tîm gweithredol wrth i ni lansio Cymuned yw'r man cychwyn. Treuliais y rhan fwyaf o fy mywyd gwaith mewn cymunedau - yn gweithio i gysylltu'r rhai sydd heb gysylltiad, yn cryfhau partneriaethau rhwng y sectorau preifat, cyhoeddus a chymdeithas sifil, ac yn deall pwysigrwydd hanfodol ariannu cynaliadwy hirdymor yn y cymunedau hynny lle mae'r angen mwyaf. Yn fy mhrofiad i, mae lansiad, cinio a logo wedi bod yn elyn i gynnydd go iawn yn rhy aml.

Rhaid i'n strategaeth newydd, a weithredir gan ein tîm talentog ac a arweinir gan David gyda chymaint o egni a ffocws, gael ei gyrru gan ein gwerthoedd. Rhaid i ni weithio gyda gostyngeiddrwydd a thosturi, yn hyblyg ac yn arloesol, yn gynhwysol a gyda gwir uchelgais a fydd yn ein helpu i gefnogi pŵer pobl mewn cymunedau, y rhai sydd agosaf at yr angen, wrth lywio'r dyfodol ac arwain y newid. Fel y Cadeirydd newydd, rwy'n gwybod, gydag uchelgais feiddgar, fod angen hollbwysig i wrando ar gyngor a doethineb gan fudd-ddeiliaid a phartneriaid allweddol, a'r gostyngeiddrwydd i gydnabod pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau.

Mae gennym gyfrifoldebau aruthrol am y swm enfawr o arian a ddefnyddiwn ac mae llywodraethu cryf a didwylledd budd-ddeiliaid yn allweddol i'n llwyddiant. Ymddiriedir ynom i droi arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn grantiau trawsnewidiol a all, dros amser, ddangos effaith wirioneddol, ac mae hyn yn golygu ein bod yn ymdrechu'n galed gyda'n strategaeth effaith newydd. Rwyf mor ddiolchgar i aelodau Bwrdd y DU am eu hymgysylltiad a'u hymrwymiad, gan gynnwys y rhai sy'n cadeirio'r pwyllgorau a'u haelodau gweithgar yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Mae cyfranogiad pobl ifanc a'u hegni a'u creadigrwydd wedi dod â gwerth mawr i'n proses gwneud penderfyniadau - ac rydym yn cymeradwyo'r profiad hwn i Fyrddau eraill.

Eleni, mae Llywodraeth newydd ei hethol yn y DU wedi dod â ffocws newydd i'r dasg genedlaethol o adnewyddu cymunedau. Mae hynny'n bwysig i ni - a byddwn yn gweithio gyda budd-ddeiliaid a llywodraethau cenedlaethol a lleol ledled y DU i gyflawni nodau a rennir - o gyfleoedd i ieuenctid i gynaliadwyedd amgylcheddol, i gymunedau cryfach a hyrwyddo bywydau iachach. Wrth edrych ymlaen, gyda rôl ehangach mewn asedau segur, o gyfoeth cymunedol i gyfoethogi, a'n presenoldeb hirdymor ym mhob rhan o'r DU, rhaid i ni droi uchelgeisiau yn gynnydd ymarferol ac effaith go iawn, sy'n darparu budd cyhoeddus parhaol i bobl a chymunedau.

Bydd gweithio mewn partneriaeth yn ffactor llwyddiant hollbwysig, boed drwy roi grantiau mewn cymunedau, dysgu gan arianwyr arloesol eraill, neu gydweithio â'r gweithredwr newydd, Allwyn, i gefnogi twf ac adnewyddiad y Loteri Genedlaethol.

Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn siarad â ni am y problemau yn eu cymuned a'u syniadau ar gyfer datrys yr heriau hyn - bob tri munud, cawn syniad ac rydym yn gwneud penderfyniad bob wyth munud.

Mae'r angen i'n timau wrando a dysgu, meithrin perthnasoedd, deall cyd-destun a phrofiad bywyd, cefnogi newid system, ehangu'r hyn sy'n gweithio a rhannu arloesedd yn eang, yn gyfrifoldeb enfawr.

Rydym yn benderfynol o fuddsoddi yn ein timau gweithwyr a dysgu gan y dalent fwyaf amrywiol fel y gallwn fod y gorau y gallwn fod. Bydd hyn yn ein helpu i gwrdd â chymunedau lle maent, a chyflawni eu dyheadau wrth anelu at gymdeithas decach, fwy cynaliadwy a chryfach yn y DU.



**Y Fonesig Julia Cleverdon CBE DCVO, Cadeirydd**



# Neges gan y Prif Weithredwr

Eleni, fe wnaethon ni nodi pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30ain – cyfle i ddathlu'r dros £50 biliwn a godwyd i achosion da ers 1994.

Mae'n garreg filltir ryfeddol, a wnaed yn bosibl gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ac a ddaeth yn fyw gan y miloedd o ddeiliaid grantiau a chydweithwyr sy'n gweithio'n ddiflino i wella bywydau a chryfhau cymunedau. I mi, roedd cofio diwrnod cyntaf y Loteri Genedlaethol yn ôl ym mis Tachwedd 1994, clywed tri degawd o straeon gan gydweithwyr a chymunedau, a gwybod beth mae wedi'i gefnogi mewn llefydd a chymunedau sy'n agos ataf, yn atgof pwerus o ba mor bellgyrhaeddol ac effeithiol y mae'r ymdrech ar y cyd hon wedi bod.

Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym yn falch iawn o chwarae rhan hanfodol yn y stori honno.

Eleni – y flwyddyn gyntaf lawn o gyflawni ein Cynllun Corfforaethol a'n strategaeth newydd, Cymuned yw'r man cychwyn – rydym wedi canolbwyntio'n ddi-baid ar roi uchelgais newydd ar waith. Rydym wedi cyflawni ar gyflymder, gydag effaith, a gydag ymrwymiad dwfn i gymunedau ledled y DU.

Dros y 12 mis diwethaf, dyfarnwyd £767 miliwn i dros 12,700 o brosiectau – cynnydd o £80 miliwn ar y flwyddyn flaenorol. Mae hynny'n golygu ein bod yn rhoi dros £2 filiwn y dydd yn nwylo cymunedau – gan eu helpu i fynd i'r afael â heriau brys a llywio dyfodol tecach. Eleni, rydw i wedi gweld y newid hwnnw ym mhob gwlad yn y DU: o gymunedau gwledig yr Alban i waddol o waith cymunedol yng Ngogledd Iwerddon, mewn dinasoedd, trefi a phentrefi yn Lloegr a chymoedd yng Nghymru. Lle bynnag yr af, rydw i'n gweld pŵer cymunedol ar waith – dan arweiniad y bobl sy'n byw yno, yn creu datrysiadau ac yn meithrin cysylltiadau.



Rydym wedi cyflwyno rhaglenni ariannu newydd, gyda mwy i ddod. Rydym yn parhau i flaenoriaethu mudiadau lleol, ar lawr gwlad – gyda 84% o'n grantiau'n cael eu dyfarnu drwy grantiau bach ac 82% yn mynd i fudiadau ag incwm o lai nag £1 miliwn. Mae hyn yn sicrhau bod arian yn cyrraedd y rhai sy'n gweithio agosaf at y materion a'r rhai sydd yn aml o dan y pwysau mwyaf.

Rydym wedi gwneud cynnydd ar bob un o'n pedair nod: cefnogi cymunedau i ddod ynghyd, helpu plant a phobl ifanc i gael mynediad at adnoddau a phrofiadau sy'n eu helpu i ffynnu, galluogi pobl i fyw bywydau iachach a bod yn gynaliadwy yn amgylcheddol.

Ynghyd â hyn, rydym wedi cryfhau ein ffocws ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiant – o fewn ein sefydliad ac yn y ffordd rydym yn gwasanaethu cymunedau.

Croesawon ni'r Fonesig Julia Cleverdon fel ein Cadeirydd newydd, gyda'i hangerdd digyffelyb dros ysbrydoli unigolion a mudiadau i gydweithio er lles pawb, a diolchaf i Paul Sweeney am ei wasanaeth a'i arweiniad fel Cadeirydd Dros Dro. Rydym hefyd wedi cryfhau'r lleisiau sy'n llywio ein penderfyniadau: eleni, croesawon ni gynghorwyr llais ieuenctid i'n holl fyrddau a phwyllgorau, gan sicrhau bod pobl ifanc wrth wraidd sut rydym yn dyrannu adnoddau ac yn llywio ein dyfodol.

Rydym wedi dechrau gosod y sylfeini ar gyfer yr hyn sy'n dod nesaf. Rydym yn archwilio sut y gall offer digidol a deallusrwydd artiffisial (AI) symleiddio ein prosesau a gwella'r profiad o ariannu, ac rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid cymdeithas sifil i ddysgu, rhannu a datblygu dulliau i sicrhau bod AI yn gweithio i bobl a chymunedau.

Rydym yn falch o barhau â'n rôl fel dosbarthwr arian asedau segur, gyda rhaglenni gwaith sylweddol bellach yn cael eu cynllunio ym mhob gwlad yn y DU.

I'n holl gydweithwyr, partneriaid, deiliaid grantiau a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol – diolch. Eich ymrwymiad a'ch egni sy'n pweru'r gwaith hwn. Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, rydym yn gwneud hynny gyda phwrpas clir: rhoi mwy o ymddiriedaeth a mwy o offer yn nwylo cymunedau a gweithio ochr yn ochr â nhw i ddatgloi eu potensial.

Gyda'n gilydd, gallwn wneud y bennod nesaf hon yr un mor drawsnewidiol â'r un ddiwethaf.



**David Knott**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

# Ein blwyddyn mewn rhifau

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi dosbarthu mwy na £767.1 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol mewn dros 12,700 o grantiau ledled y DU, gan gefnogi gweithgareddau sy'n creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy – gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau.

## Mae ein hariannu'n mynd at galon cymunedau

**84%**

o'n dyfarniadau yn cael eu dosbarthu fel grantiau bach



**47%**

o'n grantiau yn cael eu dyfarnu i'r 30% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig a nodir yn y Mynegeion Amddifadedd Lluosog



**82%**

o'n grantiau yn cael eu dosbarthu i fudiadau ag incwm o lai na £1 miliwn



**Rydym yn ariannu prosiect cymunedol bob**



**8 munud**

## Fe ddyfarnom ni dros £2.1 miliwn ar gyfartaledd bob dydd i brosiectau i wella bywydau pobl a chymunedau.

### Fe ariannom ni dros £500 miliwn i feysydd ein pedair nod craidd.



Plant a phobl ifanc

**£140,079,325**



Iechyd a lles

**£117,086,916**



Amgylchedd


**£49,744,633**



Cymuned

**£215,182,920**

# Arian a ddyfarnwyd yn 2024-25



## Yr Alban

**£62.8m**

1,798 grant

## Gogledd Iwerddon

**£34.9m**

702 grant

## Cymru

**£43.1m**

945 grant

## Lloegr

**£540.3m**

9,218 grant

Ar draws y Deyrnas Unedig

**£86.0m**

45 grant


Cyfanswm

**£767.1m**

12,708 grant

# Strwythur y mudiad

Mae'r strwythur diwygiedig a weithredwyd yn llwyddiannus tua diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol wedi galluogi'r Gronfa i roi mwy o ffocws ar ymagwedd y Gronfa at ymdrin â materion pobl a diwylliant, a fydd yn agwedd allweddol wrth gyflawni ein strategaeth a'n cynllun corfforaethol yn llwyddiannus. Adlewyrchir y strwythur yma.






Common Flora, DU

# Adroddiad perfformiad

**Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y Bwrdd, prif amcanion a strategaethau'r Gronfa a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r adran trosolwg yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr i ddeall y Bwrdd, ei ddiben, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran ddadansoddi mae'r Gronfa'n adrodd ar ei mesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiad gan ddefnyddio gwybodaeth o'r datganiadau ariannol.**

## Trosolwg


### Ein diben a'n gweithgareddau

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw enw gweithredol y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorfforaeth statudol a sefydlwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006. Mabwysiadodd y Gronfa yr enw gweithredol newydd ym mis Ionawr 2019 er mwyn adlewyrchu ffynhonnell ein hadnoddau ariannol yn well a'r ariannu ar gyfer achosion da a godir trwy gemau'r Loteri Genedlaethol ynghyd â'n rôl yn cefnogi cymunedau wrth eu helpu i wireddu eu huchelgeisiau.

Rydym yn ymroddedig i wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl i'n hariannu, gan weithio ochr yn ochr â chymunedau. Byddwn yn parhau i'w cefnogi lle mae'r angen fwyaf a rhoi mwy o lais iddyn nhw wrth i ni weithio i ddosbarthu £4 biliwn o gronfeydd sy'n newid bywydau erbyn 2030.

Y Gronfa yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o arian cymunedol yn y DU ac mae'n gyfrifol am ddosbarthu 40% o gyfanswm yr arian achosion da a godir drwy'r Loteri Genedlaethol. Rydym yn dosbarthu hwn trwy ddyfarniadau grant i gefnogi prosiectau sy'n darparu gweithgareddau cymunedol. Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn siarad â ni am y problemau yn eu cymuned a'u syniadau ar gyfer datrys yr heriau hyn. Rydym yn gwrando. Rydym yn dysgu. Rydym yn tyfu. Ac rydym yn rhannu'r syniadau hynny, fel bod cymunedau'n dysgu oddi wrth ei gilydd hefyd. Yn y pum mlynedd diwethaf rydym wedi dosbarthu dros £3.1 biliwn mewn dyfarniadau. Mae ein rhaglenni ariannu'n amrywio o grantiau bach hyd at £20,000 i raglenni strategol ar raddfa fawr sy'n werth miliynau o bunnoedd.

**Ffigur 1: Dosbarthiad yr ariannu yn y pum mlynedd diwethaf**



Yn ogystal â'n gwaith yn dosbarthu arian achosion da, mae'r Gronfa'n gyfrifol am ddosbarthu arian a ryddhawyd o gyfrifon banc segur ac asedau cysylltiedig o dan ddarpariaethau Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Asedau Segur 2022.

Rydym hefyd yn gweithio gyda mudiadau eraill, cyrff cyhoeddus yn bennaf, i reoli a dosbarthu eu hariannu trwy raglenni grantiau a redwn ar eu rhan. Ymhlith enghreifftiau o'r math hwn o weithgaredd mae ein dosbarthiad o arian mewn partneriaeth â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn perthynas â Rhaglen Community Organisations Cost of Living a Chronfa Million Hours.

Wrth gyflwyno ein rhaglen waith rydym yn gweithredu o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau eraill y sector cyhoeddus a gofynion DCMS fel ein hadran noddi sy'n darparu Dogfen Fframwaith i ni'n amlinellu ein perthynas â'r llywodraeth. Mae Ysgrifennydd Gwladol y DCMS yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi sy'n nodi'r materion i'w hystyried wrth benderfynu at bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y mae'r Gronfa'n dosbarthu arian yn Lloegr a'r Deyrnas Unedig. Mae'r adrannau priodol ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi ar gyfer gweithgaredd dyrannu grantiau yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Wrth ddilyn y canllawiau hyn, mae penderfyniadau'r Gronfa ar raglenni a grantiau yn annibynnol o'r llywodraeth.

Mae'n ofynnol i'n hariannu ddilyn yr egwyddor ychwanegedd – hynny yw, rhaid i'n hariannu fod yn wahanol i'r llywodraeth – gall ategu ond ni ddylai gymryd lle rhaglenni gwariant y llywodraeth.

Rydym yn darparu cydbwysedd o raglenni ariannu sy'n ymateb i alw a rhaglenni sydd wedi'u targedu i fodloni gofynion cymunedau mewn modd sy'n cyfateb i'r egwyddorion a ddisgrifir yn ein strategaeth 2023-30, Cymuned yw'r man cychwyn. Rydym yn cwrdd â chymunedau lle maen nhw, fel y maen nhw. Rydym yn eu cefnogi i adeiladu ar eu cryfderau a mynd lle mae eu dyheadau'n eu harwain, wrth fynd ar drywydd cymdeithas decach a chryfach. Rydym yn credu bod cysylltiadau cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol yn ganolog i greu bywydau iachach, hapusach a chymdeithas fwy llewyrchus.

Mae'r Gronfa'n gweithredu ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig gyda rhaglenni ariannu penodol ar gyfer pob gwlad. Ar ben hynny, rydym yn gweithredu amrediad o raglenni sydd â chwmpas y Deyrnas Unedig gyfan. Mae pob un o'r gwledydd a phortffolio'r DU yn dyfarnu grantiau trwy bwyllgor portffolio, gydag aelodau'r pwyllgorau hyn yn cael eu penodi'n allanol. Eu rôl yw amlinellu a chytuno ar raglenni grantiau a fewn Fframwaith sy'n seiliedig ar dargedau'r Gronfa gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ymagwedd gyffredinol a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae cymeradwyaeth o'r rhan fwyaf o ddyfarniadau wedi'i dirprwyo i swyddogion y Gronfa neu baneli penodol ar gyfer y rhaglenni amrywiol ym mhob portffolio.

Mae ein cyllidebau dyfarniadau grant yn cael eu dosrannu rhwng pob gwlad ar sail cyfrannau a gytunwyd arnynt, sy'n cael eu pennu gan fwyaf yn seiliedig ar boblogaeth ac ar ôl didynnu cyfran - hyd at 10% o'r cyfanswm - i fynd tuag at bortffolio'r Deyrnas Unedig.

## Ein materion a risgiau allweddol

Un o brif risgiau'r Gronfa yw bod y rhan fwyaf o'i hincwm yn ddibynnol ar refeniw a gynhyrchir drwy'r Loteri Genedlaethol. Mae cyfran o werthiannau loteri pob gêm yn cael ei dyrannu i achosion da ac yn cael ei throsglwyddo i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sydd wedyn yn cael ei rhannu ymhlith dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol ar sail dyraniad y cytunwyd arno ymlaen llaw. Rydym yn rheoli ein dyfarniadau grant, cyllidebau a phroffiliau talu dros ragolygon aml-flwyddyn er mwyn lliniaru yn erbyn y risgiau sy'n codi o amrywiadau posib yn refeniw y Loteri Genedlaethol ac i sicrhau y gallwn gyflawni ein rhwymedigaethau. Cyflwynir rhagolygon incwm tymor canolig wedi'u diweddaru i'r Bwrdd i'w cymeradwyo o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Ar 1 Chwefror 2024, dechreuodd Allwyn fel gweithredwr y Loteri Genedlaethol o dan y bedwaredd drwydded weithredu. Rydym yn gweithio'n agos gydag Allwyn i fynd ati i reoli'r risg o ansicrwydd ynghylch incwm yn y dyfodol yn ystod cyfnod pedwerydd cytundeb y drwydded weithredu. Mae Allwyn yn diweddaru ac yn cyflwyno rhagolygon incwm pum mlynedd bob chwarter – yna defnyddir y wybodaeth hon i ddiwygio rhagolygon incwm a dadansoddiad risg incwm y Gronfa, er mwyn sicrhau y gallwn fodloni ein rhwymedigaethau presennol yn llawn wrth wneud y mwyaf o faint o ariannu y gallwn ei ddarparu i barhau i gefnogi cymunedau. Mae enillion i achosion da wedi perfformio ychydig yn uwch na'r gyllideb ar gyfer 2024-25 gyda thwf mwy sylweddol yn incwm y Loteri Genedlaethol yn cael ei ragweld o 2026-27 ymlaen.

Rydym yn parhau i arsylwi agendâu effeithlonrwydd llywodraethol ehangach wrth baratoi ar gyfer twf a chyflawni ein strategaeth uchelgeisiol a'n cynllun corfforaethol ar yr un pryd. Yng nghyd-destun darparu gwasanaethau gwerth am arian, rydym yn parhau i lwyddo i ddarparu lefelau sylweddol uwch o ddyfarniadau grant o fewn y cap cost gweithredu gofynnol.

Rydym yn wynebu risg ariannol yn ein gweithgareddau oherwydd y potensial ar gyfer ceisiadau twyllodrus am grantiau neu gamddefnyddio grantiau.

Mae ein rhaglen o newid dyluniad sefydliadol yn gofyn am gynllunio gofalus er mwyn sicrhau ein bod wedi'n cyfarparu'n dda i gyflawni ein strategaeth, ein cynllun corfforaethol a'r twf incwm disgwyliedig yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn cynnal lefelau uchel o ymgysylltiad, cymhelliant a pherfformiad cydweithwyr.

Rydym yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn ymwybodol o amgylchedd allanol cynyddol elyniaethus a bygythiadau seiber a thorri diogelwch data ymgeiswyr.

Mae ein hymrwymiad i fynd i'r afael â bygythiadau amgylcheddol a hinsawdd yn ein strategaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd y mater hwn i'r Gronfa ac i'n cymunedau. Mae hwn yn fygythiad presennol a thrwy ein cynllun corfforaethol a'n targedau DPA rydym wedi cynyddu ein hymdrechion i gyfrannu at fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd.

Mae ein rhaglen rheoli risg yn rhoi'r modd i ni asesu ein hamlygiadau allweddol i risg a rhoi'r rheolaethau priodol ar waith i liniaru'r rhain. Mae asesiad llawnach o'n prosesau rheoli risg wedi'i gynnwys yn ein datganiad llywodraethu.

## Crynodeb o Berfformiad

Lansiwyd ein Cynllun Corfforaethol 2024-27 y llynedd, gan adlewyrchu ein strategaeth, Cymuned yw'r man cychwyn, gydag amcanion corfforaethol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wedi'u diweddaru. Bob blwyddyn rydym yn adolygu ein perfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau strategol a'n dangosyddion perfformiad allweddol i asesu sut rydym wedi cyflawni ein dyheadau strategol a gweithredol. Ar gyfer 2024-27, fe nodom tri amcan, wedi'u hategu gan chwe blaenoriaeth, gydag wyth DPA ategol (trafodir y DPA yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn). Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf cyfnod y cynllun corfforaethol, rydym wedi cyrraedd pedwar ac wedi cyrraedd un o'r targedau DPA yn rhannol, gyda thri arall yn dal i fod ar y gweill. Trafodir y rhain yn fanwl yn yr adran dadansoddi perfformiad.

Mae'r Gronfa hefyd yn asesu ei pherfformiad gan ddefnyddio metrigau eraill, gan gynnwys mesurau gweithredol allweddol, dangosyddion ariannol, data cyfrifyddu rheoli a thechnegau rhagweld. Mae'r asesiad hwn yn sicrhau, lle bo angen, y gall y Gronfa gymryd camau unioni cyn gynted â phosibl i gyflawni ei nodau a lleihau'r risg i'w gweithrediadau a'i nodau.

Nid ydym yn gosod unrhyw warged neu ddiffyg gweithredu penodol fel mesur rheoli allweddol neu darged.

Rydym yn rheoli ein perfformiad ariannol er mwyn uchafu ein gallu i ddyrannu grantiau ar sail yr arian a dderbyniwyd gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn cydnabod dyfarniadau grant yn llawn pan gânt eu cymeradwyo, ni waeth pryd y bydd arian parod ar gyfer y dyfarniadau hynny yn ddyledus i'w talu. Felly, mae ein canlyniad ariannol, a fesurir trwy warged neu ddiffyg, yn gallu amrywio yn sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, cofnodwyd gwarged o £58 miliwn yn dilyn diffyg o £49 miliwn yn 2023-24. Ceir asesiad manylach o'n perfformiad yn y dadansoddiad perfformiad a'r datganiadau ariannol.

## Busnes gweithredol

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol. Mae ein datganiad sefyllfa ariannol yn cofnodi rhwymedigaethau net sylweddol. Mae hyn o ganlyniad i'n polisi cydnabod dyfarniadau grant sy'n cofnodi gwerth llawn dyfarniadau ar adeg cymeradwyo a hysbysu (ac eithrio pan fydd meini prawf perfformiad penodol) er na fydd y taliadau arian parod o bosib yn berthnasol am beth amser. Rydym yn rheoli ein rhwymedigaethau ar sail ein gallu i fodloni'r galw arian parod o adnoddau arian parod cyfredol.

Mae rhagolygon incwm y dyfodol yn deillio o ragamcanion y gweithredwr ac yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae hyn yn tybio, fel mater o bolisi cyhoeddus, y bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy

## Dadansoddiad perfformiad

### Perfformiad ariannol

Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol a wariwn ar ei ddosbarthu trwy grantiau. Rydym yn eithrio o'r mesuriad hwn y costau rydym yn eu hail-godi ar bobl eraill, er enghraifft, y costau o ddosbarthu ariannu nad sy'n arian y Loteri Genedlaethol gan gynnwys mewn perthynas â'r cynllun asedau segur. Hefyd, rydym yn eithrio costau penodol eraill, er enghraifft costau unigol sy'n fuddsoddiadau neu ailstrwythuro i gyflawni mesurau effeithlonrwydd yn y dyfodol (gweler Nodyn 8 y datganiadau ariannol). Mae TAW anadferadwy hefyd wedi'i heithrio.

Mae'r Llywodraeth yn pennu uchafswm targed ar gyfer costau gweithredu'r holl ddosbarthwyr Loteri. Ar gyfer 2024-25, gosodwyd hyn ar 7.75% o'n hincwm Loteri Genedlaethol, gyda gollyngiad dros dro i 8% ar gyfer dosbarthwyr dim ond lle bo angen. Ym mis Mawrth 2025, estynnwyd y gollyngiad hwn tan fis Mawrth 2027. Caiff y mesur hwn ei asesu dros gyfnod treigl o dair blynedd. Mae rhagolygon costau gweithredu cyfredol y Gronfa yn dangos na fydd angen i ni ddefnyddio'r eithriad.

### Yr hyn a gyflawnom yn 2024-25

Rydym 12 mis ymlaen ar ôl yr ehangu mwyaf yn ein hariannu ers tri degawd ac mae'n amser delfrydol i fyfyrio ar yr hyn rydym eisoes wedi'i gyflawni a ble rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ymhellach i gyflawni newid beiddgar i gymunedau.

Yn ystod y flwyddyn cyflawnwyd yn llwyddiannus yn erbyn y targed costau gweithredu 7.75% a bennwyd gan y Llywodraeth. Cyfanswm y gwariant gweithredu cymwys ar gyfer gweithgareddau dyrannu grantiau'r Loteri Genedlaethol oedd £50.3 miliwn, £1.1 miliwn yn uwch nag yn 2023-24. Mae hyn yn cyfateb i 6.7% o incwm y Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn a 6.7% dros y cyfnod o dair blynedd hyd at fis Mawrth 2025. Ein perfformiad yn y ddwy flynedd cyn hynny oedd 6.8% a 6.6% yn y drefn honno. Ar y sail hon, roedd costau gweithredu'r Gronfa dros y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2025 £23.1 miliwn yn is nag y caniateir gan y mesuriad effeithiolrwydd. Gwneir y gwarged hwn ar gael ar gyfer gweithgareddau dyrannu grantiau.

Mae costau staff yn gyfran sylweddol o'n costau gweithredu. Mae ein niferoedd staff wedi gostwng yn ystod y flwyddyn, gyda nifer cyfwerth ag amser llawn (CaALl) o 765 (2023-24: 804). Mae hyn yn dilyn y disgwyliad a osodwyd yn flaenorol o amrywiad wrth i ni symud trwy weithredu ein strategaeth, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r gweithgaredd ailstrwythuro a adroddwyd yn ein datganiadau ariannol.

Rydym wedi cofnodi incwm asedau segur o £143.4 miliwn (2023-24 £90.4 miliwn ) yn ystod y flwyddyn gan Reclaim Fund Ltd ac yn rhagweld incwm yn 2025-26 yn yr ystod £139 miliwn - £145 miliwn.

## Beth rydym yn bwriadu ei gyflawni yn 2025-26?

Mae'r gyllideb yn seiliedig ar ddatblygu gweithgareddau i gefnogi ein cynllun corfforaethol, parhau ein rhaglen o newid a cheisio effeithiolrwydd i'n galluogi i ddyfeisio a chyflwyno gweithgareddau ariannu a fydd yn ein cefnogi i ymgorffori'r strategaeth newydd.

Rydym yn hyrwyddo dulliau beiddgar sy'n arwain at newidiadau go iawn a hirdymor. Rydym yn gweithio dros gymunedau, gyda chymunedau. O'r gwaelod i fyny – yr holl ffordd i fyny.

Rydym wedi cyllidebu i gyflawni cyfanswm costau gweithredu o fewn y trothwy costau o 7.75% yn 2025-26, ond gyda'r capasiti am rywfaint o fuddsoddiad ychwanegol yn uchelgeisiau strategol y Gronfa a gwelliannau i'r gwasanaeth yn seiliedig ar y dull mesur treigl tair blynedd.

Mae'r targed yn seiliedig ar incwm y Loteri Genedlaethol wedi'i gyllidebu ar £705 miliwn, sy'n deillio o'n rhagolwg o'r refeniw (yn seiliedig ar ragamcanion y gweithredwr) ar gyfer 2025-26 ar adeg paratoi'r gyllideb.

Wrth i ni symud i ail flwyddyn ein cynllun corfforaethol a pharhau i ddyfnhau a datblygu perthnasoedd â Gweithredwr newydd y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth newydd y DU, mae ein ffocws ar ein pedair nod cymunedol a'n huchelgais yn parhau'n glir. Bydd ein rhaglenni ariannu wedi'u hadnewyddu ledled Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU gyfan yn rhoi lle canolog i'n noau dan arweiniad y gymuned. Edrychaf ymlaen at fwrw ymlaen â'n nodau, harneisio arloesedd, ehangu ymdrechion ar lawr gwlad a hyrwyddo atebion beiddgar, dan arweiniad y gymuned.

## Ein gwarged ar gyfer y flwyddyn

Fe wnaethom gofnodi gwarged o £58 miliwn ar gyfer y flwyddyn 2024-25 (2023-24: diffyg o £49 miliwn). Ein diffyg cronnus ar 31 Mawrth 2025 oedd £237 miliwn (31 Mawrth 2024: £295 miliwn). Rhagwelwyd y diffyg hwn trwy ein cynllunio ariannol ac mae'n cyd-fynd â'r disgwyliadau wrth i ni geisio gwneud y mwyaf o weithgarwch dyfranu grantiau heb fod yn agored i rsig gormodol.

Mae ein polisi cyfrifyddu'n trin dyfarniadau fel gwariant mor fuan ag y bydd eu cymeradwyaeth wedi'i chyfathrebu i'r derbynnydd (yn amodol ar feini prawf penodol). Yn yr un modd â holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol, rydym yn rheoli ein llif arian dros y tymor hwy yn seiliedig ar rwymedigaethau arian grant a rhagamcaniadau incwm yn hytrach na cheisio cyflawni unrhyw warged neu ddiffyg blynyddol penodol.

Telir dyfarniadau dros nifer o flynyddoedd ac rydym yn hyderus y bydd modd i ni fodloni ein rhwymedigaethau o incwm y dyfodol wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Ar gyfer gweithrediadau'r Loteri Genedlaethol yn unig, cofnodom ddiffyg o £68 miliwn am y flwyddyn (2023-24: diffyg o £11 miliwn). Yr incwm ar gyfer 2024-25 oedd £717.3 miliwn, sydd ychydig yn uwch nag yn 2023-24 (£689.3 miliwn) ac yn uwch na'r gyllideb a bennwyd gennym.

Mae hyn yn adlewyrchu cryfder hylifedd sylfaenol y Gronfa a maint ein huchelgais drwy ein strategaeth.

Rydym yn cydnabod bod ansicrwydd cynyddol ynghylch lefelau incwm wrth i ni drosglwyddo i gyfnod trwydded a gweithredwr y Loteri Genedlaethol newydd, ac rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o ffactorau macro-economaidd, megis pwysau costau byw, a allai effeithio'n andwyol ar werthiant y Loteri Genedlaethol. Rydym wedi cymryd camau i liniaru'r risg hon drwy weithio'n agos gydag Allwyn i ddeall rhagamcanion y dyfodol a sicrhau ein bod yn diogelu ariannu sydd ar gael i'w ddosbarthu i gymunedau'r DU.

Mae cyfanswm ein dyfarniadau ar gyfer 2024-25 £81 miliwn yn uwch na'r llynedd sef £767.1 miliwn (2023-24: £686.3 miliwn) ac yn unol â'r gyllideb a osodwyd gennym wrth i ni barhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau ledled y DU a chyflawni canlyniadau cadarnhaol trwy ein grantiau.

Cofnodwyd gwarged ar gyfer asedau cyfrifon segur o £121 miliwn (2023-24: diffyg o £32 miliwn). Roedd incwm £53 miliwn yn uwch sef £150 miliwn (2023-24: £98 miliwn) ac roedd dosbarthu trwy ddyfarniadau a throsglwyddiadau i sefydliadau eraill £101 miliwn yn is sef £26 miliwn (2023-24: £127 miliwn) wrth i ni aros am gyfarwyddiadau gwario pellach i'w cyhoeddi mewn perthynas â dyraniad Lloegr.

## Ein strategaeth ariannu

Ar gyfer rhaglenni ariannu'r Loteri Genedlaethol, ein strategaeth yw dyfarnu'r uchafswm y gallwn ymrwymo iddo'n ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd, o ystyried incwm disgwyliedig, yn deillio o ragamcaniadau'r gweithredwr. Gan fod nifer o'n grantiau yn talu allan dros nifer o flynyddoedd ar ôl y dyfarniad cychwynnol, mae'r strategaeth hon yn sicrhau bod y prosiectau a gweithgareddau a gefnogir gan ein dyfarniadau yn gallu cyflwyno'u buddion mor gynnar â phosib, tra'n sicrhau ein bod yn amddiffyn ein hunain rhag unrhyw newidiadau annisgwyl mewn incwm.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gennym £995 miliwn (2023-24:£944 miliwn) o ymrwymiadau yn ddyledus mewn perthynas â dyfarniadau a wnaed ond fe gadwom £552 miliwn (2023-24: £530 miliwn) yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) er mwyn eu bodloni. Mae hyn yn golygu yr oeddem wedi gwneud rhwymedigaethau net o £443 miliwn (2023-24: £414 miliwn) uwchben yr adnoddau sydd ar gael i ni ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i tua 7.5 mis o incwm y Loteri Genedlaethol yn y dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcaniadau cyfredol.

## Rhaglenni ariannu nad ydynt gysylltiedig â'r Loteri Genedlaethol

Yn ychwanegol at ein busnes craidd o ddosbarthu arian achosion da'r Loteri Genedlaethol, rydym hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu arian sydd wedi'i ryddhau o Reclaim Fund Ltd o dan y trefniadau yn Neddfau Asedau Segur 2008 i 2022. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u cynnwys o fewn ein datganiadau ariannol cyfunedig. Disgrifir hefyd set o gyfrifon cryno ar gyfer y gweithgaredd hwn yn nodyn 31a y cyfrifon.

Mae Deddfau Asedau Segur 2008 i 2022 yn galluogi banciau, cymdeithasau adeiladu a sefydliadau ariannol eraill i drosglwyddo arian a ddelir mewn cyfrifon segur i gronfa ganolog i'w fuddsoddi yn y gymuned. Gan ddefnyddio cronfeydd y cynllun, mae'r Gronfa'n dyfarnu grantiau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon dan gyfarwyddyd

polisi a amlinellir gan y gweinyddiaethau datganoledig. Ar gyfer Lloegr, roedd cyfarwyddiadau polisi gwreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol bod ariannu'n cael ei basio'n gyfan gwbl at Big Society Capital sy'n gweithredu fel cyfanwerthwr buddsoddiad cymdeithasol. Diweddarwyd y cyfarwyddiadau hyn wedyn, gydag arian yn Lloegr hefyd yn cael ei ddosbarthu gan Access-The Foundation for Social Investment, Fair4All Finance a Youth Futures Foundation. Cyfarwyddiadau polisi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS sy'n pennu'r symiau a drosglwyddir i bob un o'r mudiadau hyn i'w dosbarthu ymlaen.

Yn dilyn codi'r arian o Reclaim Fund Limited, rydym yn adneuo arian tan fod angen y rhain i fodloni ymrwymiadau grant neu rwymedigaethau trosglwyddo. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd llog gwerth £6.9 miliwn (2023-24: £7.5 miliwn) mewn perthynas â'r arian hwn.

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 hefyd yn amlinellu pwerau i'r Gronfa weithio gyda mudiadau eraill i ddosbarthu arian. Rydym yn cyfeirio at y gweithgareddau hyn fel rhaglenni trydydd parti. Mae'r pwerau hyn yn rhoi'r cwmpas i ni ddosbarthu arian ar ran, neu ochr yn ochr â, mudiadau eraill pan ddaw hyn o fewn y meysydd ariannu a bennir gan y Ddeddf ar gyfer ein gwaith a'i fod yn gweddu i'n hamcanion strategol. Yn ystod y flwyddyn, dosbarthwyd ariannu gwerth cyfanswm o £7.8 miliwn trwy'r dull hwn dros arianwyr eraill.

Pan fydd penderfyniadau arian grant o dan y rhaglenni hyn yn cael eu gwneud yn y pen draw gan yr ariannwr trydydd parti, a'n bod yn gweithredu fel yr asiant darparu arian ar gyfer y trydydd parti yn unig, nid ydym yn cofnodi derbyn y cronfeydd eu hunain na'r grantiau a wnaed yn ein cyfrifon ein hunain.

Rydym yn adennill y costau o ymgymryd â'r gweithgaredd hwn o'r arianwyr perthnasol ac yn cofnodi hwn fel incwm. Un esiampl o'r math yma o weithgarwch yw dosbarthu arian mewn partneriaeth â Llywodraeth Yr Alban yn ymwneud â'r Scottish Land Fund.

Pan fyddwn yn darparu arian ar y cyd neu gyfatebol ar gyfer y rhaglenni hyn rydym yn cofnodi ein cyfran o'r dyfarniadau grant a wnaed mewn gwariant ar raglenni'r Loteri Genedlaethol. Rydym yn cofnodi arian a gedwir i'w dosbarthu yn ein balansau arian yn y datganiad sefyllfa ariannol ynghyd ag unrhyw rwymedigaethau a wnaed cyn derbyn yr arian o'r ariannwr. Mae cofnod o'r balansau ym mhob rhaglen yn nodyn 23 y cyfrifon.

### Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF)

Delir enillion achosion da net y Loteri Genedlaethol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), sydd o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hyd nes y caiff ei dynnu i lawr gan ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol. Mae'r Gronfa yn derbyn incwm buddsoddi a enillir gan NLDF yn ychwanegol at enillion y Loteri Genedlaethol o'r un gyfran ag enillion o dderbynebau'r Loteri Genedlaethol (40%). Yn 2024-25 roedd hyn yn £34 miliwn (2023-24: £34 miliwn). Cododd ein balans yn y NLDF yn ystod y flwyddyn gan £22 miliwn. Mae hyn o ganlyniad i elw'r Loteri fod ychydig yn uwch na'r rhagolwg, ynghyd â thaliadau grant a wnaed yn 2024-25 yn llai nag yr oeddem wedi'i gyllidebu.

Rydym yn cymryd y newid disgwyliedig yn y balans i ystyriaeth ochr yn ochr â rhagamcaniadau o refeniw y dyfodol ac amser rhwymedigaethau dros ben wrth bennu cyllideb dyfarniadau grant y dyfodol. Gan nad ydym yn rheoli incwm y Loteri Genedlaethol nid yw'n bosib i ni reoli'r balans yn y NLDF yn y tymor byr ac felly nid ydym yn pennu targed penodol ar gyfer ein balans, yn hytrach amrediad yr hoffem weithredu oddi fewn iddo.

Rydym yn rhagweld ein llif arian i mewn ac allan yn y dyfodol er mwyn asesu balans isafswm diogel yn y NLDF er mwyn sicrhau y gallwn fodloni ein rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus, gan ganiatáu ar gyfer asesiadau seiliedig ar risg o amrywiadau posib mewn incwm. Bydd y balans gwirioneddol ar unrhyw adeg benodol yn amrywio yn ôl strwythur ac amseru ein rhaglenni grant a'r incwm a gynhyrchir trwy'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y cyfnod dan sylw.

## Ein hamcanion corfforaethol

### Amcan corfforaethol un – gwneud gwahaniaeth

Byddwn yn canolbwyntio ein hariannu a'n cymorth i gael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar gymunedau ledled y DU.

### Beth ydym wedi'i wneud?

Eleni, fe ddyfarnom ni dros 12,000 o grantiau ledled y DU gwerth £767.1 miliwn, gan gyrraedd pob awdurdod lleol, gydag ariannu'n amrywio o ran maint o £220 i £10.9 miliwn. Gan adeiladu ar lwyddiant ein cynnig uwch drwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, rydym wedi parhau i gryfhau ein cynnig ariannu ar lawr gwlad drwy dreialu rhaglen dyfarnu grantiau gwerth £50,000 ac wedi ymestyn cyllidebau i raglenni grantiau bach ar draws oes ein strategaeth 2030, Cymuned yw'r man cychwyn.

Rydym wedi lansio portffolios ariannu newydd yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, wedi'u hategu gan bortffolio ar gyfer y DU gyfan yn 2024 sy'n adlewyrchu ein pedair nod a arweinir gan y gymuned, y fframwaith nodau ac anghenion ariannu ledled y DU. Rydym wedi dechrau datblygu partneriaethau ystyrlon i lywio ein penderfyniadau buddsoddi strategol a chael mwy o effaith. Rydym wedi dylunio strategaeth effaith gyda ffocws ar gefnogi mwy o effaith a gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

### Amcan corfforaethol dau – gwella arferion ariannu

Byddwn yn gwella ac yn arloesi sut rydym yn ariannu ac ein dulliau gweithio, gan flaenoriaethu ymagwedd sy'n seiliedig ar degwch gweithredu amgylcheddol.

### Beth ydym wedi'i wneud?

Rydym wedi treulio amser eleni yn gosod y sylfaen angenrheidiol i wella ein harferion ariannu yn unol â'n dyheadau strategol. Rydym wedi canolbwyntio ar ddeall goblygiadau ein prosesau, polisïau ac arferion presennol, er mwyn datblygu dull sy'n seiliedig ar degwch a fydd yn gwella ein systemau, ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio i gefnogi ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Bydd argymhellion o'r adolygiad ymarferol hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a'r gallu i symud ymlaen tuag at ein hymrwymiadau strategol. Mae gan bob portffolio raglenni wedi'u hadnewyddu i gyd-fynd â'n hymrwymiadau EDI (Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant) o fewn eu blaenoriaethau meini prawf, sydd hefyd yn cynnwys cwblhau asesiadau effaith tegwch.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi datblygu ein dull o gefnogi ein cwsmeriaid, ymgeiswyr a deiliaid grantiau i gryfhau eu dealltwriaeth a'u hymrwymiadau amgylcheddol, sef maes sydd angen ei wella ymhellach drwy gydol 2025-26. Rydym hefyd wedi dechrau defnyddio ein dylanwad a'n harweinyddiaeth i gynnull budd-ddeiliaid a rhannu arbenigedd. Enghraifft o hyn yw ein hymagwedd at ddatblygu egwyddorion ariannu adfywiol yn amgylcheddol. Rydym hefyd wedi datblygu cynlluniau clir ac uchelgeisiol i fod yn esiampl wrth reoli ein heffaith amgylcheddol ein hunain trwy weithio tuag at allyriadau sero net.

### Amcan corfforaethol tri – Un Gronfa

Fel Un Gronfa byddwn yn buddsoddi yn ein pobl, diwylliant, technoleg a gweithrediadau i ragori yn ein cefnogaeth i gymunedau.

### Beth ydym wedi'i wneud?

Mae ein harferion pobl a diwylliant wedi bod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi gosod y sylfeini i arwain a chefnogi ein cydweithwyr er mwyn galluogi gweithlu uchelgeisiol a chynhwysol, sydd wedi'i gyfarparu i gyflawni ein huchelgeisiau strategol. Rydym wedi datblygu strategaeth Pobl a Diwylliant ddrafft sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer Pobl a Diwylliant yn y Gronfa, wedi'i wreiddio yn ein gwerthoedd, er mwyn nodi sut y byddwn yn gweithio i greu effaith fwy ar y cymunedau a wasanaethwn. Drwy ein gwaith datblygu sefydliadol, rydym wedi dechrau llunio a chyflymu ein nodau strategol, gan addasu i'r amgylchedd allanol, a chofleidio technoleg newydd a thrawsnewid digidol sy'n dod i'r amlwg.

Rydym wedi cyflawni hyn wrth weithredu o fewn y trothwy o 7.75%, gan fuddsoddi'n strategol i wella ein heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym yn parhau i weld manteision buddsoddiadau gweithredol blaenorol, a ddangosir gan ein gallu i ddyfarnu £80 miliwn o grantiau ychwanegol eleni, o fewn ein trothwy costau gweithredu.

# Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Ochr yn ochr â'n nodau, mae ein DPA (a osodir mewn cytundeb â DCMS) yn helpu i asesu ein perfformiad mewn sawl maes. Lansiwyd ein dangosyddion perfformiad allweddol newydd ym mis Ebrill 2024 a byddant yn para am gyfnod tair blynedd ein cynllun corfforaethol presennol. Mae'r targedau rydyn ni wedi'u gosod i ni ein hunain i'w cyflawni erbyn diwedd y cyfnod hwn, h.y. 31 Mawrth 2027. Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf ein cynllun corfforaethol, rydym wedi cyflawni pedwar DPA ac wedi cyflawni'n rhannol un o'r wyth DPA a osodwyd gennym ar gyfer y cyfnod tair blynedd. Rydym bellach yn datblygu cynlluniau ar gyfer 2025-26 a 2026-27 i addasu sut rydym yn gweithio i gynyddu ein perfformiad yn y tri mesur arall, yng ngoleuni'r targedau tair blynedd uchelgeisiol ac ymestynnol a osodwyd gennym i ni'n hunain.

## Trosolwg o berfformiad DPA ar ddiwedd y flwyddyn

**DPA 1: Bydd mwy nag 80% o ardaloedd ar draws y DU yn gwneud cais am arian Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a bydd o leiaf 60% o ardaloedd yn derbyn grant.**

| **Ni chyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol eto** | **Adroddiad diwedd blwyddyn** |
|---|---|
| Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf ein cynllun corfforaethol, rydym wedi derbyn ceisiadau am arian Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol gan 79.7% o ardaloedd ledled y DU yn erbyn targed o 80%.<br>Rydym wedi rhoi dyfarniadau i 55.8% o ardaloedd y DU ym mlwyddyn gyntaf ein cynllun corfforaethol yn erbyn targed o 60%. . | Roedd ein strategaeth, Cymuned yw'r man cychwyn, yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu ariannu llawr gwlad a wneir mewn cymunedau ledled y DU. Gosodom dargedau tair blynedd uchelgeisiol i ni'n hunain i gyflawni hyn ac ar ddiwedd blwyddyn lawn gyntaf ein cynllun corfforaethol rydym wedi dod yn agos at gyrraedd y targedau hyn gyda 79.7% o ardaloedd yn gwneud cais am grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a 55.8% o ardaloedd yn derbyn grant. Mae DPA1 yn fesur cronnus ac rydym yn disgwyl cyrraedd ein targed ar gyfer y cyfnod tair blynedd ym misoedd cyntaf 2025-26. |

| **DPA 2: Mae prif ffocws mwy na 90% o grantiau ar un o'r pedair nod a arweinir gan y gymuned** | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Yn ôl swm, roedd 95% o'r grantiau a wnaed yn 2024-25 yn canolbwyntio ar un o'n nodau a arweinir gan y gymuned.<br>Yn ôl gwerth, roedd 96.3% o'r grantiau a wnaed yn 2024-25 yn canolbwyntio ar un o'n nodau a arweinir gan y gymuned. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Fel rhan o'n strategaeth newydd, fe wnaethom ymrwymo i ganolbwyntio ein hariannu ar bedair nod a arweinir gan y gymuned, sef:<br>• cefnogi cymunedau i ddod ynghyd<br>• cefnogi cymunedau i fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol<br>• cefnogi cymunedau i helpu plant a phobl ifanc i ffynnu<br>• cefnogi cymunedau i alluogi pobl i fyw bywydau iachach.<br><br>Yn ystod blwyddyn gyntaf ein cynllun corfforaethol, rydym wedi llwyddo i gyrraedd ein targed o ddyfarnu 90% o grantiau yn ôl swm a gwerth, gyda 95.0% o ddyfarniadau (sy'n cynrychioli 96.3% o gyfanswm gwerth yr arian) yn cael eu gwneud i brosiectau a oedd yn canolbwyntio ar un o'n nodau a arweinir gan y gymuned. |

| **DPA 3: Bydd mwy na 50% o'r holl grantiau yn ôl swm yn mynd i gymunedau sy'n profi'r tlodi a'r anfantais fwyaf** | |
|---|---|
| **Ni chyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol eto**<br>Yn ystod 2024-25, dyfarnwyd 46.8% o'r dyfarniadau i gymunedau sy'n profi'r tlodi a'r anfantais fwyaf.1 | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Mae cyfran y dyfarniadau a wnaed i'r 30% o gymunedau ledled y DU sy'n profi'r tlodi a'r anfantais fwyaf wedi bod yn gyson yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid ydym wedi cyrraedd ein targed o 50% erbyn diwedd cyfnod y cynllun corfforaethol presennol (31 Mawrth 2027) eto, gyda 46.8% o'r dyfarniadau'n cael eu gwneud i gymunedau sy'n profi'r tlodi a'r anfantais fwyaf ar draws blwyddyn gyntaf cyfnod y cynllun corfforaethol. |

1 Yr ardaloedd yw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOAs), sy'n cael eu rhannu'n ddegraddau yn ôl mynegeion amddifadedd lluosog (Lloegr a Chymru), wardiau (Gogledd Iwerddon) a Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban. Mae cymunedau sy'n profi'r tlodi a'r anfantais fwyaf mewn MSOAs sy'n dod o fewn y tri degradd uchaf o fynegai amddifadedd neu ward eu gwlad berthnasol.

| DPA 4: Bydd o leiaf 15% o'n grantiau'n mynd i brosiectau sydd â chynaliadwyedd amgylcheddol fel eu prif nod | |
|---|---|
| **Ni chyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Yn ôl gwerth, dyfarnwyd 9.3% o'r grantiau a wnaed ar draws y flwyddyn i brosiectau gyda chynaliadwyedd amgylcheddol fel eu prif nod.<br>Yn ôl swm, dyfarnwyd 3.8% o'r grantiau a wnaed ar draws y flwyddyn i brosiectau gyda chynaliadwyedd amgylcheddol fel eu prif nod. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Fe wnaethon ni herio ein hunain i gynyddu lefel y dyfarniadau a wnawn sydd â ffocws amgylcheddol a gosod targed heriol i ni ein hunain i wella ein perfformiad yn y maes hwn erbyn diwedd cyfnod y cynllun corfforaethol ym mis Mawrth 2027. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cyfnod hwn, roedd 3.8% o'r dyfarniadau a wnaethom yn canolbwyntio ar wella'r amgylchedd, a oedd yn cynrychioli 9.3% o gyfanswm gwerth yr arian, felly nid ydym wedi cyrraedd ein targed o 15% eto. Mae gwaith ar y gweill i gynyddu cyfran y grantiau a wnawn i brosiectau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd ar draws gweddill cyfnod y cynllun corfforaethol presennol. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu cyfran y grantiau a wnawn i brosiectau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd ar draws gweddill cyfnod y cynllun corfforaethol presennol, ac rydym yn mynd ati i fynd ar drywydd ffyrdd o gynyddu nifer a gwerth y dyfarniadau. |

| DPA 5: Bydd ein sgôr ymgysylltu â chyflogeion yn y chwartel uchaf o gymharu â mudiadau tebyg a chymaradwy | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Gosododd ein sgôr ymgysylltiad â chyflogeion ni yn y chwartel uchaf o sgoriau mudiadau cymharol. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Parhaodd ymgysylltiad â chyflogeion yn y Gronfa yn gryf yn ystod 2024-25 gyda sgôr mynegai o 72%. Yn 2024-25, fe gymharom ein sgôr â mudiadau gwasanaeth sifil eraill drwy Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2024 (tudalen Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2024 gwefan GOV.UK), a oedd yn cymharu'n ffafriol â sgôr canolrifol y Gwasanaeth Sifil o 64%. Gosododd hyn ni yn y chwartel uchaf o fudiadau cymharol, gan gyrraedd ein targed DPA. |

| DPA 6: Mae mwy na 50% o'r cyhoedd yn gyffredinol ac aelodau etholedig (ASau a chynrychiolwyr mewn gweinyddiaethau datganoledig) yn ymwybodol bod y Gronfa'n cefnogi achosion da diolch i'r Loteri Genedlaethol | |
|---|---|
| **Ni chyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Ni chyrhaeddodd ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gyffredinol y targed ar 49.7%.<br>Cyrhaeddodd ymwybyddiaeth ASau o'n pwrpas y targed ar 78%. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Yn ystod blwyddyn gyntaf ein cynllun corfforaethol, rydym wedi cynnal arolwg o aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ogystal ag aelodau etholedig i sefydlu eu hymwybyddiaeth o ddiben y Gronfa. Yn erbyn ein targedau o 50%, roedd 49.7% o'r cyhoedd yn gyffredinol a 78% o'r aelodau etholedig a holwyd yn ymwybodol ein bod yn dosbarthu arian achosion da diolch i'r Loteri Genedlaethol. Arweiniodd hyn atom yn cyflawni'r DPA cyffredinol yn rhannol ym mlwyddyn un ein cynllun corfforaethol. |

| DPA 7: Ni fydd gwerth y dyfarniadau grant yn llai na 95% o'r gyllideb | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Cyfanswm ein dyfarniadau grant o arian y Loteri Genedlaethol oedd £764.6 miliwn sydd 1.1% yn is na'r gyllideb a osodwyd gennym. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Yn ystod 2024-25, dyfarnwyd 98.9% o'n cyllideb grantiau, sy'n uwch na'n targed o 95%. Mae hwn yn gynnydd o fwy nag £80 miliwn ar werth y dyfarniadau grant a wnaed y llynedd.<br>Rydym wedi gosod targed mewnol uchelgeisiol i ni ein hunain ar gyfer ein hymrwymiadau ariannu i fod bob amser ar 100% o'n cyllideb, felly er ein bod wedi cyrraedd y targed cyffredinol ar gyfer 2024-25, mae ein hadroddiadau mewnol yn cofnodi'r sgôr diwedd blwyddyn fel canlyniad ambr. Byddwn yn parhau i ymdrechu i gyflawni 100% o'n cyllideb dyfarniadau ym mhob blwyddyn o gyfnod y cynllun corfforaethol presennol.<br>**Mae ein dangosydd yn seiliedig ar ddyfarniadau gwirioneddol a wnaed yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n cynnwys unrhyw addasiadau diwedd blwyddyn ar gyfer rhwymedigaethau wrth gefn. Dyna pam mae'r gwerth £764.6 miliwn a adroddwyd ar y chwith yn wahanol i gyfanswm yr ymrwymiadau grant a ddangosir yn y datganiadau ariannol.** |

| DPA 8: Boddhad cyffredinol cwsmeriaid dros 80%. | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Roedd boddhad cwsmeriaid yn 86.5% yn 2024-25. . | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Arhosodd boddhad cwsmeriaid yn sefydlog ac ymhell uwchlaw'r targed yn 2024-25, gyda 86.5% yn nodi eu bod yn fodlon â'n gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn (h.y. y rhai a ddewisodd sgoriau o 8-10 allan o 10).<br>Mae cwsmeriaid yn teimlo bod prosesau'r Gronfa yn syml, yn hygyrch a bod ein staff yn eu cefnogi trwy gydol y daith ymgeisio.<br>Pan ofynnwyd iddynt beth allai'r Gronfa ei wneud i wella ei phrosesau, hoffai'r rhan fwyaf gael adborth manylach ar sut i wella ceisiadau yn y dyfodol. |

Yn ychwanegol at y DPA a nodwyd uchod, mae'r Gronfa'n defnyddio nifer o fesurau eraill i asesu cynnydd tuag at ein nodau ac iechyd y mudiad. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ariannol – er enghraifft, pennu ystod briodol y dylai ein balans yn yr NDLF fod o'i mewn, mesurau cwsmeriaid, gan gynnwys dadansoddiad manwl o foddhad cwsmeriaid ag agweddau ar ein prosesau ar draws pob un o'n portffolios a mesurau sy'n gysylltiedig â phobl, megis monitro lefelau absenoldeb gyda rhesymau. Mae'r Pwyllgor Perfformiad a Gwelliant yn asesu cynnydd yn erbyn y mesurau hyn yn rheolaidd. Mae data arall yn ymwneud â'r mesurau hyn yn ymddangos mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, gan gynnwys yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff.

# Risg

Mater allweddol i'r Gronfa yw cydnabod bod ein nod o helpu cymunedau ar draws y Deyrnas Unedig weithiau'n mynnu ein bod yn ariannu o dan amgylchiadau heriol ac yn cymryd risgiau o ran llwyddiant rhai prosiectau. Mae hyn yn gofyn am farn gofalus ar ran ein staff dyrannu grantiau ac mae'n cael ei adlewyrchu yn yr archwaeth risg a nodwyd gennym yn ein themâu risg ariannu a thwyll grantiau, sy'n cydnabod y gallai'r Gronfa wynebu rhai colledion ariannol i gyflawni ei strategaeth.

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i sicrhau bod ein hagwedd at risg yn cefnogi cyflawniad ein strategaeth drwy rymuso pobl a chymunedau. Drwy fuddsoddi a gwneud y defnydd gorau o'n holl adnoddau – ein pobl, ein tystiolaeth a'n heffaith a'n harian, rydym yn ceisio hyrwyddo arloesedd yn ein harfer i gryfhau cymdeithas a gwella bywydau a harneisio partneriaeth a chydweithio wrth fynd ar drywydd newid trawsnewidiol tymor hwy.

Yn hytrach na dileu risg, rydym yn canolbwyntio ar ei deall a'i rheoli. Rydym yn croesawu risgiau sy'n angenrheidiol i gyflawni effaith drawsnewidiol, ond rydym yn cymryd camau i liniaru eu tebygolrwydd a'u heffaith, gan sicrhau y gallwn barhau i ddyrannu grantiau beiddgar a hygyrch. Rydym yn cydnabod bod y graddau o risg yr ydym yn fodlon ei chymryd yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol, ac rydym yn monitro ac yn addasu ein harchwaeth am risg i sicrhau ei fod yn cefnogi llwyddiant uchelgeisiol a chynaliadwy.

Mae'r Gronfa'n cynnal strwythur amddiffyn tair llinell i reoli ei fframwaith risg, gyda'r Pennaeth Rheoli Risg yn gweithio gyda pherchnogion risg i nodi a lliniaru risgiau a'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd i Bwyllgor Archwilio a Risg (ARC) a Thîm Uwch Reolwyr (UDRh) y Gronfa fod y broses rheoli risg yn ddigonol ac yn effeithiol. Bob chwarter, bydd y Pennaeth Rheoli Risg yn cyflwyno sefyllfa risg y Gronfa i'r UDRh lle caiff ei hadolygu am gysondeb a chyflawnrwydd. Unwaith y cytunir ar y sefyllfa risg, paratoir adroddiadau risg ar gyfer ARC, sy'n darparu goruchwyliaeth chwarterol o effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg. Caiff y llyfr Oren a ddosberthir i swyddogaethau'r llywodraeth ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y Gronfa'n cydymffurfio â'r diweddariadau a'r arferion rheoli risg diweddaraf.

Mae ein fframwaith risg wedi'i gynllunio i'n galluogi i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer meddwl ffres a newid, gan gydbwyso'r rhain â'n hymrwymiad i reoli amlygiad i risg mewn ffordd sy'n cynyddu'r posibilrwydd o lwyddiant a'r effaith gadarnhaol ar y cymunedau a wasanaethwn i'r eithaf. Mae'r Gronfa'n dadansoddi risgiau mewnol ac allanol gan gynnwys risgiau macro er mwyn deall ei phroffil risg.

Gyda chyfnewidioldeb byd-eang allanol ac amlygiad y Gronfa i risg trydydd parti, mae'r Gronfa'n gynyddol ymwybodol o'r angen i reoli ei fframwaith seiberddiogelwch yn ofalus ynghyd â sicrhau bod ei ddata wedi'i ddiogelu. Mae'r Gronfa hefyd yn ymwybodol o'i hangen i amddiffyn arian cyhoeddus rhag gweithgarwch twyllodrus a sicrhau bod ganddi fframwaith rheoli arian gwydn.

Mae'r themâu risg yn cynrychioli Fframwaith Rheoli Risg y Gronfa a sefydlwyd gan y Gronfa i helpu i nodi, rheoli ac adrodd ar y risgiau sy'n codi oherwydd ei gweithgareddau a darparu ffocws i reoli risg. Y themâu a ystyrir mewn perthynas â rheoli risg yw:

### 1. Ariannol

Mae'r Gronfa'n ymrwymo i ddyfarniadau ar sail bodloni'r rhwymedigaethau i'r dyfarniadau hynny o dderbynebau sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol yn y dyfodol. Rydym yn rheoli'r risg o anghysondebau mewn incwm trwy ragolygon arian parod cadarn.

Cynyddodd yr incwm yn 2024-25, er bod ffynhonnell y cynnydd yn bennaf oherwydd rhyddhau cronfa wrth gefn a gronnwyd o dan y drwydded flaenorol, a hynny unwaith yn unig. Mae'r Gronfa'n parhau i weithio'n agos gydag Allwyn i ddeall a pharatoi ar gyfer newidiadau mewn incwm dros gyfnod y drwydded. Mae rheoli ein atebolrwydd a llif arian yn y dyfodol wrth ystyried incwm amrywiol yn faes sy'n derbyn llawer o sylw.

Rydym hefyd yn ystyried y rheolaethau ynghylch costau gweithredu ac yn sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y trothwy cost a osodwyd ar ein cyfer gan y Llywodraeth. Rydym yn rheoli ansicrwydd ychwanegol ynghylch lefelau incwm y Loteri Genedlaethol yn y dyfodol yn ystod 2025-34 oherwydd newidiadau i bedwaredd dyfarniad y drwydded ac, yn unol â hynny, rydym yn parhau i gynllunio'n ofalus ar gyfer rhagamcanion incwm a thwf yn y dyfodol.

### 2. Ymgysylltu â budd-ddeiliad yn yr amgylchedd allanol

Ymhlith y risgiau a ystyrir yma mae'r effaith bosib ar enw da yn sgil gostyngiad yn nifer y mudiadau a ariennir ac effaith materion sylweddol yn y sector yn ehangach ar elusennau a grwpiau cymunedol. Rydym yn ymwybodol o'r angen i barhau i ymgysylltu a meithrin perthynas â budd-ddeiliaid gwleidyddol allweddol.

Mae risg hefyd nad yw'r Gronfa'n cyflawni ei huchelgeisiau sy'n ymwneud â KPI6 a KPI8, sy'n golygu nad yw ymgysylltu â budd-ddeiliaid a boddhad cwsmeriaid yn cadw i fyny ag uchelgeisiau strategol y Gronfa.

### 3. Effeithiolrwydd arweinyddiaeth

Rydym yn deall pwysigrwydd effeithiolrwydd ein timau arwain wrth gyflawni ei strategaeth i gefnogi cymunedau o amgylch y Deyrnas Unedig. Mae'r Gronfa'n adolygu perfformiad arweinwyr ar draws y mudiad a'u gallu i weithredu strategaeth y Gronfa ac ymgysylltu â chydweithwyr o bob rhan o'r mudiad, wrth gyflawni'r strategaeth a gweithrediadau busnes fel arfer. Mae'r Gronfa'n mesur y risg hon yn ôl ei pherfformiad a'i chydymffurfiaeth yn erbyn y DPA a gytunwyd gan y Bwrdd a hefyd yn ôl y lefelau ymgysylltu a nodir yn arolygon cydweithwyr y Gronfa. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd arweinyddiaeth wedi lleihau'n gyson gyda sefydlogrwydd cynyddol Uwch Dîm Rheoli'r Gronfa.

### 4. Pobl a diwylliant

Mae'r risgiau a ystyriwyd yn cynnwys ein gallu i wobrwyo ein timau'n briodol mewn marchnadoedd cynyddol gystadleuol, gan sicrhau bod ein timau wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn meddu ar y sgiliau priodol i gyflawni ein huchelgais, lleihau ein risg weithredol a chyflawni ein nodau amrywiaeth o ran cydweddu â natur amrywiol y cymunedau rydym yn eu cefnogi. Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i gefnogi cydweithwyr i wneud y gorau o'u gyrfaoedd ac mae'n ystyried ymgysylltiad gwael â chyflogeion, peidio â chael eu cefnogi i nodi a chyflawni amcanion personol a pheidio â chael eu cefnogi mewn hyfforddiant yn y gweithle fel risgiau i'r uchelgeisiau hyn. Mae'r Gronfa felly'n monitro'r risgiau hyn a bydd yn eu dwysau i gofrestrau risg os oes angen. Mae'r Gronfa wedi nodi cynnydd da yn y meysydd hyn yn ystod y flwyddyn, gan wneud newidiadau cadarnhaol sydd wedi lleihau lefel y risg.

### 5. Rheoli prosiectau a rhaglenni

Wrth i'r Gronfa barhau i weithredu ei strategaeth 2030, Cymuned yw'r man cychwyn, mae yna nifer o brosiectau a rhaglenni ar raddfa fawr sy'n gofyn am y sgiliau angenrheidiol, systemau monitro a chefnogaeth allanol i alluogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn llwyddiannus ac yn amserol. Drwy ein fframwaith adrodd ar brosiectau mewnol, mae'r Gronfa wedi ymrwymo i gyflawni prosiectau a rhaglenni ar amser, o fewn y gyllideb ac i'r fanyleb ofynnol er mwyn cynnig gwerth am arian cyhoeddus. Rydym yn ystyried y risg o fethu mewn prosiectau allweddol, gan gynnwys systemau busnes a seilwaith, ac mae unrhyw risg bosibl o brosiectau heb eu cyflawni yn cael ei hychwanegu at Adroddiad perfformiad gofrestrau risg prosiectau. Yna caiff rheolaethau a chamau gweithredu digonol eu rhoi ar waith i liniaru'r risg hon. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw brosiectau y bernir eu bod yn uwch na'r archwaeth fel y'u diffinnir gan y trothwyon risg y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2024.

### 6. Rheolaethau cyn dyrannu grantiau

Prif weithgaredd y Gronfa yw cefnogi cymunedau gyda dyfarniadau i fudiadau lleol sy'n darparu cefnogaeth ledled y DU. Mae'r gweithrediadau hyn yn golygu bod y Gronfa yn agored i nifer o risgiau gyda'n grantiau, gan gynnwys y risg bosibl i enw da prosiectau neu fudiadau a ariennir sy'n methu neu nad ydynt yn cyrraedd y safonau a ddisgwylir ganddynt. Mae'r Gronfa'n cydnabod, wrth gyflawni'r prif weithgaredd hwn, fod ganddi gyfrifoldeb i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a'i ddiogelu rhag rhoi grantiau nad ydynt yn cynrychioli gwerth neu sy'n amlygu'r Gronfa i golledion ariannol.

Mae'r Gronfa wedi datblygu fframwaith hyfforddiant cadarn sy'n gysylltiedig â sgiliau dyrannu grantiau, polisïau dyrannu grantiau a gweithdrefnau diogelu. Mae'r Gronfa'n mesur cydymffurfiaeth cydweithwyr â'r fframwaith hwn i sicrhau bod dyrannu grantiau yn cydymffurfio â disgwyliadau'r Bwrdd ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r cyhoedd. Mae'r rheolaethau cyn dyrannu grantiau yn caniatáu i swyddogion ariannu gynnal dadansoddiad risg o geisiadau am grantiau a neilltuo sgoriau a rheolaethau risg priodol i reoli risg sy'n gysylltiedig â rhoi grantiau.

### 7. Risgiau ar ôl dyrannu grantiau

Wrth i'r Gronfa weithredu ei strategaeth, Cymuned yw'r man cychwyn, bydd cydweithwyr ariannu yn rheoli ceisiadau am grantiau y bernir eu bod o natur risg uchel. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys risgiau ariannol, risgiau i enw da, gallu mudiad i gyflawni ei strategaeth a'r ffordd y mae mudiad sy'n ymgeisio yn cael ei lywodraethu'n fewnol, gan o bosibl amlygu'r Gronfa i risg trydydd parti. Gall grantiau risg uchel arwain at enillion mawr i gymuned ac mae'r Gronfa'n annog ei chydweithwyr i chwilio am gyfleoedd i gyflawni strategaeth y Gronfa. Fodd bynnag, mae'r Gronfa'n cydnabod nad oes ganddi awydd diderfyn am grantiau risg uchel ac mae wedi pennu parodrwydd cyfatebol i sicrhau nad yw'n dal symiau gormodol o risg uchel o fewn ei gweithgareddau ariannu a allai effeithio'n negyddol ar enw da neu effeithio'n ariannol. Mae'r tîm risg yn dadansoddi ac yn adrodd ar amlygiad y Gronfa i ddyrannu grantiau risg uchel bob chwarter fel rhan o'i phroses gymedroli risg i sicrhau bod y Gronfa'n parhau o fewn ei pharodrwydd i ddyrannu grantiau risg uchel.

## 8. Technoleg a Seiberddiogelwch

Mae'r potensial ar gyfer camfanteisio ar wendidau heb eu darganfod yn golygu bod risg o doriadau i wasanaethau neu gyfaddawdu data y mae'n rhaid i'r Gronfa eu rheoli'n rhagweithiol. At hynny, gallai ein gwneud yn agored i niwed i enw da oherwydd achosion posibl o dorri amodau, gan gynnwys colli data cwsmeriaid a dirwyon rheoleiddiol. Rydym yn wyliadwrus o dirwedd esblygol bygythiadau seiber a'u soffistigedigrwydd cynyddol. O ganlyniad, rydym yn cynnal dull rhagweithiol o reoli'r risgiau hyn drwy ddiweddaru a phrofi ein mesurau seiberddiogelwch yn gyson i sicrhau eu heffeithiolrwydd a'u perthnasedd.

Mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd risgiau seiber a diogelu data trwy gadw risg seiberddiogelwch bob amser ar Gofrestr Risg y Mudiad fel y gall yr UDRh dderbyn diweddariad chwarterol gan arbenigwyr pwnc.

Mae'r Gronfa'n cydnabod risgiau seiber mewnol ac allanol, gan gynnwys gwallau dynol ac ymosodiadau wedi'u targedu. Er na all y Gronfa atal pob bygythiad, mae ganddi oddefgarwch isel ar gyfer hyfforddiant annigonol neu systemau hen ffasiwn. Er mwyn lleihau risg, mae'n sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n dda a bod isadeiledd TG yn cael ei gadw'n gyfredol, gan gynnal sefyllfa seiberddiogelwch cryf a gwydn.

## 9. Twyll grantiau

Rydym yn wynebu risg o dwyll drwy ecsbloetio ein rhaglenni ariannu, boed hynny drwy geisiadau twyllodrus neu gamddefnyddio grantiau. Wrth bennu'r archwaeth am y risg hon, rydym yn cymryd gofal i gydbwyso ariannu arloesol fel ei fod yn gynhwysol ac ar gael i bawb o fewn gofynion rheoli arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r Gronfa'n parhau i fod ag archwaeth isel o ran cael ei thargedu'n fwriadol gan weithgareddau twyllodrus. O ganlyniad, mae'r Gronfa wedi mabwysiadu dau ddull o ymdrin â risg twyll grantiau er mwyn cyflawni ei strategaeth a lleihau'r risg a achosir gan ddrwgweithredwyr. Mae'r trothwyon wedi'u sefydlu i ddefnyddio strwythurau gweithredol a modelau rheoli presennol yn y ffordd fwyaf effeithiol drwy osod rheolaethau gwrth-dwyll y Gronfa naill ai fel rhai cyn dyfarnu grant neu rai ar ôl dyfarnu grant. Mae hyn yn rhoi'r llwyfan gorau i'r Gronfa gyflawni ei strategaeth, cefnogi cymunedau a lleihau'r risg o dwyll.

## 10. Yr amgylchedd a hinsawdd

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni gymryd camau digonol i leihau ein heffaith amgylcheddol ein hunain, ac effaith y mudiadau a ariannwn, er mwyn osgoi colli cyfleoedd a methu â chyfrannu at sero net erbyn 2030. Mae'r Gronfa'n nodi, asesu a rheoli risg hinsawdd drwy olrhain cynnydd yn erbyn ei Chynllun Amgylcheddol a'i Chynllun Blynyddol, gan sicrhau bod cyfarwyddiaethau'n ystyried y strategaeth amgylcheddol yn ystod eu cynllunio busnes. Ymhellach, mae ein cynllun corfforaethol yn ein hymrwymo i fuddsoddi o leiaf 15% o'n grantiau mewn prosiectau sydd â chynaladwyedd amgylcheddol fel eu prif nod.

Yn ogystal, mae nwyddau a gwasanaethau a brynwyd gan y Gronfa yn cyfrannu 56% o'r ôl troed cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae'r tîm Caffael wrthi'n adolygu mecanweithiau i fesur a lleihau'r effaith amgylcheddol gyffredinol drwy werthuso cynigion a rheoli contractau.

Ystyrir ar hyn o bryd nad yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r hinsawdd yn goddef goddefiant, sy'n golygu bod angen mwy o weithredu er mwyn i'r Gronfa gyrraedd ei tharged. Mae uwch arweinwyr yn mynd ati i fonitro risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r hinsawdd fel eu bod yn cael y lefel gywir o oruchwyliaeth a thyniant fel rhan o strategaeth y Gronfa.

## 11. Llywodraethu data/Materion cyfreithiol a rheoleiddiol

Gallai methu â rhoi ystyriaeth briodol i fframwaith statudol a rheoleiddiol y Gronfa a'i statws fel corff cyhoeddus anadrannol neu ei rhwymedigaethau cytundebol allweddol arwain at gamau cyfreithiol (gan gynnwys adolygiad barnwrol) neu ddirwyon yn erbyn y Gronfa a niwed i enw da. Mae ein system o reolaethau, ynghyd â throsolwg tîm rheoli profiadol a thîm Cyfreithiol mewnol, wedi'i gynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol. Ar hyn o bryd nid oes gan y Gronfa unrhyw risgiau agored sy'n gysylltiedig â'r thema risg gyfreithiol a rheoleiddiol sy'n adlewyrchu lefel o aeddfedrwydd gweithredol o ran sut mae'r Gronfa'n gweithredu o fewn fframweithiau statudol a rheoleiddiol. Data yw un o'r asedau mwyaf gwerthfawr sydd gan y Gronfa ac, fel y cyfryw, bydd unrhyw golli data neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau rheoli data yn arwain at golli enw da, difrod ariannol a dwyn eiddo deallusol. Mae'r Gronfa wedi sefydlu thema risg allweddol o ran llywodraethu gwybodaeth a thrin data er mwyn monitro cydnawsedd â rheoliadau rheoli data.

Mae'n cymryd y camau angenrheidiol drwy fesurau rheoli risg a chamau gweithredu i liniaru unrhyw amgylchiadau lle mae'r Gronfa y tu allan i'r archwaeth risg a gytunwyd. Rydym wedi dechrau mesur risg trin data ers 2024. Mae natur gydnerth y rheolaethau seiberddiogelwch yn golygu bod risg i ddata yn y Gronfa yn cael ei hystyried yn isel. Fodd bynnag, mae prosiectau sy'n ymwneud â chadw data yn dal i gael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y Gronfa'n parhau i gydymffurfio â rheoliadau rheoli data perthnasol.

## Gwelliant parhaus

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i sicrhau bod ei fframwaith rheoli risg yn wydn ac wedi'i gynllunio'n strategol i oruchwylio a mynd i'r afael â risgiau wrth gynnal rheolaeth fewnol o fewn y mudiad. I gyflawni hyn, mae'r Gronfa'n cydnabod bod yn rhaid adolygu a diweddaru ei fframwaith yn rheolaidd os nodir gwendidau.

Ym mis Tachwedd 2024, cynhaliodd y Gronfa ymarfer i asesu ei hun yn erbyn yr asesiad 'Goresgyn Heriau i Reoli Risgiau yn y Llywodraeth' a ddosbarthwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cwblhawyd yr asesiad gan y Pennaeth Rheoli Risg a'i wirio'n annibynnol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol am gywirdeb.

Perfformiodd y Gronfa'n dda yn erbyn yr asesiad, gyda 86% o'r cwestiynau a ofynnwyd yn cael eu hasesu naill ai fel Cytuno neu Cytuno'n Gryf a rhoddodd sicrwydd bod y broses rheoli risg yn aeddfed ac yn gweithredu yn unol â disgwyliadau'r llywodraeth. Nododd yr asesiad hefyd rai meysydd i'w gwella a fydd yn cael eu datblygu yn 2025.

## Cydraddoldeb yn cyrchu ariannu

Felly, er bod ein hariannu ar gael i bob cymuned, byddwn yn buddsoddi fwyaf lle mae'r angen mwyaf, gyda phobl, llefydd a chymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu.

Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar degwch i gyfrannu at leihau anghydraddoldebau drwy gefnogi cymunedau sy'n wynebu anfantais neu wahaniaethu yn benodol. Rydym yn gweithio'n barhaus i esblygu cyrhaeddiad ein gwahoddiad a'n croeso. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn gweithio gyda'r asedau a'r wybodaeth y mae pobl amrywiol yn dod â nhw i'w cymunedau ac i'r Gronfa.

Mae ein hegwyddorion ac arweiniad cydraddoldeb ar gyfer ymgeiswyr a deiliaid grant ar gael ar ein gwefan: tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/customer-service/equalities.

Mae'r tabl isod yn nodi ein hadroddiad monitro ar gydraddoldeb ar gyfer 2024-25, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr.

## Pobl ag Anableddau

| | Nifer y ceisiadau | Nifer y grantiau | Swm y | Grant value |
|---|---|---|---|---|
| **Ie** | 4,687 | 2,289 | £561,351,154 | £177,338,239 |
| **Na** | 29,987 | 10,866 | £2,703,763,581 | £614,184,897 |

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl anabl. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un grŵp ac felly mae'n bosib bod yr atebion hyn yn cael eu cynnwys mwy nag unwaith.

## Menywod a merched

| | Nifer y ceisiadau | Nifer y grantiau | Swm y | Grant value |
|---|---|---|---|---|
| **Ie** | 3,091 | 1,193 | £357,915,004 | £101,632,248 |
| **Na** | 31,583 | 11,962 | £2,907,199,731 | £689,890,888 |

Gofynnir i ymgeiswyr a fydd eu prosiect o fudd pennaf i fenywod a merched.

## LHDT+

| | Nifer y ceisiadau | Nifer y grantiau | Swm y | Grant value |
|---|---|---|---|---|
| **LHDT+** | 1,036 | 397 | £158,825,776 | £29,710,573 |
| **Heb ei dargedu at LHDT+** | 33,638 | 12,758 | £3,106,288,959 | £761,812,563 |

Gofynnir i ymgeiswyr a fydd eu prosiect o fudd pennaf i aelodau'r gymuned LHDT+. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un grŵp ac felly mae'n bosib bod yr atebion hyn yn cael eu cynnwys mwy nag unwaith..

## Ethnigrwydd

| | Nifer y ceisiadau | Nifer y grantiau | Swm y gofynnwyd amdano | Gwerth y grant |
|---|---|---|---|---|
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd** | | | | |
| **Affricanaidd** | 2,351 | 756 | £259,194,643 | £73,918,260 |
| **Caribïaidd** | 1,877 | 575 | £240,492,127 | £60,968,595 |
| **Du Prydeinig** | 2,113 | 625 | £284,557,447 | £67,181,600 |
| **Unrhyw gefndir Du/ Affricanaidd/Caribïaidd arall** | 2,018 | 631 | £252,925,176 | £69,247,498 |
| **Asiaidd** | | | | |
| **Bangladeshaidd** | 1,444 | 508 | £225,476,908 | £49,911,116 |
| **Tsieineaidd** | 1,017 | 344 | £145,514,204 | £36,586,140 |
| **Indiaidd** | 1,441 | 488 | £217,330,042 | £47,758,161 |
| **Pacistanaidd** | 1,515 | 528 | £228,216,063 | £52,381,430 |
| **Asiaidd Prydeinig** | 1,594 | 531 | £235,525,030 | £50,191,248 |
| **Unrhyw gefndir Asiaidd arall** | 1,452 | 518 | £237,069,623 | £56,075,531 |
| **Arabaidd** | 1,212 | 431 | £172,407,016 | £46,835,839 |
| **Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr** | 860 | 295 | £123,076,159 | £38,159,368 |
| **Iddewiaeth** | 1,026 | 336 | £112,917,946 | £27,465,389 |
| **Ethnigrwydd lluosog/ cymysg** | 2,306 | 751 | £309,350,515 | £82,580,187 |
| **Unrhyw grŵp ethnig arall** | 1,386 | 506 | £179,979,836 | £54,567,802 |
| **Dim ethnigrwydd penodol** | 30,535 | 11,700 | £2,790,740,539 | £671,395,378 |

Gofynnir i ymgeiswyr a fydd eu prosiect o fudd pennaf i bobl o gymunedau penodol sy'n profi annhegwch ethnig neu hiliol, gwahaniaethu neu anghydraddoldeb. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un grŵp ac felly mae'n bosib bod yr atebion hyn yn cael eu cynnwys mwy nag unwaith.

## Crefydd

| | Nifer y ceisiadau | Nifer y grantiau | Swm y gofynnwyd amdano | Gwerth y grant |
|---|---|---|---|---|
| **Bwdhaeth** | 54 | 3 | £19,581,010 | £756,778 |
| **Cristnogaeth** | 524 | 95 | £170,224,999 | £22,758,388 |
| **Hindŵaeth** | 102 | 16 | £36,754,157 | £5,460,782 |
| **Iddewiaeth** | 96 | 17 | £30,230,008 | £5,643,488 |
| **Moslemiaeth** | 253 | 46 | £109,613,566 | £13,468,553 |
| **Sikhiaeth** | 79 | 14 | £37,379,431 | £4,053,622 |
| **Arall** | 121 | 15 | £53,201,252 | £3,553,338 |

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o gefndir crefyddol penodol. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un grŵp ac felly mae'n bosib bod yr atebion hyn yn cael eu cynnwys mwy nag unwaith.

## Oedran

| | Nifer y ceisiadau | Nifer y grantiau | Swm y gofynnwyd amdano | Gwerth y grant |
|---|---|---|---|---|
| **Plant a phobl ifanc** | 6,051 | 2,212 | £653,086,195 | £196,098,252 |
| **Pobl hŷn** | 2,303 | 1,128 | £181,532,593 | £60,165,348 |
| **Dim oedran penodol** | 27,000 | 10,066 | £2,508,067,680 | £557,580,898 |

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o grŵp oedran penodol. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un grŵp o fewn y categorïau oedran plant a phobl ifanc.

## Cefndir cymunedau yng Ngogledd Iwerddon*

| | Nifer y ceisiadau | Nifer y grantiau | Swm y gofynnwyd amdano | Gwerth y grant |
|---|---|---|---|---|
| **Catholig a Phrotestannaidd** | 1,235 | 516 | £410,370,699 | £42,175,390 |
| **Catholig yn bennaf (dros 60%)** | 147 | 74 | £5,839,408 | £5,539,418 |
| **Protestannaidd yn bennaf (dros 60%)** | 180 | 78 | £7,978,617 | £2,227,108 |
| **Dim Ateb/Dim Un** | 33,112 | 12,487 | £2,840,926,012 | £741,581,221 |

*Portffolio Gogledd Iwerddon yn unig

## Siaradwyr Cymraeg**

| | Nifer y ceisiadau | Nifer y grantiau | Swm y gofynnwyd amdano | Gwerth y grant |
|---|---|---|---|---|
| **Y Cwbl** | 62 | 20 | £16,670,047 | £251,621 |
| **Mwy na hanner** | 360 | 142 | £41,446,193 | £4,552,671 |
| **Llai na hanner** | 1,708 | 679 | £567,245,211 | £49,064,312 |
| **Neb** | 126 | 39 | £45,422,648 | £647,244 |
| **Dim Ateb** | 32,418 | 12,275 | £2,594,330,636 | £737,007,288 |

**Portffolio Cymru'n unig

Noder: Mae'r data uchod yn cynrychioli'r holl grantiau a ddosberthir gan y Gronfa, gan gynnwys arian trydydd parti. Nid yw bob amser yn adio i'r un cyfansymiau ar gyfer pob gweithgaredd dyfarnu grant. Mae hyn oherwydd nad yw'r dosbarthwyr yn ein data grant yn fandadol pan gwblheir data ymgeisio ac mae'n bosib y bydd rhai ceisiadau'n cwblhau is-set yn unig o'r cyfanswm. Ar ben hynny, gellir dewis sawl categori mewn nifer o ddosbarthwyr.

## Safonau'r Gymraeg

O ganlyniad i Safonau'r Gymraeg a'n hymagwedd ragweithiol fel mudiad, mae gwasanaethau a gynigir gan y Gronfa i gydweithwyr ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys ein gwasanaethau Adnoddau Dynol a chyrsiau hyfforddiant. Mae tua hanner y cydweithwyr yng nghyfarwyddiaeth Cymru yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr Cymraeg.

Rydym yn annog ein cydweithwyr i ddefnyddio eu Cymraeg a gwella eu sgiliau yn y Gronfa. Mae ein cyfarfodydd Pwyllgor Cymru a chyfarfodydd penderfynu rhaglenni yn cael eu cynnal yn ddwyieithog gyda'r defnydd o gyfieithydd ar y pryd, gan roi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor a chydweithwyr gyfrannu at gyfarfodydd a chael trafodaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ein gweithlu dwyieithog yn caniatáu i'n cwsmeriaid ddilyn eu taith gyda ni yn Gymraeg o'r pwynt cyswllt cyntaf, boed dros y ffôn, ar e-bost, neu trwy gais ysgrifenedig hyd at ddiwedd eu grant. Rydym hefyd yn darparu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol a digidol cwbl ddwyieithog ar draws sawl sianel, gan gynnwys LinkedIn a Facebook. Darperir ein presenoldeb mewn digwyddiadau a chymorthfeydd ariannu yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn hyrwyddo cynyddu cymunedau Cymraeg drwy ein grantiau ac yn cynnig hyfforddiant pwrpasol i'n deiliaid grantiau ar reoli eu prosiectau'n ddwyieithog.

# Adroddiad cynaladwyedd

### Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr, Gwastraff a Defnydd 2024-25

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, cyfanswm ein hallyriadau gweithredol amcangyfrifedig ar gyfer 2024-25 yw 2746.22 t$CO_2$e*.  Mae hyn yn cyfateb i 3.59 t$CO_2$e fesul cyfwerth ag amser llawn (FTE). Yn 2024-25, gwelsom welliant sylweddol yn ein gweithdrefnau adrodd a chynnydd sylweddol yn faint o ddata yr ydym bellach yn gallu cael mynediad iddo, sy'n golygu bod ein ffiniau allyriadau wedi ehangu.

Cofnododd ein Hadroddiad Blynyddol 2023-24 ein cyfanswm allyriadau gweithredol fel 2,326 t$CO_2$e (2.9 t$CO_2$e fesul FTE), ffigur a gyfrifwyd gan yr ymgynghorwyr Useful Projects a ddatblygodd ein Cynllun Net Sero oedd hwn. Ers hynny, rydym wedi gallu cael data mwy cywir ac mae ein hallyriadau wedi'u hailgyfrifo ar gyfer 2023-24 bellach yn 3,323 t$CO_2$e.

Felly, mae ein ffigur ar gyfer 2024-25 yn cynrychioli gostyngiad o 17.36% ar y cyfanswm o 3,323 t$CO_2$e a gofnodwyd gennym ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Mae ein hallyriadau Cwmpas 1 a 2 yn sefyll ar 103.35 t$CO_2$e, sy'n golygu eu bod wedi gostwng 33.71% o allyriadau Cwmpas 1 a 2 y llynedd, a oedd yn 155.91 tCo2e, ac rydym yn sianelu mwy o adnoddau i gyfrifo a lleihau ein hallyriadau Cwmpas 3 (allyriadau anuniongyrchol sy'n digwydd yn ein cadwyn werth, gan gynnwys trwy nwyddau a gwasanaethau a brynir, gweithio gartref a theithio busnes), sy'n cyfrif am oddeutu 95.7% o'n hallyriadau 2024-25.



Diffinio ffin ôl troed carbon gweithredol Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Cwmpas allyriadau 1-3


**Ffigur 2: Ffin ôl troed carbon gweithredol Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Cwmpas allyriadau 1-3**

| | | |
|---|---|---|
| **Cwmpas 1** | | |
| Ffynonellau hylosgi llonydd | Oes | |
| Ffynonellau hylosgi symudol | Nacoes | |
| Allyriadau ffo | Nacoes | |
| **Cwmpas 2** | | |
| Trydan wedi'i brynu | Oes | |
| **Cwmpas 3** | | |
| 1. Wedi prynu nwyddau a gwasanaethau | Oes | I fyny'r gadwyn gyflenwi |
| 2. Nwyddau cyfalaf | Nacoes | I fyny'r gadwyn gyflenwi |
| 3. Gweithgareddau sy'n ymwneud â thanwydd ac ynni | Oes | I fyny'r gadwyn gyflenwi |
| 4. Cludo a dosbarthu i fyny'r gadwyn gyflenw | Oes | I fyny'r gadwyn gyflenwi |
| 5. Gwastraff a gynhyrchir mewn gweithrediadau | Oes | I fyny'r gadwyn gyflenwi |
| 6. Teithio busnes | Oes | I fyny'r gadwyn gyflenwi |
| 7. Gweithwyr yn cymudo | Oes | I fyny'r gadwyn gyflenwi |
| 8. Asedau ar brydles i fyny'r gadwyn gyflenwi | Nacoes | I lawr y gadwyn gyflenwi |
| 9. Cludo a dosbarthu i lawr y gadwyn gyflenwi | Nacoes | I lawr y gadwyn gyflenwi |
| 10. Prosesu asedau a werthwyd | Nacoes | I lawr y gadwyn gyflenwi |
| 11. Defnyddio cynhyrchion a werthwyd | Nacoes | I lawr y gadwyn gyflenwi |
| 12. Triniaeth diwedd oes o gynhyrchion a werthwyd | Nacoes | I lawr y gadwyn gyflenwi |
| 13. Asedau ar brydles i lawr y gadwyn gyflenwi | Oes | I lawr y gadwyn gyflenwi |
| 14. Masnachfreintiau | Nacoes | I lawr y gadwyn gyflenwi |
| 15. Buddsoddiadau | Nacoes | I lawr y gadwyn gyflenwi |

* tunnell (t) o garbon deuocsid ($CO_2$) cyfwerth (e)

# Dadansoddiad cyfanswm ôl troed carbon blwyddyn sylfaen y Gronfa

**Ffigur 3: Cyfanswm amcangyfrif o ôl troed carbon Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer 2024-25 yn ôl categori cwmpas**





Amcangyfrifir mai categorïau cwmpas y Gronfa sydd â'r allyriadau carbon uchaf yw nwyddau a gwasanaethau a brynwyd (55%), cymudo gweithwyr a gweithio gartref (26%) a theithio busnes (10%). Bydd y 'mannau carbon poeth' hyn yn feysydd ffocws allweddol ar gyfer cynllun datgarboneiddio'r Gronfa. Mae'n gyffredin iawn i gategori allyriadau uchaf mudiad gwasanaeth proffesiynol fod yn nwyddau a gwasanaethau a brynwyd.

Mae ffynonellau gweithio gartref yn uchel i'r Gronfa gan fod y rhan fwyaf o gyfanswm yr oriau gwaith yn cael eu cwblhau gartref, mae hyn yn ganlyniad i'n model gweithio hybrid hyblyg ac mae wedi ein galluogi i leihau ein hystâd yn sylweddol.

Mae gweithio tuag at sero net yn un rhan o'n Cynllun Amgylcheddol 2023-30. Mae gan y cynllun bedwar prif nod, gydag arferion mewnol yn eistedd o dan nod rhif tri:

1. Bod yn ariannwr amgylcheddol o safon fyd-eang: cefnogi prosiectau sy'n cael effaith sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd mewn ffyrdd sydd o bwys i gymunedau lleol.
2. Gwella effaith amgylcheddol y sector gwirfoddol a chymunedol: arwain y ffordd yn ein harferion ariannu, cefnogi ac ysbrydoli ein hymgeiswyr a deiliaid grantiau i weithredu i warchod a gwella'r amgylchedd, a throsoli ein safle fel ariannwr cymunedol mwyaf y DU trwy ddechrau prif ffrydio gofynion yn ein holl ariannu.
3. Dod yn esiampl o ran rheoli ein heffaith amgylcheddol: arwain trwy esiampl, a gweithio tuag at sero net, gan rannu ein hymarfer ar hyd y ffordd ac ysbrydoli eraill. Mae'r Cynllun Amgylcheddol yn defnyddio blwyddyn ariannol 2022-23 fel y flwyddyn sylfaenol.
4. Dangos dylanwad ac arweinyddiaeth: cynnull budd-ddeiliaid; mynd ati i arddangos y rôl y mae cymunedau yn ei chwarae wrth wella ein hamgylchedd.

**Ffigur 3: Canran o ymatebwyr arolwg staff y Gronfa sydd ar dariff trydan gwyrdd* (yn seiliedig ar ymatebion gan 52% o'r mudiad)**
***rydym yn diffinio 'gwyrdd' fel 100% adnewyddadwy**





## Arolwg amgylcheddol

Ym mis Hydref 2024, lansiwyd ein Harolwg Amgylcheddol i ddeall canfyddiadau amgylcheddol ein mudiad yn well yn seiliedig ar flwyddyn ariannol 2023-24. Casglodd ddata meintiol a data ansoddol ynghylch arferion cymudo, gan gynnwys cwestiynau ynghylch faint o ymgysylltiad mae cydweithwyr yn teimlo gyda gweithredu amgylcheddol gartref a'u barn ar sut rydym yn gwneud fel mudiad, gyda 52% o gydweithwyr yn cwblhau'r arolwg. Mae'r canlyniadau'n dangos ymwybyddiaeth o'n gweithgaredd ond yn awgrymu bod angen cyfathrebu ac addysg fewnol barhaus (gweler Ffigurau 3 a 4).

Fel rhan o'r arolwg cymudo, gofynnwyd i gydweithwyr am eu harferion cymudo o'r flwyddyn ariannol flaenorol (2023-24)[1], sy'n gweithredu ar wahân i'n teithio busnes. Fe wnaethon ni ddarganfod

**Ffigur 4: Canran o ymatebwyr arolwg staff y Gronfa i'r cwestiwn "A ydych chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich cefnogi gan y Gronfa i wneud dewisiadau amgylcheddol yn eich bywyd bob dydd?" (yn seiliedig ar ymatebion gan 52% o'r mudiad)**




Bod y rhan fwyaf o weithwyr yn teithio hyd at bum milltir i gyrraedd y gwaith, sy'n awgrymu bod ein swyddfeydd mewn lleoliad hygyrch 2. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teithio i'r swyddfa ar drafnidiaeth gyhoeddus (53%), ond mae defnyddio car yn fwyaf cyffredin yn ein swyddfeydd mwy ac yn cynrychioli 40% o'r holl deithio (gweler Ffigurau 4 a 5).


1 Cynhaliwyd ein harolwg cymudo 2024-25 yn ddiweddarach eleni oherwydd capasiti sefydliadol, felly mae'r data hwn yn cynrychioli arferion cymudo gweithwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.

2 Gan fod hyn yn adlewyrchu arferion teithio i'r gwaith ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, dylid nodi ein bod wedi symud ein swyddfa yn Llundain ym mis Ionawr 2024. Mae'r data a gasglwyd yn yr arolwg hwn yn adlewyrchu lleoliad ein swyddfa flaenorol yn Llundain gan i ni ei feddiannu am gyfran fwy o'r flwyddyn. Ni symudwyd unrhyw swyddfeydd eraill rhwng blwyddyn ariannol 2023-24 a 2024-25.

**Ffigur 4: Dadansoddiad o'r mathau o gludiant y mae cydweithwyr y Gronfa yn eu defnyddio i deithio i'r gwaith (yn seiliedig ar ymatebion gan 52% o'r mudiad)**



**Ffigur 5: Dadansoddiad o'r mathau o gludiant y mae cydweithwyr y Gronfa yn eu defnyddio i deithio i'r gwaith, fesul swyddfa (yn seiliedig ar ymatebion gan 52% o'r mudiad)**




Mae ein hallyriadau o deithio i'n swyddfeydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn sefyll ar 354.85 $tCO_2e$. Mae hwn yn naid sylweddol o'n hamcangyfrif ar gyfer 2022-23, a oedd ond yn 46.6 $tCO_2e$, oherwydd datblygiad arolygon mwy cynhwysfawr i echdynnu data gan gydweithwyr eleni.

Y flwyddyn ariannol 2024-25 fydd yr ail flwyddyn y byddwn yn gallu cynnal ein Harolwg Cymudo yn effeithiol, a bydd mesur hyn yn erbyn ein data 'gweithio gartref' yn rhoi darlun cliriach i ni o'n heffaith amgylcheddol o gymudo.

## Ein hystâd

Yn 2024-25 fe wnaethon ni leihau ein hystâd swyddfeydd gan 132m2 yn dilyn gostyngiad mwy sylweddol yn y flwyddyn flaenorol.

Fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Sero Net a luniwyd gan Useful Projects, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud gostyngiadau carbon ar draws ein hystâd. Mae un targed a amlinellwyd yn yr adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol i ni newid ein hystâd i 100% o ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Yn 2024-25, fe wnaethom newid ein swyddfa yn Glasgow a Belfast i dariff trydan adnewyddadwy, gan adael dim ond dwy swyddfa ar ôl i'w haddasu. Ar draws ein hystâd, mae gan chwech o'n heiddo foeler nwy o hyd. Mae hwn yn faes heriol i ni fynd i'r afael ag ef gan fod y rhan fwyaf o'r adeiladau sydd ar gael i ni yn cynnwys boeleri nwy.  Yn y flwyddyn ariannol hon, fe wnaethom greu dogfen ddisgwyliadau gofynnol sy'n blaenoriaethu eiddo sy'n effeithlon o ran ynni lle bo modd, a byddwn yn ei chymhwyso i bob eiddo yn y dyfodol.

## Gwastraff

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi adolygu ein gofod swyddfa ac wedi cynnal gostyngiad pellach yn ein swyddfa yn Y Drenewydd. Rydym wedi ailddefnyddio dodrefn gormodol, gan eu rhoi i elusennau neu gydweithwyr. Rhannwyd offer ysgrifennu gormodol rhwng swyddfeydd.

Mae lefelau meddiannaeth swyddfa is ar draws yr holl swyddfeydd wedi gweld lefelau argraffu yn parhau'n gymharol isel. Yn 2023-24 roedd 104,400 o ddalennau o bapur wedi'u hargraffu. Hyd at fis Mawrth 2025, roedd 89,191 o ddalennau wedi'u hargraffu.

## Datblygiad mewnol

Fel rhan o'n Cynllun Amgylcheddol, rydym wedi ymrwymo i ddod yn esiampl o ran rheoli ein heffaith amgylcheddol. Fel rhan o hyn, rydym wedi cyflwyno hyfforddiant staff gorfodol ar sbardunau ac effeithiau newid hinsawdd, a hwylusir trwy weithdy Climate Fresk. Hyd yn hyn[3] , mae 623 o staff wedi derbyn hyfforddiant Climate Fresk, a hyfforddwyd 539 ohonynt yn 2024-25. O'r aelodau hyn, mae 37 yn hwyluswyr ac yn parhau i ddarparu hyfforddiant ledled y mudiad.

## Edrych i'r dyfodol

Mae ein Grŵp Cyflawni Cynllun Amgylcheddol (EPDG), a fynychir gan uwch aelodau o gyfarwyddiaethau'r Gronfa, yn parhau i adolygu camau gweithredu a chynnydd amgylcheddol bob chwarter. Yn 2024-25, roedd trafodaethau'n seiliedig ar gynnydd yn erbyn y pedwar nod, a nodir yn ein Cynllun Amgylcheddol saith mlynedd.

Yn 2025-26, byddwn yn canolbwyntio ar ddeall a lleihau'r maes allyriadau mwyaf, sef ein nwyddau a'n gwasanaethau a brynir.

Byddwn yn cadw ein swyddfeydd dan adolygiad ac yn sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu cynnwys fel blaenoriaeth allweddol. O fewn hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheolwyr eiddo i symud ein cyflenwad ynni i gontractau ynni 100% gwyrdd.

Yn 2023-24, plannwyd 800 o goed yn Donaghadee yng Ngogledd Iwerddon, gyda 100 arall wedi'u trefnu ar gyfer Cranny Falls, a blannwyd ym mis Mawrth 2025 trwy'r International Tree Foundation. Yn 2024-25 fe wnaethon ni oedi ein polisi gwrthbwyso. Byddwn yn ei adolygu'n gyson ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

[3] Mae'r ffigurau'n gynrychioliadol o fis Ebrill 2025.




The Real Junk Food Project, Lloegr

### Y data

Mae siart allyriadau eleni yn cynnwys ein categorïau Cwmpas 3 sef cymuned, teithio busnes, defnyddio cwmwl, data cyfleustodau, dŵr, nwyddau a gwasanaethau a brynwyd, gwastraff a gweithio gartref.

### Tueddiadau data

Rydym yn parhau i ddefnyddio’r cwmwl i brosesu ein data, gan newid o ystafelloedd gweinyddion y llynedd, a leihaodd ein trydan 27% yn 2024-25. Mae gennym ystafelloedd gweinyddion bach o hyd mewn wyth o’n heiddo at rai dibenion TG sydd heb eu symud i storio yn y cwmwl eto.

Eleni, rydym wedi gallu cael mynediad at ein hallyriadau cwmwl ar gyfer dau o’n gwasanaethau: Microsoft Azure a Microsoft 365, gyda’r gweddill wedi’i amcangyfrif gan ddefnyddio data yn seiliedig ar wariant. Mae allyriadau cwmwl yn ein gwaelodlin allyriadau 2023-24 yn seiliedig ar ddata sy’n seiliedig ar wariant yn unig, felly mae ein hallyriadau’n fwy eleni.

Rydym yn parhau i orfodi polisi hedfan sy’n gwahardd teithio awyr ac eithrio wrth deithio i Ogledd Iwerddon ac Ynysoedd yr Alban. Eleni, cofnodwyd 12 hediad a oedd y tu allan i’r polisi a 6 hediad rhyngwladol. Roedd hyn yn cynrychioli 4.71% o’n teithiau awyr. Mae rhai cydweithwyr wedi dewis mynd ar y fferi wrth ymweld â swyddfa Belfast.

Symudon ni allan o’n swyddfa ym Manceinion ym mis Medi 2024 yn ystod y gwaith adnewyddu a symudon ni’n ôl i mewn ym mis Ebrill 2025. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar gyfer Ch1 a rhan o Ch2 yr ydym wedi olrhain ei ddata, ac nid ydym wedi cynnwys data ar gyfer mis Medi 2024 - mis Mawrth 2025 gan nad oeddem yn ei feddiannu.

# Data allyriadau

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr [i] | | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tCO2E)** | Cyfanswm gros ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 | 103.35 | 155.91 [ii] |
| | Cyfanswm net ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 (namyn gostyngiadau h.y. tariffau gwyrdd) | 79.52 | 137.71 |
| | Cyfanswm allyriadau ar gyfer Cwmpas 3 | 2642.87 | 3167.38 |
| | **Wedi'u cynnwys yng nghyfanswm Cwmpas 3** | | |
| | Defnydd ynni swyddfeydd [iii] | 33.68 | 51.76 |
| | Cyflenwi a thrin dŵr [iv] | 1.67 | 1.1 |
| | Gweithio gartref [v] | 365.58 | 359 |
| | Cymudo | 345.85 [vi] | 345.85 |
| | Teithio busnes trwy bob dull teithio, gan gynnwys unrhyw arosiadau mewn gwesty [vii] | 331.18 | 330.03 |
| | Cyfarpar technegol [viii] | 8.13 | 64 |
| | Gwastraff [ix] | 37.37 | 79.49 |
| | Cwmwl [x] | 6.34 | - |
| **Defnydd ynni cysylltiedig (kWh)** | Trydan: anadnewyddadwy | 93,704 | 148,310 |
| | Trydan: adnewyddadwy | 119,860 | 78,936 |
| | Nwy | 363,907 | 640,786 |
| | Nwy Petroliwm Hylifol | - | - |
| **Dangosyddion ariannol (£000oedd) Cwmpas 1, 2 & 3** | Gwariant ar ynni [xi] | 108 [xii] | 361 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 932 | 954 |
| | Nwyddau a gwasanaethau a brynwyd | **10.34** | 10.14 |

| Gwastraff | | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (t)** | Cyfanswm gwastraff | 6.52 | 7.6 |
| | Gwastraff Peryglus | - | - |
| | Tirlenwi | - | - |
| | Wedi'i ailgylchu | 2.53 | 2.06 |
| | Ynni o wastraff a losgir | 3.29 | 1.68 |
| | Cyfarpar trydanol gwastraff | 0.69 | 3.6 |
| **Dangosyddion ariannol (£000oedd)** | Cyfanswm cost gwaredu | 5.5 | 5.2 |
| | Gwastraff peryglus - cyfanswm cost gwaredu | - | - |
| | Tirlenwi[i] | - | - |
| | Wedi'i ailgylchu | 2.7 | 2.6 |
| | Ynni o wastraff a losgir | 2.7 | 2.6 |

# Datganiad cydymffurfio'r Tasglu ar Ddatgeliad Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)

Mae'r Gronfa wedi adrodd ar ddatgeliadau ariannol sy'n ymwneud â'r hinsawdd sy'n gyson â chanllawiau ceisiadau datgeliad wedi'u halinio â TCFD Trysorlys EF, sy'n dehongli ac yn addasu'r fframwaith ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Mae'r Gronfa wedi cydymffurfio ag argymhellion TCFD ac wedi argymell datgeliadau ynghylch:

Llywodraethu - datgeliadau a argymhellir (a) Goruchwyliaeth y Bwrdd (b) Rôl Rheolwyr

Metrigau a thargedau – datgeliadau a argymhellir (a) (b) (c)

Rheoli risg – datgeliadau a argymhellir (a) (b) (c)

Mae hyn yn unol ag amserlen gweithredu datgeliadau wedi'i halinio â TCFD y llywodraeth ganolog ar gyfer Cam 2.

## Goruchwyliaeth y Bwrdd

Adroddir ar faterion yn ymwneud â hinsawdd i'r Bwrdd yn flynyddol. Mae gan ddau unigolyn o fewn aelodaeth y Bwrdd gefndir amgylcheddol penodol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu ac yn goruchwylio'r Gofrestr Risg Sefydliadol, sy'n cynnwys cyfeiriadau at risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni ein Cynllun Amgylcheddol.

## Rôl Rheolwyr

Cyhoeddodd y mudiad y Cynllun Amgylcheddol ym mis Medi 2023, i alinio â'r strategaeth sefydliadol hyd at 2030, sy'n nodi pedwar prif nod. Ysgrifennir y Cynllun Amgylcheddol gan y Pennaeth Gweithredu Hinsawdd, a oruchwylir gan arweinydd yr Uwch Dîm Rheoli ar gyfer yr Amgylchedd, ac mae'n eiddo i'r is-bwyllgor Polisi ac Ymarfer, ac yn cael ei adolygu yn flynyddol.

Mae Grŵp Cyflawni'r Cynllun Amgylcheddol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth ar draws y Gronfa, yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r gwaith hwn. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob chwarter.

Ers mis Rhagfyr 2023, mae'n ofynnol i gydweithwyr y Gronfa dderbyn hyfforddiant gorfodol mewn ymwybyddiaeth o'r hinsawdd, gyda 74% o gydweithwyr wedi mynychu rhaglen Climate Fresk neu lythrennedd hinsawdd erbyn mis Mawrth 2025.

Swyddog yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am gasglu data amgylcheddol ar ôl troed amgylcheddol y mudiad, gan gynnwys adrodd yn erbyn y llwybr sero net, gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth Gweithredu Hinsawdd ac arweinydd yr UDRh ar yr amgylchedd.

## Metrigau a Thargedau'r Strategaeth

Mae ein cynllun corfforaethol a'n strategaeth yn ymrwymo'r mudiad i fod yn ariannwr amgylcheddol adfywiol. Mae un o'r wyth DPA yn ein cynllun corfforaethol 2024-27 (DPA 4) yn gosod targed o ddosbarthu o leiaf 15% o grantiau i brosiectau sydd â chynaliadwyedd amgylcheddol fel eu prif nod.

Yn ogystal, rydym yn adrodd yn flynyddol ar allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 ac wedi datblygu llwybr lefel uchel i sero net, sydd angen ei ddatblygu ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

Mae metrigau eraill a ddefnyddiwn i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u cynnwys yn y prif adroddiad cynaliadwyedd uchod.

Rydym wedi darparu cymariaethau ar gyfer pob metrig lle bo modd. Mae ein prosesau a'n hadroddiadau ar gyfer hinsawdd a chynaliadwyedd yn parhau i esblygu, ac rydym yn ymdrechu i adrodd mor llawn â phosibl lle mae data ar gael.

Mae Grŵp Cyflawni'r Cynllun Amgylcheddol yn parhau i wella ein gwaith yn y maes hwn a bydd yn dechrau ystyried targedau penodol yn ystod y flwyddyn o 2025-26 wrth i ni weithio tuag at ein nodau amgylcheddol cyffredinol.

# Risg

Nid yw hinsawdd wedi'i dynodi fel prif risg i'r Gronfa, oherwydd ein ffocws yw ariannu prosiectau sy'n mynd i'r afael â gweithredu hinsawdd yn hytrach na chategoreiddio newid hinsawdd fel risg weithredol uniongyrchol. Trwy fentrau fel y Gronfa Gweithredu Hinsawdd, mae'r Gronfa'n cefnogi cymunedau i fynd i'r afael â newid hinsawdd trwy hyrwyddo cynaliadwyedd ac annog ymgysylltiad lleol. Yn lle trin yr hinsawdd fel risg i'w gweithrediadau, mae'r Gronfa'n integreiddio gweithredu hinsawdd i'w strategaeth rhoi grantiau i ysgogi newid cadarnhaol.

Mae Grŵp Cyflawni Cynllun Amgylcheddol sefydledig yn y Gronfa, sy'n monitro cynnydd yn erbyn nodau yn y Cynllun Amgylcheddol ac amcanion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd yn y cynllun corfforaethol. Mae'r grŵp hwn yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, yn cadarnhau ei asesiad o'i gymharu â risgiau sefydliadol eraill ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi a'u rheoli o fewn ein cofrestr risg. Caiff hyn ei adolygu bob chwarter a'i adrodd i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel rhan o'r cylch adrodd risg chwarterol.

Drwy'r Grŵp Cyflawni Cynllun Amgylcheddol, arweinydd hinsawdd yr UDRh a Chyllid, mae'r Gronfa'n ystyried gofynion rheoleiddio presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Byddwn yn parhau i adolygu ac addasu ein dull o ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn dilyn mabwysiadu'r gofynion newydd bob blwyddyn. Un maes lle rydym yn dal i weithio tuag at gydymffurfiaeth yw ystyried a yw gwybodaeth o fframweithiau risg allanol yn berthnasol i'n datgeliadau.

Mae elfennau o ddatgeliadau hinsawdd yr ydym wedi'u hasesu i fod yn amherthnasol i'r Gronfa ar hyn o bryd ac, felly, nid ydym wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys prisio carbon mewnol.



David Knott
Prif Weithredwr a Swyddog
Cyfrifyddu

2 Gorffennaf 2025

**Nodiadau ar y data**

[i] Mae'r methodolegau cyfrifo allyriadau yn unol â methodoleg y protocol nwyon tŷ gwydr.

[ii] Ailgyfrifiadau yw'r rhain ers cael data mwy cywir.

[iii] Yn seiliedig ar yr un data ag allyriadau ynni Cwmpas 1, ond mae'n cyfeirio at ein hardaloedd swyddfa is-les neu'r allyriadau ffynnon-i-danc a throsglwyddo a dosbarthu sy'n gysylltiedig â'r rhwydweithiau ynni.

[iv] Mae'r cyflenwad dŵr yn seiliedig ar 73% o ddata crai a 27% o ddata amcangyfrifedig. Dim ond data mesurydd a gawn ar y cyflenwad dŵr, felly mae'n rhaid i ni dybio bod cyfaint y driniaeth yr un peth, ond gwyddom nad yw hyn yn hollol gywir.

[v] Cyfrifir allyriadau gweithio gartref drwy gymryd ein FTE cyffredinol, yna tynnu nifer y bobl yr ydym yn gwybod eu bod wedi bod yn y swyddfa, sydd ar wyliau blynyddol, neu sydd i ffwrdd yn sâl, ac yna cymhwyso'r nifer sy'n weddill i ffactorau trosi'r llywodraeth.

[vi] Fel y soniwyd amdano yn flaenorol, mae'r cymudo wedi ei gynrychioli o ddata 2023-24 a gasglwyd yn ein Harolwg Amgylcheddol. Caiff ei allosod ar draws y Gronfa gan ddefnyddio'r ymatebion i'r arolwg ynghylch rheoleidd-dra a dull cymudo a bydd yn cael ei ddiweddaru pan fydd ein canlyniadau 2024-25 i mewn.

[vii] Yn cynnwys data cywir iawn o system rheoli teithio CTM (75%) a data llai cywir o system dreuliau'r cwmni, sydd ond yn seiliedig ar wariant (25%).

[viii] Mae'r categori hwn yn seiliedig ar ddata crai yn unig, nid gwariant, ac mae'n cynnwys pryniannau adran TG ar gyfer y swyddfa a phryniannau adran TG ar gyfer defnydd cartref. Eleni, mae allyriadau'n is oherwydd bod 2023-24 yn flwyddyn adnewyddu offer TG.

[ix] Mae data gwastraff yn cynnwys gwastraff swyddfa, wedi'i wahanu trwy ailgylchu a phopeth arall. Mae gan y rhan fwyaf o'n swyddfeydd finiau gwastraff bwyd; fodd bynnag, ni ddaeth data ar eu pwysau ar gael tan yn ddiweddar, ac felly, nid yw wedi'i gynnwys yn nata eleni. Rydym yn cael y data mwyaf cywir o'n swyddfeydd mwyaf, Newcastle a Birmingham, ac yn defnyddio hwn i amcangyfrif gwastraff ar gyfer swyddfeydd eraill yn seiliedig ar faint y swyddfa.

[x] Eleni, rydym wedi gallu cael mynediad at ein hallyriadau cwmwl ar gyfer dau o'n gwasanaethau,Microsoft Azure a Microsoft 365, gyda'r gweddill wedi'i amcangyfrif gan ddefnyddio data yn seiliedig ar wariant. Nid oes ffigur ar gael eto ar gyfer ein defnydd yn 2023-24, ond rydym yn bwriadu amcangyfrif hyn yn ôl yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

[xi] Mae cyfrifiadau ar gyfer y ddwy flynedd yn cynnwys costau ar gyfer nwy a thrydan swyddfa gymunedol (Cwmpas3), fel y telir amdanynt yn ein taliadau gwasanaeth, yn ogystal â nwy (Cwmpas 1) a thrydan (Cwmpas 2) sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'n gofod a feddiannir.

[xii] Mae ein ffigur gwariant yn sylweddol is eleni gan mai dim ond tair amserlen tâl gwasanaeth oedd gennym o'i gymharu â'r chwech oedd gennym yn 2023-24. Mae gennym hefyd wybodaeth ar goll am dâl gwasanaeth ar gyfer Belfast, Leeds a Glasgow a gwariant cyfleustodau o Lundain a Manceinion. Mae hyn yn tynnu sylw at fwy o fylchau y mae angen eu cau er mwyn adrodd yn fwy cywir.

Mae nwyddau a gwasanaethau a brynwyd yn cynnwys data ar bryniannau offer ysgrifennu, technoleg a gwaith cartref, yn ogystal â chaffael cyffredinol.

# Adroddiad atebolrwydd

Mae tair adran i'r adroddiad atebolrwydd:

- adroddiad llywodraethu corfforaethol – trafodaeth ar ein strwythur llywodraethu a'i gyflawniadau yn y flwyddyn dan sylw
- adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff – mae hwn yn manylu ar dâl cydnabyddiaeth i aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr a threfniadau pensiwn. Yn ogystal, rydym yn trafod ein cyflawniadau ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer cydweithwyr
- adroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol – adroddiad gan ein harchwilwyr ar ganlyniadau eu harchwiliad o'n cyfrifon ar gyfer 2024-25 yn unol â safonau cyfrifyddu ac archwilio.

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Gronfa wedi'i llywodraethu gan Fwrdd sy'n cynnwys y Cadeirydd, Cadeiryddion y pedwar pwyllgor gwlad a hyd at saith aelod arall. Penodwyd Cadeirydd parhaol newydd ym mis Tachwedd 2024, yn dilyn cyfnod gyda Chadeirydd dros dro ers mis Gorffennaf 2023.

Mae'r Bwrdd wedi penodi un o'i aelodau yn Is-Gadeirydd ac un arall yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol.

Yn ystod 2024-25 roedd 12 aelod o'r Bwrdd (rhai am ran o'r flwyddyn adrodd yn unig). Bu sawl penodiad i rolau Bwrdd a phwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau ar gyfer y cyfnod adrodd wedi'u nodi'n fanwl yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth ar dudalen 69.

Mae gan bob gwlad bwyllgor sy'n gyfrifol am y rhaglenni ariannu yn ei wlad; mae'r Bwrdd wedi penodi pwyllgor ar gyfer ariannu'r Deyrnas Unedig gyfan hefyd.

Mae'r Bwrdd yn pennu Fframwaith Strategol y Gronfa ac mae gan bob pwyllgor sy'n gweithio o fewn y fframwaith hwn awdurdod dirprwyedig i bennu'r rhaglenni ariannu yn eu gwledydd (neu ar gyfer portffolio ariannu'r Deyrnas Unedig). Maent hefyd yn gwneud penderfyniadau am grantiau neu'n cytuno ar y trefniadau dirprwyedig ar gyfer gwneud nhw o fewn y rhaglenni hyn.

Mae'r Bwrdd wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n cwrdd pob chwarter i roi cyngor ar faterion adrodd ariannol, archwilio a sicrwydd a rheoli risg. Mae wedi penodi Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau i ymdrin â'r materion a nodir yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a Phwyllgor Pobl i fanteisio ar brofiad, mewnwelediad a safbwynt y Bwrdd wrth gynorthwyo'r Weithrediaeth i gyflawni strategaeth bobl gydlynol yn y tymor canolig a'r tymor hir. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau yn cyfarfod yn flynyddol fel arfer.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i bob cyfarfod Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'r Pwyllgor yn tybio y mae angen eu dwyn at eu sylw ac i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn darparu adroddiad llawn i'r Bwrdd ar ei waith unwaith y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am y rhaglenni ym mhob portffolio gwlad er mwyn iddo sicrhau bod eu gweithgarwch dyrannu grantiau'n cydymffurfio â'r Fframwaith Strategol a bod dysgu'n cael ei rannu. Mae aelodaeth y Bwrdd a'r holl bwyllgorau, a phresenoldeb ynddynt, wedi'i amlinellu yn y tablau ar ddiwedd yr adran hon.


Penodir holl aelodau'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ein hadran noddi, y DCMS. Mae aelodau Pwyllgorau Gwlad yn cael eu penodi gan y Gronfa. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn cymryd rhan yn llawn yn y penodiadau sy'n gysylltiedig â'u gwledydd ac mae'r holl aelodau Bwrdd a phwyllgor yn cael eu penodi yn sgil proses hysbysebu a dethol agored.

## Cofrestr buddiannau

Mae'n rhaid i holl aelodau ein Bwrdd a'n Pwyllgorau, ein haseswyr, ein hymgynghorwyr ac aelodau unrhyw banel ymgynghorol, a'n staff, ddatgan buddiannau perthnasol o dan ein cod moeseg. Mae'r cod hwn yn cydymffurfio â chod ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Mae buddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Bwrdd ar gael ar wefan Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – www.tnlcommunityfund.org.uk.

Mae manylion y cyfryw fuddiannau ar gyfer yr holl aelodau pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau ar gael trwy ysgrifennu at y Pennaeth Llywodraethu. Os yw'r Bwrdd neu bwyllgor yn ystyried unrhyw faterion y gellir tybio'n rhesymol eu bod yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran penderfyniadau ar grantiau i fudiadau ond hefyd unrhyw berthnasoedd masnachol, mae Cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod y datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod yn gadael pan drafodir yr eitem berthnasol.

**Ffigur 6: Strwythur llywodraethu: Y Bwrdd a'i strwythur pwyllgorau yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ystod 2024-25**



## Atebolrwydd y Gronfa i Senedd y Deyrnas Unedig, y cyrff deddfwriaethol a llywodraethau datganoledig

Mae'r Gronfa yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006). Mae'r Ddeddf yn nodi'r rheolau sylfaenol y mae'n gweithredu oddi tanynt. Mae ganddo hefyd swyddogaethau a ddynodwyd iddo o dan Ddeddfau Asedau Segur 2008 i 2022.

Mae'r Gronfa'n gorff cyhoeddus anadrannol ac yr wyf i (David Knott) yn llawn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig am ein hariannu. Mae Senedd y DU, Senedd yr Alban, Senedd Cymru neu Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon yn gwneud gorchmynion penodol yn ymwneud ag arian y loteri genedlaethol ac arian cyfrifon segur, ond mae cyfarwyddiadau a roddir gan weinidogion yn arfer prif oruchwyliaeth y llywodraeth o'r Gronfa.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn atebol am Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ariannol a chyfrifon i'r Gronfa mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn rheoleiddio systemau a phrosesau'r Gronfa.

Noddwr polisi'r Gronfa yw'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae Gweinidog yr adran noddi'n cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddosbarthu arian yn gyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig ac yn benodol yn Lloegr, ac mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas ag arian a ddosberthir yn y gwledydd hynny. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi cyfarwyddyd tebyg mewn perthynas ag arian cyfrifon segur.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn gynwysedig o dudalen 161 yr adroddiad hwn.

O fewn fframwaith y cyfarwyddiadau hyn mae'r Gronfa yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar ba raglenni y dylai eu rhedeg a pha grantiau y dylai eu gwneud.

Mae'r Gronfa'n cymhwyso arweiniad Trysorlys EF a Swyddfa'r Cabinet mewn Llywodraethu Corfforaethol adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau ei fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus anadrannol. Rwyf wedi fy modloni bod yr egwyddorion yn yr arweiniad, ynghyd â ffynonellau arweiniad eraill ar arfer da mewn llywodraethu corfforaethol wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn nhrefniadau llywodraethu'r Gronfa.

Mae'r Gronfa wedi cydymffurfio â holl hysbysiadau Trysorlys EF ynghylch sancsiynau ariannol yn erbyn Rwsia. Nid yw'r Gronfa'n cynnal unrhyw gyfrifon nac yn dal unrhyw gronfeydd, buddsoddiadau, rhoddion nac adnoddau economaidd gan y personau/mudiadau a restrir yn Hysbysiad diweddaraf Trysorlys EF ar Sancsiynau Ariannol, Rwsia.

### Archwilwyr

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, mae'n rhaid i'n cyfrifon blynyddol gael eu harchwilio a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nid oedd unrhyw ffioedd ar gyfer gwasanaethau nad oeddent yn ymwneud ag archwilio gan archwilwyr allanol..

## Ansawdd data a diogelu data

Rydym yn trin ein rhwymedigaethau diogelu gwybodaeth fel mater o'r pwys pennaf ac, o dan weithdrefnau craffu a chynghori'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, aseswn ddigonolrwydd ein mesurau diogelu gwybodaeth yn rheolaidd.

Daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym ym mis Mai 2018 ac, yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, daeth GDPR y DU i rym. Mae GDPR y DU, ochr yn ochr â Deddf Diogelu Data ddiwygiedig 2018 a'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR), yn llywodraethu'r holl brosesu data personol gan unigolion yn y DU (Deddfwriaeth Diogelu Data'r DU). Mae GDPR y DU yn cadw'r GDPR mewn cyfraith ddomestig ond mae gan y DU yr annibyniaeth i barhau i adolygu'r fframwaith. Mae'r GDPR a GDPR y DU yn gosod mwy o reolaethau ar fudiadau o ran eu cyfrifoldebau am brosesu data personol. Mae llawer o sail gyfreithlon y Gronfa ar gyfer prosesu data personol yn cael ei galluogi gan ein statud lywodraethol a chyfarwyddiadau polisi gan DCMS. Rydym wedi addasu ein prosesau a'n hymagwedd er mwyn sicrhau ein bod yn gallu bodloni'r gofynion a ddisgrifir yn Neddfwriaeth Diogelu Data y DU. Rydym wedi diweddaru ein cytundebau grant ac wedi ystyried trefniadau gyda deiliaid grantiau a budd-ddeiliaid eraill yn ofalus ar gyfer prosesu eu data personol, gan gynnwys unrhyw ofynion ychwanegol sy'n berthnasol i ddata personol categori arbennig.

Nid oedd unrhyw doriadau data adroddadwy yn 2024-25.

.

## Deiliad gwybodaeth y sector cyhoeddus

Fel pob corff cyhoeddus, mae'r Gronfa yn ddeiliad gwybodaeth sector cyhoeddus. Felly, nid yw wedi codi tâl am ailddefnydd penodol o wybodaeth.

## Ychwanegedd

Yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd am eu polisïau a'u harferion ychwanegedd. Mae ychwanegedd yn egwyddor bwysig ein hariannu. Mae'r Gronfa'n defnyddio'r diffiniad a ganlyn: "Dylid defnyddio arian y Loteri Genedlaethol i ariannu prosiectau, neu agweddau ar brosiectau, y byddai ariannu yn annhebygol o fod ar gael ar eu cyfer gan Lywodraeth y DU neu'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Gelwir hyn yn 'egwyddor ychwanegedd' gan sicrhau bod datblygiad rhaglenni ac ariannu prosiectau yn ychwanegol at ac yn wahanol i ariannu'r llywodraeth, tra'n ategu ac yn ychwanegu gwerth ato mewn meysydd o ddiddordeb polisi cilyddol."

Roedd yr holl ddyfarniadau a wnaed yn 2024-25 yn cyfateb i'r diffiniad hwn o ychwanegedd. Yn ychwanegol at y diffiniad hwn, mae'r Gronfa hefyd yn ystyried y ddarpariaeth a ganlyn ar ychwanegedd a ddisgrifir yn ein cyfarwyddiadau polisi: Ychwanegedd a chydweddu – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at nodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt.

Mae'r Bwrdd yn ystyried sefyllfa'r Gronfa ar ychwanegedd yn flynyddol, gyda'r adolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2024.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Adran 36A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyfarwyddo'r Gronfa Loteri Fawr i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a amlinellir yng Nghyfarwyddiadau'r Cyfrifon. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ac o'i hincwm, ei gwariant, datganiad sefyllfa ariannol a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u disgrifir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol
- cadarnhau bod yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae DCMS wedi penodi Prif Weithredwr y Gronfa yn Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Gronfa) wedi'u disgrifio yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

Fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa, ymgymeraf â chyfrifoldeb dros yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'r farn y mae ei hangen i bennu eu bod yn deg, cytbwys ac yn ddealladwy. Cadarnhaf fod yr adroddiad hwn yn gyffredinol yn bodloni'r gofynion hynny yn fy marn i.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod archwilwyr y Gronfa'n ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd yr wyf yn gwybod, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Cyfrifoldebau dirprwyedig

Pryd bynnag y bo'n briodol, mae'r Gronfa wedi ceisio defnyddio pwerau dirprwyo y darparwyd ar eu cyfer gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad, gall partïon eraill fod yn atebol am rai rhaglenni dyfarnu neu elfennau ohonynt.

### Cynlluniau ar y cyd

Mae'r Gronfa wedi ymgymryd â chynlluniau ar y cyd, fel y'u diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu ariannu ochr yn ochr â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddiffiniwyd gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau:

- y cymhwysir arian y Loteri Genedlaethol a ddyrennir gan y Gronfa yn unol â'n pwerau cyfreithiol
- defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o arian y Loteri Genedlaethol a ddyrennir gan y Gronfa i'r rhaglen
- bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'r diben
- bod y mecanwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen yn cael ei gytuno ar y cyd rhwng dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol sy'n cymryd rhan.

Yn ystod 2024-25, mae'r Gronfa wedi cymryd rhan yn y cynllun canlynol ar y cyd:

- Parks for People - cynllun a weinyddwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ar ran Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

### Mudiadau dirprwyol

Mae'r Gronfa wedi defnyddio'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant a restrir isod i fudiadau. Mae'r cytundeb dirprwyo rhwng y Gronfa a'r partner dyfarnu'n amlinellu cyfrifoldeb Prif Weithredwr y partner dyfarnu i sicrhau bod y systemau a roddir ar waith i weinyddu ceisiadau'r Loteri Genedlaethol ac i brosesu a monitro grantiau'r Loteri Genedlaethol yn dderbyniol ac yn addas i'r diben a bod arian y Loteri Genedlaethol yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd gywir a phriodol.

Mae Prif Weithredwr y Gronfa yn cadw'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch cyffredinol yr arian cyhoeddus a ddaw o'r Loteri Genedlaethol a dros sicrhau bod partneriaid dirprwyol yn gweithredu o fewn telerau a gytunir arnynt ac yn unol â chyfarwyddiadau ariannol a pholisi.

### Ein mudiadau dirprwyol fel rhan o'r Gronfa Dwf

- Community Impact Partnership
- BIG Issue Access Ltd
- Cultural Impact Loans
- Devon Community Foundation
- Greater Manchester Centre for Voluntary Organisation (GMCVO)
- Homeless Link Social Investment Ltd
- Kent Community Foundation
- Somerset Community Foundation
- Sporting Capital Ltd
- UnLtd
- First Ark
- Key Fund
- Resonance

### Fel rhan o raglen Cronfa #iwill

- Co-operative Community Investment Foundation
- Awdurdod Llundain Fawr
- Clarion Futures
- UK Community Foundations
- Plant mewn Angen y BBC
- Ernest Cook Trust
- Premier League Charitable Fund
- Bite Back 2030
- The Dulverton Trust
- Impetus – The Private Equity Foundation
- Sovereign Housing Association Limited

### Fel rhan o raglen Partneriaeth

- Buttle UK
- Smallwood Trust
- The Access to Justice Foundation

### Fel rhan o gytundeb y Loteri Ynys Manaw

- Ymddiriedolaeth y Loteri Ynys Manaw

### Fel rhan o raglen Tlodi Gwledig

- Asiantaeth Ynni Hafren Gwy Cyf

### Fel rhan o raglen Cefnogi Syniadau Gwych

- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

### Fel rhan o raglen Cronfa Gweithredu Hinsawdd

- Cumbria Action for Sustainability
- Voluntary Action Leeds
- Lancaster District Community and Voluntary Solutions
- The Women's Environment Network Trust

### Fel rhan o raglen Tyfu Syniadau Gwych

- Transition Network

### Fel rhan o raglen Asedau Segur Gogledd Iwerddon

- Arts & Business Northern Ireland

### Fel rhan o raglen Yr Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol

- Yr Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol

## Y datganiad llywodraethu

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu rwy'n gyfrifol am sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn ar draws y mudiad cyfan sy'n cefnogi cyflawni pwrpas y Gronfa tra'n diogelu'r cronfeydd ac asedau cyhoeddus yr wyf hefyd yn gyfrifol amdanynt.

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli a rheoleiddio adnoddau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn. Mae'n tynnu ar waith Bwrdd y Gronfa, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Pobl a'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau, yn ogystal â'r UDRh fel ei gorff gweithredol. Rwyf hefyd wedi adolygu ac ystyried yr adroddiad sicrwydd blynyddol a baratowyd gan yr adran Archwilio Mewnol.

## Rheolaeth weithredol

Rwy'n arwain rheolaeth weithredol y Gronfa, gyda chefnogaeth yr UDR, a oedd â 10 aelod am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ariannol, gydag un penodiad ym mis Medi a dau gyfarwyddwr a oedd yn rhannu swydd yn cael eu disodli gan gyfarwyddwr dros dro ym mis Chwefror.

Mae'r UDRh yn cwrdd yn rheolaidd gyda chyfarfodydd ffurfiol o leiaf unwaith y mis fel arfer. Mae'r UDRh yn ystyried materion polisi, strategol a gweithredol allweddol, yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n gofyn am ei gymeradwyaeth ac yn goruchwylio perfformiad gweithredol ac ariannol a threfnau rheoli risg y Gronfa'n gyffredinol.

Mae aelodau'r UDRh a'u meysydd cyfrifoldeb wedi'u disgrifio ar ddiwedd yr adran hon.

Sefydlwyd un is-bwyllgor newydd o'r UDRh yn ystod y flwyddyn i ganiatáu ar gyfer trefniadau llywodraethu effeithlon a chadarn, yn enwedig wrth i ni symud tuag at roi'r strategaeth ar waith. Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol oedd hwn. Mae hyn yn ychwanegol at y ddau is-bwyllgor a sefydlwyd y llynedd: y Pwyllgor Perfformiad a Gwelliant a'r Pwyllgor Polisi ac Ymarfer. Mae gan bob pwyllgor awdurdod dirprwyedig o'r UDRh fel y'i cadarnhawyd yn eu cylch gorchwyl ac mae'n darparu crynodeb gweithredol misol i'r UDRh. Mae strwythurau rheoli gweithredol priodol yn bodoli ar draws y mudiad i oruchwylio'r holl weithgareddau a'r prosiectau a rhaglenni ar draws y Gronfa.

## Rheoli Risg

Mae'r Gronfa'n gweithredu system gynhwysfawr o reoli risg, gyda chofrestr risgiau sefydliadol yn cael ei hadolygu'n chwarterol yn fewnol gan ail a thrydedd linell swyddogaethau risg amddiffyn ac yn allanol gan yr ARC.

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw hepgorion materol. Mae'r Bwrdd hefyd, gyda chyngor ac arweiniad y Pwyllgor Archwilio a Rheoli (ARC) ac ar argymhelliad yr UDRh, wedi sefydlu themâu risg allweddol sy'n cynrychioli risgiau allweddol y Gronfa ac sy'n cael eu monitro a'u hadrodd yn chwarterol.

Mae gan bob thema risg lefel archwaeth y cytunwyd arni a throthwyon cyfatebol i fesur pob archwaeth yn gywir. Cedwir cofrestrau risg ar lefel cyfarwyddiaeth, yn ogystal ag ar gyfer pob prosiect a rhaglen allweddol, ac adolygir pob risg ar lefel uwch o leiaf bob chwarter, gan roi sicrwydd i'r Bwrdd fod y Gronfa'n gweithio o fewn yr harchwaeth risg y cytunwyd arni.

Mae gan y Gronfa bortffolio cynhwysfawr o adroddiadau risg a gyflwynir bob chwarter i'r UDRh a'r ARC, gan sicrhau tryloywder a llwybr clir ar gyfer uwchgyfeirio materion risg sylweddol i uwch fudd-ddeiliaid.
Mae ein system o reolaethau, ynghyd â goruchwyliaeth tîm rheoli profiadol a thîm Cyfreithiol mewnol, wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol o safbwynt ail linell amddiffyn. Mae swyddogaethau trydydd llinell amddiffyn y Gronfa yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod proses rheoli risg y Gronfa yn ddigonol ac yn gweithio'n gywir. Ni all Y Gronfa ddileu pob risg o fethiant wrth geisio cyflawni ein nodau a'n hamcanion strategol ac, felly, dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei roi.

## Y flwyddyn lywodraethu

Mae rhaglen waith archwilio mewnol yn cael ei pharatoi bob blwyddyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'i chytuno gyda'r UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, cyn i mi roi cymeradwyaeth derfynol fel Swyddog Cyfrifyddu. Cynllunir y rhaglen hon i roi sicrhad bod mesurau rheoli priodol wedi cael eu cynllunio a'u bod yn gweithredu'n gywir mewn perthynas â'r holl risgiau sylweddol y mae'r Gronfa yn eu hwynebu. Mae adroddiadau archwilio mewnol wedi mynd i'r afael â llawer o risgiau, gan gynnwys o fewn y meysydd risg allweddol a ganlyn: cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, datblygu a hyfforddi, seiberddiogelwch, recriwtio a dargadw staff, grantiau partneriaeth ariannu, gwneud penderfyniadau ynghylch grantiau - rheolaethau ariannol allweddol a gweithredu strategaeth y Gronfa.

Mae'r ARC, y cyfarwyddwyr nawdd, a minnau'n ystyried canfyddiadau adroddiadau archwilio mewnol. Rydym yn craffu mwy ar adroddiadau sy'n rhoi sicrwydd cyfyngedig o ran naill ai cynllun rheolaethau neu eu heffeithiolrwydd gweithredol. Mae'r rheolwyr yn cytuno ar gamau gweithredu mewn ymateb i'r holl argymhellion a wnaed, ac adroddir ar gynnydd yn erbyn y rhain ym mhob cyfarfod ARC.

O'r ystod o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd, gwelwyd gwelliant mewn lefelau sicrwydd, gyda llai o fylchau yn y gweithdrefnau a'r rheolaethau mewn meysydd penodol nag yn y flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2024-25, rhoddodd un adroddiad sicrwydd cyfyngedig ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau yn ymwneud â chwynion a Rhyddid Gwybodaeth. Nododd meysydd eraill a archwiliwyd naill ai sicrwydd cymedrol neu sylweddol o ran dyluniad ac effeithiolrwydd.

Roeddwn yn falch o nodi'r gostyngiad yn yr argymhellion archwilio sy'n weddill, sy'n adlewyrchu ymgysylltiad cynyddol â phrosesau archwilio mewnol yr oeddwn yn eu disgwyl gan yr UDRh yn ystod y flwyddyn.

Ceisiodd y Pwyllgor Archwilio a Risg sicrwydd ychwanegol gan swyddogion yn ystod y flwyddyn drwy ymchwiliadau manwl wedi'u cynllunio ar feysydd risg allweddol, gan gynnwys risg seiber a rheoli prosiectau. Rhoddwyd y sicrwydd ychwanegol hyn i foddhad y pwyllgor a minnau fel Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Gronfa'n rhoi mwyafrif ei weithgaredd archwilio mewnol ar gontract allanol mewn trefniant a drefnir ar y cyd.

Mae pob cyfarwyddwr yr UDRh wedi rhoi datganiad sicrwydd i mi ar y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Gan dynnu ar y rhain, a chanlyniadau adolygiadau archwilio mewnol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu adroddiad sicrwydd blynyddol ar fy nghyfer. Mae'r adroddiad yn asesu bod gan y Gronfa 'sicrwydd cymedrol' mewn perthynas â'i fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.  Mae hyn yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwaith a wnaed gan yr archwilwyr mewnol yn ystod y cyfnod hwn ac ymateb y Gronfa hyd yma, ei chynlluniau a'i hymrwymiad i barhau i fynd i'r afael â'r argymhellion mwy heriol a chymhleth a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn yr argymhellion blaenorol.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal archwiliad allanol o'r adroddiad blynyddol hwn a'r cyfrifon. Ymdrinnir â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad allanol yn yr un modd â'r rhai o'r archwiliad mewnol ac maent yn cael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r Pwyllgor Pobl yn parhau i wella trefniadau llywodraethu'r Gronfa, ac mae wedi cymryd diddordeb gweithredol mewn adroddiadau archwilio mewnol ar faterion pobl, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Pobl yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio a Risg pan fydd adroddiadau o'r fath wedi'u trafod.

### Sicrwydd y Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i mi gynnal system gadarn o reolaethau mewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gronfa i ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r Gronfa. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae'r Gronfa wedi ennill a derbyn sicrwydd o'r ffynonellau canlynol:

### 1. Adroddiad Archwilio allanol diwedd blwyddyn

Ni chynigiwyd unrhyw addasiadau archwilio, ac ni wnaed unrhyw argymhellion blaenoriaeth uchel ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Mae gwaith archwilio allanol ar drafodion yn rhoi sicrwydd archwilio bod rheolaethau digonol ar waith, yn ogystal â sicrwydd rheoli a gafwyd o oruchwyliaeth a rheolaethau dros ddyfarniadau grant a gwariant i ddangos priodoldeb a rheoleidd-dra ein gweithgarwch ariannu.

### 2. Datganiad sicrwydd blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ac adroddiadau archwilio mewnol

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad mewnol blynyddol yn rhoi sicrwydd cymedrol, sy'n parhau i adeiladu ar y gwelliannau a gychwynnwyd y llynedd. Rwyf wedi adolygu'r adroddiad hwn yn fanwl ac rwy'n fodlon bod unrhyw feysydd perthnasol i'w nodi naill ai wedi cael sylw eisoes neu fod yna gynlluniau gweithredu diffiniedig. Rwy'n croesawu'r mewnwelediad a gyflwynwyd yn yr adroddiad ar feysydd i'w gwella i ganolbwyntio arnynt os ydym am sicrhau lefel uwch o sicrwydd yn y dyfodol.

### 3. Datganiadau Sicrwydd Blynyddol gan gyfarwyddwyr

Fel rhan o'r broses lywodraethu a'r swyddogaeth archwilio fewnol, derbynnir datganiadau Sicrwydd gan y cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau wrth sicrhau y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau'r Gronfa. Mae modiwlau hyfforddi wedi'u diweddaru wedi'u darparu i gyfarwyddwyr i ddarparu sesiynau adnewyddu lle bo'n berthnasol i amlinellu eu cyfrifoldebau ar gyfer sicrwydd blynyddol. Cyflwynir datganiadau sicrwydd blynyddol y cyfarwyddwyr i mi fel Swyddog Cyfrifyddu i'w hadolygu a'u hystyried wrth baratoi'r datganiad llywodraethu hwn. Maent hefyd yn cael eu derbyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ac yn dod i wybod am eu barn flynyddol. Cafwyd ymatebion cadarnhaol i bob rhan o'r Gronfa.

## 4. Rheoli risg

Mae'r cofrestrau risg yn cael eu hadolygu'n fanwl bob chwarter. Yna mae'r panel cymedroli risg yn trafod cofrestrau risg y gyfarwyddiaeth a'r gofrestr risg sefydliadol i argymell pa risgiau i'w diweddaru, eu hychwanegu neu eu tynnu oddi ar y gofrestr risg sefydliadol. Wedi hynny, mae'r UDRh yn cymeradwyo'r gofrestr risg sefydliadol cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i'w hadolygu a'i chraffu.

Arweinir fframwaith rheoli risg y Gronfa gan ofynion a argymhellir yn Llyfr Oren Trysorlys EF ac mae'n mabwysiadu'r model tair llinell o sicrwydd amddiffyn. Yn ystod 2023-24 mae gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg wedi'u cyflwyno sydd wedi rhoi gwell sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Er bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn ei adolygiad a chraffu ar drefniadau rheoli risg y Gronfa, y Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod arferion rheoli risg priodol ar waith.

## 5. Adolygiad a chymeradwyaeth yr Uwch dîm rheoli (UDRh)

Mae'r UDRh yn adolygu'r holl newidiadau i gofrestrau risgiau'r cyfarwyddiaethau a'r gofrestr risg sefydliadol bob chwarter. Mae perchnogion risg yr UDRh hefyd yn darparu sylwebaeth berthnasol bob chwarter yn erbyn pob thema risg allweddol a ddefnyddir yn fframwaith rheoli risg y Gronfa. Bydd aelodau'r UDRh yn adolygu cofrestr risg eu cyfarwyddiaeth mewn cydweithrediad â'r tîm rheoli risg. Caiff risgiau eu hychwanegu, eu cau neu eu sgorio/ail-sgorio yn seiliedig ar amrywiol ffactorau dylanwadol, megis newidiadau yn yr amgylchedd gweithredu allanol neu ymateb i ganfyddiadau archwilio mewnol.

## 6. Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod bob chwarter i adolygu a thrafod yr holl ddiweddariadau risg er mwyn sicrhau bod rheolaethau lliniarol a sicrwydd rheolaeth yn rheoli risgiau'n briodol. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y pwyllgor ar dderbyn sicrwydd ychwanegol gan swyddogion ar faterion yn ymwneud â phobl/AD, trefniadau diogelwch data a gwybodaeth a threfniadau atal twyll. Mae'r pwyllgor yn herio ac yn craffu ar drefniadau cofnodi risg, adrodd a sicrwydd y Gronfa ac mae hefyd wedi gofyn am sicrwydd ynghylch ymatebolrwydd rheolwyr i weithredu argymhellion archwilio mewnol. Mae'r sicrwydd hwn wedi'i ddarparu i foddhad y pwyllgor.

## 7. Safonau swyddogaethol

Mae'r Gronfa'n parhau i hunanasesu o bryd i'w gilydd yn erbyn y swyddogaethau busnes a ragnodir yn Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yn ôl yr angen. Nododd y Gronfa'r safonau swyddogaethol perthnasol a hunanasesu yn eu herbyn, gan gadarnhau cydymffurfiaeth â'r safonau cymwys hyn. Mae sicrwydd o gydymffurfiaeth yn erbyn y safonau hyn wedi'i roi i'r Swyddog Cyfrifyddu.

## Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad

Mae gan y Gronfa system gynllunio gyda'r nod o adnabod blaenoriaethau a chynlluniau corfforaethol ym mhob cyfnod ac i weithredu fel canllaw wrth gyflwyno'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Datblygir cynlluniau cyfarwyddiaeth ledled y Gronfa ac maent yn bwydo i'r cynllun corfforaethol cyffredinol ac amcanion personol cydweithwyr.

Yn dilyn lansiad llwyddiannus cynllun corfforaethol 2024-27 ar ddechrau'r flwyddyn, datblygwyd cyfres newydd o DPA ac yna eu rhoi ar waith ar gyfer adrodd i'r UDRh a'r Bwrdd.

Er mwyn adlewyrchu uchelgais y cynllun corfforaethol, mae'r DPA hyn yn cynnwys targedau ymestynnol. Cafodd y rhain eu monitro'n rheolaidd ac adroddwyd amdanynt i'r UDRh ac i'r Bwrdd, gyda chamau unioni'i cael eu cytuno pryd bynnag y bu angen.

Adroddir ar ein perfformiad yn erbyn y DPA hyn yn adran Adroddiad Perfformiad y ddogfen hon.

Mae gwybodaeth reoli allweddol ychwanegol hefyd yn cael ei chasglu a'i dadansoddi gan y Pwyllgor Perfformiad a Gwelliant ar ran yr UDRh drwy gydol y flwyddyn mewn amrywiol ffurfiau.

Mae hyn yn cyflwyno data ar faterion megis ystadegau cyflogaeth, gwasanaethau dyrannu grantiau a materion ariannol eraill fel ein balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Mae ein hymagwedd at gynllunio yn parhau i esblygu ac mae wedi cefnogi ein cynlluniau a'n cyllideb ar gyfer y cyfnod i ddod.

Mae hyn yn cynnwys gosod blaenoriaethau penodol ar gyfer datblygu yn erbyn ein tri amcan corfforaethol a chwe blaenoriaeth strategol sylfaenol fel yr amlinellir yn y cynllun corfforaethol.

## Asedau Segur

Mae gan y Gronfa uwch brosesau llywodraethu sydd wedi'u hen sefydlu i reoli llif ariannu'r cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu segur mewn ymateb i lefelau cynyddol o weithgarwch. Rydym wedi gweithio gyda DCMS i sefydlu strwythurau adrodd i sicrhau bod pob agwedd ar yr ystod o weithgareddau dyfarnu grantiau yn cael eu dylunio a'u cyflawni'n briodol, a bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gronfa yn effeithiol yn y maes hwn a'u bod yn cefnogi'r cynllun Asedau Segur cyffredinol yn briodol. Mae'r gwaith o gyflawni gweithgareddau asedau segur yn rhan o'n dull cyffredinol o lywodraethu sefydliadol ar draws y Gronfa. Felly, mae rôl y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg, Archwilio Mewnol a'r Swyddog Cyfrifyddu yn ymestyn i gwmpasu'r gweithgareddau hyn ochr yn ochr â'r rhai sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol.

Mae arian cyfrifon segur yn parhau i gael eu dosbarthu i gael effaith a dod â buddion i'n cymunedau yn unol â chyfarwyddiadau polisi.

## Arian trydydd parti

Mae'r Bwrdd (neu gynrychiolwyr drwy bwyllgorau perthnasol) yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau trydydd parti am waith trydydd parti gan ystyried, ar gyfer pob cynnig, a yw'n briodol, neu a allai fod yn briodol i'r Gronfa ei wneud ac a yw'n gyson â'n strategaeth ariannu trydydd parti a'r egwyddorion yn y fframwaith strategol.

Rydym yn cymhwyso fframwaith risgiau a rheoli i bob cyfle yn unol â'r dasg a bennir gan y cleient, gan sicrhau nad oes unrhyw risg y bydd arian Loteri'n cael ei roi mewn perygl neu y bydd gwaith nad yw'n ymwneud â'r Loteri Genedlaethol yn cael ei groes-gymorthdalu.

## Trefniadau dirprwyedig ac ymddiriedolaeth

Mae'r Gronfa'n dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i fudiadau eraill, fel a ddisgrifir yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Cyflawnir gwaith diwydrwydd dyladwy cymesur ar lywodraethu a systemau'r partneriaid dyfarnu arfaethedig cyn dyfarnu arian iddynt. Mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n weithredol ac mae trefniadau archwilio mewnol ac allanol priodol yn cael eu cymhwyso hefyd. Mae Cytundebau Dirprwyo Allanol (cytundebau cyfreithiol rhwymol) yn eu lle fel mesur rheoli i liniaru risg.

Gall y Gronfa hefyd wneud dyfarniadau fel gwaddolion i ymddiriedolaethau, a grëwyd fel arfer yn benodol ar gyfer y dyfarniad. Enghraifft flaenorol o hyn yw'r ymddiriedolaeth Power to Change a sefydlwyd i gefnogi mentrau cymunedol ledled Lloegr, o ysbrydoli a meithrin syniadau i helpu cymunedau i ehangu eu busnesau.

Wrth sefydlu trefniadau o'r math hwn, mae'r Gronfa'n cynnal diwydrwydd dyladwy cyn y dyfarniad ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn penod amddiffynwr annibynnol sydd â phwerau i ystyried ac adrodd i'r Gronfa i sicrhau'r Gronfa bod y gwaddol yn cael ei gymhwyso'n briodol yn unol â bwriadau'r Gronfa.

## Ein polisi ac arfer talu

Yn unol â'r canllaw Arfer Taliadau Gwell, rydym yn anelu at dalu ein holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod o dderbyn anfoneb, oni bai bod amodau a thelerau eraill wedi eu cyd-drafod. Yn 2024-25, talwyd 90% (94% yn 2023-24) o'r holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl i ni dderbyn anfoneb.

Canran y cyflenwyr a dalwyd o fewn 10 diwrnod oedd 62% yn ystod 2024-25 (62% yn 2023-24).

Roedd ein cyfanswm diwrnodau credydwyr (cyfanswm gwerth ein credydwyr ar 31 Mawrth 2025 wedi'i rannu â'r cyfanswm taliadau credydwyr yn ystod 2024-25, wedi'i fynegi mewn diwrnodau) yn 16 diwrnod (17 diwrnod yn 2023-24).



RDA Vale of Glamorgan, Cymru

### Chwythu'r chwiban

Mae polisi chwythu'r chwiban y Gronfa yn deillio o Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, i ddiogelu unrhyw gydweithwyr sy'n gwneud datgeliadau'n ddidwyll am ddrwgweithredu neu weithgarwch sydd yn erbyn budd y cyhoedd. Mae'r polisi ar gael i bob cydweithiwr parhaol a thros dro ac fe'i cyhoeddir ar ein mewnrwyd. Mae'r polisi'n ymdrin â phryderon sydd er budd y cyhoedd ac mae'n cynnwys y materion canlynol (nad ydynt yn gyfyngedig):

- camymddwyn ariannol
- methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgaredd troseddol
- camweinyddu cyfiawnder
- ymdrechion i guddio unrhyw un o'r uchod

Ni chafwyd unrhyw achosion o ddatgelu chwythu'r chwiban er budd y cyhoedd yn ystod y flwyddyn.

### Atebolrwydd Seneddol

Cynhwysir datganiad o golledion a thaliadau arbennig yn nodyn 21. Nid oes unrhyw rwymedigaethau wrth gefn perthnasol i'w hadrodd. Nid oedd unrhyw roddion dros y terfynau a ragnodir yng nghanllawiau'r llywodraeth ar Reoli Arian Cyhoeddus.  Nid oes unrhyw ffioedd na thaliadau i'w datgelu.

### Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheoli mewnol

Yn fy marn, wedi ystyried adroddiad sicrwydd y Pennaeth Archwilio Mewnol, mae systemau llywodraethu a rheoli mewnol y Gronfa yn ddigon i'm galluogi fi i sicrhau cydymffurfiad y Gronfa â Deddfau'r Loteri Genedlaethol, Deddf Asedau Segur 2008 i 2022 a'r cyfarwyddiadau polisi, ariannol a chyfrifyddu a gyhoeddir oddi tanynt.



David Knott

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu 2 Gorffennaf 2025

# Ein hadroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

## Aelodaeth, presenoldeb mewn cyfarfodydd a thâl cydnabyddiaeth y Bwrdd a phwyllgorau yn ystod y flwyddyn

Mae tâl cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd a Phwyllgorau'r Gronfa wedi'i bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae Cadeiryddion y Bwrdd  a'r pwyllgorau gwlad yn derbyn cyflog blynyddol yn seiliedig ar nifer y diwrnodau y mae disgwyl iddynt eu hymroi i waith y Gronfa. Disgrifiwyd y rhain yn eu llythyr penodi.

Nid yw aelodau Bwrdd a phwyllgorau'n derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da neu fuddiannau pensiwn. Ad-delir eu treuliau a eir iddynt fel rhan o'u dyletswyddau ar yr un sail â chyflogeion y Gronfa.

Dangosir y cyfansymiau a gawsant yn y tablau canlynol.

### Aelodau Bwrdd

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Dame Julia Cleverdon DVCO** | Cadeirydd, Bwrdd (o 18 Tachwedd 2024) | 2/2 | 10-15 (cyfwerth â blwyddyn lawn 40-45) | - |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu'r DU (o 18 Tachwedd 2024) | 1/1 | | |
| **Blondel Cluff CBE** | Cadeirydd, Bwrdd (tan 20 Gorffennaf 2023) | - | - | 10-15 (cyfwerth â blwyddyn lawn 40-45) |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu DU (tan 20 Gorffennaf 2023) | - | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau (tan 20 Gorffennaf 2023) | - | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Emma Boggis** | Aelod, Bwrdd, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (o 16 Tachwedd 2023) | 3/4 | 5-10 | 5-10 |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 5/5 | | |
| **Richard Collier-Keywood** | Aelod, Bwrdd | 4/4 | 10-15 | 10-15 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg | 5/5 | | |
| **Ellie Craig** | Aelod, Bwrdd (o 1 Mawrth 2025) | 1/1 | 5-10 | - |
| **Stuart Hobley** | Aelod, Bwrdd | 4/4 | 5-10 | 5-10 |
| | Aelod, Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynas â'r Llywodraeth | 1/1 | | |
| | Is-gadeirydd, Panel Ariannu DU | 4/4 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Simone Lowthe-Thomas** | Cadeirydd, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 20-25 | 20-25 |
| | Aelod, Bwrdd | 4/4 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 3/3 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 28 Medi 2023) | 4/5 | | |
| | Aelod, Panel Gwneud Penderfyniadau Cronfa Gweithredu Hinsawdd | 4/4 | | |
| | Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynas â'r Llywodraeth (tan 31 Mawrth 2024) | | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **John Mothersole** | Is-gadeirydd, Bwrdd (o 16 Tachwedd 2023) | 4/4 | 20-25 | 20-25 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 2/3 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr | 10/11 | | |
| | Cadeirydd, Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynas â'r Llywodraeth | 1/1 | | |
| | Is-gadeirydd, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau (o 16 Tachwedd 2023) | 2/2 | | |
| **Rachael Robathan** | Aelod, Bwrdd (tan 31 Mai 2023) | - | - | 0-5 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10) |
| | Aelod, Archwilio a Risg (tan 31 Mai 2023) | - | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Pobl (tan 31 Mai 2023) | - | | |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau (tan 31 Mai 2023) | - | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Y Fonesig Helen Stephenson** | Aelod, Bwrdd | 4/4 | 5 – 10 (o fis Gorffennaf 2024) | 0 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Pobl | 4/4 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau | 3/3 | | |
| **Peter Stewart** | Aelod, Bwrdd | 4/4 | 5-10 | 5-10 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 2/3 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Pobl | 3/4 | | |
| | Cadeirydd, Panel Gwneud Penderfyniadau Cronfa Gweithredu Hinsawdd DU | 4/4 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Kate Still** | Aelod, Bwrdd | 4/4 | 20-25 | 20-25 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 3/3 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban | 7/7 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Pobl (o 31 Rhagfyr 2023) | 4/4 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl cydnabyddiaeth a Phenodiadau (tan 31 Mehefin 2024) | 2/2 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynas â'r Llywodraeth | 0/1 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Paul Sweeney** | Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 9/9 | 30-35 | 35-40 |
| | Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd (tan 17 Tachwedd 2024) | 2/2 | | |
| | Aelod,Bwrdd (o 18 Tachwedd 2024) | 2/2 | | |
| | Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor Ariannu'r DU (tan 17 Tachwedd 2024) | 2/2 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig Aelod (ers 18 Tachwedd 2024) | 1/1 | | |
| | Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau | 3/3 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynas â'r Llywodraeth | 1/1 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Danielle Walker-Palmour** | Aelod, Bwrdd | 3/4 | 5-10 | 5-10 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 2/3 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Pobl | 3/4 | | |
| | Cadeirydd, Panel Ariannu DU | 4/4 | | |

*Gwybodaeth wedi'i harchwilio

## Aelodau Bwrdd

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Kevin Bone** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 31 Mawrth 2024) | - | - | 5-10 |
| **Ray Coyle** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 8/11 | 5-10 | 5-10 |
| **Matthew Downie** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 19 Tachwedd 2024) | 2/3 | 0-5 | - |
| **Millie Downes** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 1 Mawrth 2025) | 1/1 | 0-5 | - |
| **Halima Khan** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 9/11 | 5-10 | 5-10 |
| **Margaret Jones** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 31 Ionawr 2024) | - | - | 5-10 |
| **Daria Kuznetsova** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 19 Tachwedd 2024) | 2/3 | 0-5 | - |
| **Kamran Rashid** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 10/11 | 5-10 | 5-10 |
| **Karin Woodley** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 9/11 | 5-10 | 5-10 |

## Aelodau eraill - Yr Alban

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Jackie Brock** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 5/7 | 5-10 | 5-10 |
| **Lindsay Graham** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 11 Mawrth 2025) | 5/7 | 0-5 | 5-10 |
| **Holly Hendrie** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 1 Mawrth 2025) | 1/1 | 0-5 | - |
| **Martin Johnstone** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 11 Mawrth 2025) | 6/7 | 0-5 | 5-10 |
| **Janet Miles** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 11 Mawrth 2025) | 7/7 | 5-10 | 5-10 |
| **Aaliya Seyal** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 11 Mawrth 2025) | 7/7 | 0-5 | 5-10 |
| **Naila Wood** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 5/7 | 5-10 | 0-5 |

## Aelodau eraill - Yr Alban

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Callum Bruce-Phillips** | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 1 Mawrth 2025) | 1/1 | 0 | - |
| **Gwenllian Lansdown Davies** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 3/4 | 5-10 | 5-10 |
| **Fadhili Maghiya** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 3/4 | 5-10 | 5-10 |
| **Trystan Pritchard** | Aelod, Pwyllgor Cymru (tan 31 Mawrth 2025) | 4/4 | 5-10 | 5-10 |
| **Nicola Russell-Brooks** | Aelod, Pwyllgor Cymru (tan 31 Ionawr 2025) | 3/4 | 0-5 | 5-10 |
| **Victoria Winckler** | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 1 Chwefror 2025) | 1/1 | 0-5 | - |
| **Kate Young** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 5-10 | 5-10 |

## Aelodau eraill - Gogledd Iwerddon

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Kate Clifford** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 9/9 | 5-10 | 5-10 |
| **Nick Garbutt** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 7/9 | 5-10 | 5-10 |
| **Cara Cash-Marley** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 8/9 | 5-10 | 5-10 |
| **Anne-Marie McClure** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 7/9 | 5-10 | 5-10 |
| **Caolan McKiernan** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Mawrth 2025) | 1/1 | 0-5 | - |
| **Norman McKinley** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 9/9 | 5-10 | 5-10 |

## Aelodau eraill - Pwyllgor Archwilio a Risg

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2024-25 | Tâl cydnabyddiaeth 2024-25* | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 |
| **Ruth Marchington** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 29 Chwefror 2024) | 4/5 | 0-5 | 0-5 |
| **Charlotte Moar** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 5/5 | 0-5 | 0-5 |
| **Tracy Staines** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 28 Medi 2024) | 3/3 | 0-5 | - |

## Yr Uwch Dîm Rheoli

**Prif Weithredwr**
David Knott

**Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon**
Kate Beggs

**Cyfarwyddwr Lloegr, Strategaeth, Partneriaeth ac Ymgysylltu**
Phil Chamberlain

**Cyfarwyddwr Lloegr, Rhaglenni, Gweithrediadau a Rhanbarthau**
Emma Corrigan

**Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (o fis Medi 2024)**
Elizabeth Church

**(Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith) o fis Chwefror 2025)**
Melissa Eaglesfield

**Prif Swyddog Cyllid ac Adnoddau**
Stuart Fisher

**Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith**
Laura Lucking a Verity Prime (tan fis Chwefror 2025)

**Cyfarwyddwr yr Alban**
Neil Ritch

**Cyfarwyddwr Cymru (a Chyfarwyddwr y Cenhedloedd tan fis Mawrth 2024)**
John Rose

## Nid yw'r canlynol yn aelodau ffurfiol o'r Uwch Dîm Rheoli ond ystyrir bod ganddynt gyfrifoldeb ariannol sylweddol:

**Pennaeth Staff (o fis Hydref 2024)**
Nicolas Buckley

**Llywodraethu**
Mae gan Bwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau'r Bwrdd gyfrifoldeb i:

- gytuno ar amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- penderfynu ar arfarniad perfformiad a thâl cysylltiedig y Prif Weithredwr
- pennu tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr
- cymeradwyo arfarniadau perfformiad a thâl cysylltiedig cyfarwyddwyr
- penderfynu ar delerau diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr.

Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor, mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Pobl neu swyddogion eraill yn dod i gyfarfodydd ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.

Mae penderfyniadau'r Pwyllgor yn amodol ar:

- gydymffurfio â'r arweiniad tâl a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet/Trysorlys EF sy'n berthnasol i dâl cydnabyddiaeth staff yn gyffredinol
- cymeradwyaeth gan DCMS o amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- cymeradwyaeth gan DCMS o unrhyw daliadau terfynu i'r Prif Weithredwr.

## Polisi tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol

Mae ein polisi yn cynnig tâl cydnabyddiaeth sy'n galluogi'r Gronfa i ddenu, cadw a symbylu unigolion hynod alluog sydd â'r sgiliau a'r galluoedd i arwain a rheoli'r mudiad. Wrth wneud hyn, mae'r polisi'n ceisio darparu tâl cydnabyddiaeth teg ar gyfer cyfraniadau a chyfrifoldeb unigol, gan ddarparu elfen o dâl ar sail perfformiad.

Mae Cyfarwyddwyr, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn derbyn cyflog sylfaenol a thâl ar sail perfformiad. Mae'r amodau a thelerau cyflogaeth eraill yr un â chyflogeion eraill y Gronfa. Mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Mae'r holl gyfarwyddwyr ar gontractau parhaol (ac eithrio pan fônt yn destun trefniadau dros dro neu interim) yn amodol ar dri mis o rybudd.

Telir unrhyw daliadau terfynu yn unol â chynllun iawndal y gwasanaeth sifil.

Pennir unrhyw gynnydd yng nghyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phenodiadau; ar gyfer 2024-25 roedd cynnydd o 5% (2023-24: 4.25%).

Cymeradwyir unrhyw gynnydd blynyddol yng nghyflogau'r Cyfarwyddwyr eraill gan y Prif Weithredwr, gan adlewyrchu canlyniad dyfarniad tâl y staff yn gyffredinol.

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i daliad ar sail perfformiad gwerth hyd at 12% o'i gyflog sylfaenol. Mae gan y cyfarwyddwyr eraill hawl i daliad gwerth hyd at 8% o'u cyflog sylfaenol. Mae taliadau ar sail perfformiad yn anghyfunedig (hynny yw, nid ydynt yn cael eu hychwanegu at y cyflog sylfaenol, ac mae'n rhaid eu hennill eto bob blwyddyn).

Nid ydynt wedi'u cynnwys mewn tâl pensiynadwy.

Nid oes unrhyw un o'r cyfarwyddwyr yn derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn ffyrdd eraill. Ad-delir treuliau a geir fel rhan o'u dyletswyddau i gyfarwyddwyr ar yr yn sail â holl gyflogeion eraill y Gronfa.

Mae manylion y cyflog sylfaenol, taliadau ar sail perfformiad a buddiannau pensiwn cyfarwyddwyr wedi'u hamlinellu yn y tablau isod.

Gellir dod o hyd i fanylion eu treuliau ar y wefan: tnlcommunityfund.org.uk/about/our-people/senior-management-team



Same but Different, Cymru

## Tâl cydnabyddiaeth gweithredwyr - cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| | 2024-25 Cyflog | 2024-25 Taliadau ar sail perfformiad | 2024-25 Gwerth buddiannau pensiwn |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **David Knott** (Prif Weithredwr) 0.91 CaALl | 145-150 (cyfwerth â blwyddyn lawn 160-165) | 10-15 | 63 |
| **Kate Beggs** (Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon) | 85-90 | 0-5 | 50 |
| **Nicolas Buckley** (Pennaeth Staff) o fis Hydref 2024 | 40-45 (cyfwerth â blwyddyn lawn 85-90) | 0-5 | 17 |
| **Phil Chamberlain** (Cyfarwyddwr Lloegr - Strategaeth, Partneriaethau ac Ymgysylltu) o fis Mehefin 2022 | 90-95 | 5-10 | 37 |
| **Elizabeth Church** (Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant) o fis Medi 2024 | 50-55 (cyfwerth â blwyddyn lawn 100- 105) | 0-5 | 21 |
| **Emma Corrigan** (Cyfarwyddwr Lloegr - Rhaglenni, Gweithrediadau a Rhanbarthau) o fis Gorffennaf 2022 | 90-95 | 5-10 | 37 |
| **Melissa Eaglesfield** (Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith Dros Dro) o fis Chwefror 2025 | 10-15 (cyfwerth â blwyddyn lawn 85-90) | 0-5 | 55 |

| Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol 2024-25 | 2023-24 Cyflog | 2023-24 Taliadau ar sail perfformiad | 2023-24 Gwerth buddiannau pensiwn | Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 220-225 | 135-140 (cyfwerth ag amser llawn 150 155) | 10-15 | 38 | 185-190 |
| 135-140 | 80-85 | 0-5 | 21 | 105-110 |
| 55-60 | - | - | - | - |
| 135-140 | 85-90 | 0-5 | 35 | 120-125 |
| 75-80 | - | - | - | - |
| 135-140 | 85-90 | 0-5 | 35 | 120-125 |
| 65-70 | - | - | - | - |

| | 2024-25 Cyflog | 2024-25 Taliadau ar sail perfformiad | 2024-25 Gwerth buddiannau pensiwn |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Stuart Fisher** (Prif Swyddog Cyllid ac Adnoddau) | 120-125 | 0-5 | 46 |
| **Laura Lucking** (Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith) tan fis Chwefror 2025 0.73 rhannu swydd | 70-75 (cyfwerth ag amser llawn/â blwyddyn lawn 100-105) | 0-5 | 31 |
| **Verity Prime** (Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith) tan fis Chwefror 2025 0.73 rhannu swydd | 70-75 (cyfwerth ag amser llawn/â blwyddyn lawn 100-105) | 0-5 | 30 |
| **Neil Ritch** (Cyfarwyddwr yr Alban) | 85-90 | 0-5 | 38 |
| **John Rose** (Cyfarwyddwr Cymru) | 95-100 | 0-5 | 62 |

| Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol 2024-25 | 2023-24 Cyflog | 2023-24 Taliadau ar sail perfformiad | 2023-24 Gwerth buddiannau pensiwn | Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 170-175 | 105-110 | 0-5 | 41 | 145-150 |
| 100-105 | 80-85 (Cyfwerth ag amser llawn 95-100) | 0-5 | 61 | 140-145 |
| 100-105 | 80-85 (Cyfwerth ag amser llawn 95-100) | 0-5 | 68 | 145-150 |
| 120-125 | 80-85 | 0-5 | 19 | 100-105 |
| 160-165 | 90-95 | 0-5 | 52 | 145-150 |

## Tâl cydnabyddiaeth Gweithredwyr – Pensiynau (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| |
|---|
| **David Knott**<br>(Prif Weithredwr) |
| **Kate Beggs**<br>(Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon) |
| **Nicolas Buckley**<br>(Pennaeth Staff) o fis Hydref 2024 |
| **Phil Chamberlain**<br>(Cyfarwyddwr Lloegr, Strategaeth, Partneriaethau ac Ymgysylltu) |
| **Elizabeth Church**<br>(Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant) o fis Medi 2024 |
| **Emma Corrigan**<br>(Cyfarwyddwr Lloegr - Rhaglenni, Gweithrediadau a Rhanbarthau) |
| **Melissa Eaglesfield** [1]<br>(Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith Dros Dro) o fis Chwefror 2025 |
| **Stuart Fisher**<br>(Prif Swyddog Cyllid ac Adnoddau) |
| **Laura Lucking** [2]<br>(Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith) tan fis Chwefror 25 |
| **Verity Prime**<br>(Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith) tan fis Chwefror 25 |
| **Neil Ritch**<br>(Cyfarwyddwr yr Alban) |
| **John Rose**<br>(Cyfarwyddwr Cymru) |

[1] Cymerodd Melissa Eaglesfield gyfrifoldebau Cyfarwyddwr o fis Chwefror 2025. Mae'r CETV agoriadol a'r cynnydd yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu'r gwerth agoriadol ar 31 Mawrth 2024, yn hytrach na'r dyddiad gwirioneddol y cychwynnwyd rôl y Cyfarwyddwr Dros Dro. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi datgelu'r ffigur hwn yn absenoldeb CETV a gyfrifwyd ar y dyddiad trosglwyddo.

| Pensiwn cronnus ar oedran pensiynadwy ar 31/03/25 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad ar oedran pensiwn | Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/25 | CETV ar 31/03/24 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---:|---:|---:|---:|---:|
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 40-45 | 2.5-5 | 706 | 635 | 35 |
| 25-30 plws cyfandaliad o 60-65 | 2.5-5 plws cyfandaliad o 0-2.5 | 544 | 484 | 36 |
| 0-5 | 0-2.5 | 12 | 0 | 9 |
| 5-10 | 0-2.5 | 90 | 55 | 24 |
| 0-5 | 0-2.5 | 16 | 0 | 12 |
| 5-10 | 0-2.5 | 78 | 46 | 21 |
| 25-30 | 2.5-5 | 431 | 376 | 36 |
| 5-10 | 2.5-5 | 108 | 68 | 26 |
| 30-35 | 0-2.5 | 486 | 449 | 16 |
| 20-25 | 0-2.5 | 410 | 380 | 17 |
| 30-35 plws cyfandaliad o 70-75 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0-2.5 | 652 | 595 | 28 |
| 35-40 | 2.5-5 | 817 | 728 | 54 |

[2] Gadawodd Laura Lucking a Verity Prime Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ym mis Chwefror 2025 a pharhau fel aelodau o'r cynllun pensiwn. Darparwyd y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) a ddangosir gan weinyddwyr y cynllun pensiwn ac mae'n adlewyrchu'r gwerth ar 31 Mawrth 2025, yn hytrach na'r dyddiad gwirioneddol o adael Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi datgelu'r ffigur hwn yn absenoldeb CETV a gyfrifwyd ar y dyddiad trosglwyddo.

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV)

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) yw'r gwerth cyfalafol a aseswyd yn actiwaraidd o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisiwyd yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau pensiwn galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan ystyrir buddiannau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn parhau i gael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2024-25.

## Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil a oedd newydd ei benodi a mwyafrif y rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan yn y PCSPS. Mae gan y PCSPS bedair adran: tri yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus), gydag oedran pensiwn arferol o 60, ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau buddiant diffiniedig statudol yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan arian a bennir gan Senedd y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Newidiodd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis

o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022.

Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu'r gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 i rai aelodau, efallai y bydd gan aelodau cymwys â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y CETVau a ddangosir yn yr adroddiad hwn). Mae buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha - fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium.

Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn wedi'i ennill yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn a gronnir yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) y pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a ganiateir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogydd gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr).

Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny.

Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha - fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun, ond nodwch y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn ar wefan Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/

Nifer y staff y gwnaed cyfraniadau pensiwn ar eu cyfer yn 2024-25 oedd 0 classic, 0 premium, 0 nuvos, 875 alpha a 31 partneriaeth. Mae'r cyfanswm o 906 yn cynrychioli'r mwyafrif o gyfanswm yr aelodau staff unigol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

Ar gyfer 2024-25, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £134,935 yn daladwy i gyfrif pensiwn y bartneriaeth (2023-24: £151,027) a derbyniwyd ad-daliad o £20,079 am or-gyfraniad mewn blynyddoedd blaenorol, gyda £4,345 ychwanegol (2023-24: £4,357) yn daladwy ar gyfer y gorchudd budd-daliadau.

Ar gyfer 2024-25, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £8,004,070 yn daladwy i'r PCSPS (2023/24: £7,317,255) ar un o bedair graddfa yn yr amrediadau i'r dde.

Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadolygu adeg prisiad llawn o'r cynllun. Cynhaliwyd y gwerthusiad diweddaraf gan Adran Actwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2020. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan fo'r costau'n cael eu codi, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau ar gyfer 2024-25 yn cyfateb i argymhellion gan yr Actiwari.

Ar hyn o bryd, mae cyflogwyr yn talu 28.97% o gyflog eu gweithwyr ar gyfartaledd fel cyfraniad pensiwn ar bensiynau Alpha a 9.71% ar bensiynau Partneriaeth. Mae'r union ffigur yn dibynnu ar gyflogau'r cyflogeion unigol.

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025<br>£000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024<br>£000 |
|---|---|---|
| **£23,000 a llai** | 28.97% | 26.6% |
| **£23,001 – £45,500** | 28.97% | 27.1% |
| **£45,501 – £77,000** | 28.97% | 27.9% |
| **£77,001 a mwy** | 28.97% | 30.3% |

Mae lefel rhagolwg cyfraniadau cyflogwyr i'r PCSPS ar gyfer 2025-26 rhwng £8,164,152 ac £8,324,233 yn seiliedig ar gynnydd cyflog o rhwng 2% a 4% ar lefelau cyflog 2024-25.

Fel cynllun amlgyflogwr heb ei ariannu sy'n gweithredu'n bennaf yn y sector cyhoeddus, mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth, Undebau Llafur ac aelodau mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol, ei sefyllfa actiwaraidd a lefelau tebygol cyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr.

Mewn cyffredin â'r holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill, mae'r tebygolrwydd o gynnydd yn lefel y cyfraniadau'n rhan o'r trafodaethau hyn.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddiant diffiniedig amlgyflogwr, felly ni allwn adnabod ein cyfran ni o asedau neu rwymedigaethau'r cynllun.

## Lluosrifau tâl (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Rydym yn datgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth ein cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf (y Prif Weithredwr) a thâl cydnabyddiaeth gweithwyr y Gronfa ar y 25ain, y 50fed a'r 75ain canradd.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad a buddiannau mewn nwyddau. Mae'n eithrio taliadau terfynu. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Bandio cyfanswm y cyflog ynghyd (cyfwerth ag amser llawn) plws dyfarniad perfformiad yn ystod blwyddyn y Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf (y Prif Weithredwr) oedd £170,000 i £175,000 (2023-24:£160,000 i £165,000 – cynnydd o 6.2%). Yn 2024-25, doedd dim (2023-24: dim) cyflogeion a dderbyniodd tâl cydnabyddiaeth sy'n fwy na'r cyfarwyddwr â'r tâl uchaf.

Y cyflog cyfartalog cymedrig ar gyfer yr holl gyflogeion eraill yn ystod 2024-25 oedd £37,084 (2023-24: £35,559 – cynnydd o 4.3%). Y taliadau cyfartalog ar sail perfformiad yn ystod 2024-25 ar gyfer yr holl gyflogeion eraill oedd £259 (2023-24: £258 – cynnydd o 0.5%). Mae'r ystod o dâl rhwng £20,000 a £25,000 hyd at £160,000 i £165,000.

Mae'n ofynnol i ni hefyd ddatgelu cymhareb cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) o'i gymharu â'r 25ain, 50fed a 75ain canradd o gyflog staff cyfwerth ag amser llawn. Crynhoir hwn yn y tabl isod. Mae cymharebion wedi aros yn fras yr un fath â'r llynedd oherwydd nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r strwythur tâl.

| | 2024-25 | 2024-25 | 2023-24 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | Cymhareb | £ | Cymhareb |
| **25ain canradd** | 29,478 | 5.9:1 | 27,968 | 6.0:1 |
| **50fed canradd** | 32,326 | 5.4:1 | 31,097 | 5.4:1 |
| **75ain canradd** | 40,866 | 4.3:1 | 39,000 | 4.3:1 |

Ni thelir unrhyw fuddiannau mewn nwyddau neu fuddiannau eraill i gyflogeion felly mae'r holl symiau a chymarebau a ddyfynnir yn ymwneud ag elfennau cyflog cyfanswm tâl a buddiannau.

## Ymgynghoriaeth

Mae’r Gronfa wedi talu costau ymgynghori o £1.3 (2023-24 £1.4) yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu cyngor ac arbenigedd na fyddem yn eu caffael fel mater o drefn i gefnogi ein gweithgareddau parhaus. Ar gyfer 2024-25, mae hyn yn cynnwys gwaith ymgynghori sy’n ymwneud â rhoi’r strategaeth ar waith, parhau â’n buddsoddiad digidol a gweithgarwch i gefnogi’r rhaglen gwella sefydliadol.

## Cyflogi gweithwyr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel

Roedd y Gronfa’n cyflogi 15 o weithwyr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2025, yn ennill £245 y dydd neu fwy.

| Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2025 | 15 |
|---|---|
| **O'r rhain, y nifer a fodolodd: llai na blwyddyn** | 14 |
| **rhwng 1 a 2 flynedd** | - |
| **rhwng 2 a 3 blynedd** | 1 |
| **rhwng 3 a 4 blynedd** | - |
| **am 4 blynedd neu ragor** | - |

Cyflogodd y Gronfa 19 o weithwyr oddi ar y gyflogres a oedd â chyflog uchel yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, gan ennill £245 y dydd neu fwy.

| **Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025** | **19** |
|---|---|
| **O'r rhain:** | |
| **Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel rhywbeth sydd o fewn cwmpas IR35** | 19 |
| **Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel rhywbeth sydd y tu allan i gwmpas IR35** | - |
| **Nifer yr ymrwymiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn** | 1 |
| **O'r rhain: Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad** | - |

## Swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol

Penododd y Gronfa 24 o aelodau Bwrdd neu aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod y flwyddyn y pennwyd bod ganddynt gyfrifoldeb ariannol sylweddol. Talwyd am yr holl benodiadau hyn trwy gyflogres y Gronfa.

| | |
|---|---|
| **No. of off-payroll engagements of Board members and/or, senior officials with significant financial responsibility during the finan-cial year.** | **-** |

## Staff (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Roedd cyfanswm costau staff, gan gynnwys tâl cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Tâl a chyflogau** | 29,977 | 30,253 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | 3,236 | 3,131 |
| **Costau pensiwn eraill** | 8,123 | 7,473 |
| **Costau ardoll brentisiaethau** | 145 | 141 |
| **Costau staff asiantaeth** | 1,338 | 1,100 |
| | **42,819** | **42,098** |

Secondiwyd nifer o staff sydd wedi'u cynnwys uchod i fudiadau eraill, y mae ad-daliadau o £419,714 wedi'u cynnwys mewn incwm arall. Oherwydd y ffordd y mae ein systemau busnes yn gweithredu, nid yw'n bosib nodi nifer a chost yr aelodau staff o fewn y cyfanswm nad ydynt yn cael eu cyflogi'n barhaol, ac eithrio'r rhai a gyflogir trwy asiantaethau.

| | Nifer y staff dros dro ar 31 Mawrth 2025 | Nifer y cyflogeion ar 31 Mawrth 2025 | Cyfanswm nifer y staff ar 31 Mawrth 2025 | Cyfanswm nifer y staff ar 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|
| | (CaALl) | (CaALl) | (CaALl) | (CaALl) |
| **Dyfarnu grantiau** | 2 | 452 | 454 | 495 |
| **Cefnogi cwsmeriaid a budd-ddeiliaid** | 8 | 115 | 123 | 134 |
| **Llywodraethu a gweinyddu** | 6 | 182 | 188 | 175 |
| | 16 | 749 | 765 | 804 |

Ar 31 Mawrth 2025, cyflogodd y Gronfa 765 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2024: 804). Roedd hyn yn cynnwys 16 o gyflogeion dros dro cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2024: 13).

Roedd nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a staff dros dro sy'n gweithio i'r Gronfa yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

### Pecynnau ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Er nad yw cyflogeion y Gronfa'n weision sifil, mae eu telerau cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliadau terfynu a phensiynau ymddeol yn gynnar a gyfrifir yn yr un modd â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Telir costau'r buddiannau hyn gan y Gronfa ac nid gan y Gwasanaeth Sifil neu gronfeydd y Trysorlys. Roedd 37 o ddiswyddiadau/ymadael yn wirfoddol o £1,562,384 (2023-24: £1,091,000) gan gynnwys 6 pensiwn ymddeoliad cynnar yn 2024-25 o £129,528 (2023-24: £731,000) a dim diswyddiadau gorfodol (2023-24: £11,000).

| Band costau'r pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau/ ymadawiadau gorfodol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Nifer y diswyddiadau/ ymadawiadau gwirfoddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Cyfanswm y diswyddiadau/ ymadawiadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Cyfanswm y diswyddiadau/ ymadawiadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **<£10,000** | – | 1 | 1 | 1 |
| **£10,000 - £25,000** | | 6 | 6 | 1 |
| **£25,001 - £50,000** | – | 18 | 18 | 5 |
| **£50,001 - £100,000** | – | 12 | 12 | 4 |
| **£100,001 - £150,000** | – | – | – | 1 |
| **£150,001 - £200,000** | – | – | – | 1 |
| **£200,001 +** | – | – | – | 1 |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | **–** | **37** | **37** | **14** |
| **Cyfanswm cost £000** | **-** | **1,562** | **1,562** | **1,102** |

## Absenoldeb salwch staff


Rydym yn ymroddedig i iechyd a lles ein staff. Mae gan y Gronfa bolisi absenoldeb salwch staff cynhwysfawr ac mae'n gweithredu gweithgareddau lles a arweinir gan gyflogeion. Yn ystod 2024-25, y nifer cyfartalog o ddiwrnodau absenoldeb salwch oedd 7.2 diwrnod fesul cyflogai CaALl (7 diwrnod yn 2023-24).

## Trosiant


Yn 2024-25 gadawodd 123 o staff y Gronfa; mae hyn yn cynrychioli 15% o'n cyfrif pennau ar ddechrau'r cyfnod. Yr ymadawiadau cyfatebol yn 2023-24 oedd 124 (15%).

Mae'r Gronfa'n cydnabod y cydbwysedd rhwng cyfraddau cadw staff iach a dod â thalent newydd i'r Gronfa.

### Dyddiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul CaALl




### Trosiant




Fel gyda mudiadau eraill, gostyngodd absenoldebau yn 2020-22 oherwydd COVID-19 a chydweithwyr yn gweithio o gartref ac yn dod i gysylltiad â llai o haint a than-adrodd posibl. Mae ein diwrnodau gwaith a gollwyd yn 2024-25 wedi codi ers yr amser hwn ond maent yn dal i fod o dan lefelau cyn-bandemig a ffigurau'r gwasanaeth sifil ar gyfer 2025.

## Cyfranogiad cyflogeion

Mae gan y Gronfa berthynas adeiladol gyda'n hundebau cydnabyddedig ar y cyd, Prospect ac Unite, ac mae'n ceisio annog a dod o hyd i gyfleoedd cynnwys ac ymgynghori â chyflogeion. Mae'r Gronfa yn cywain barn ei staff yn rheolaidd trwy ddeialog anffurfiol a thrwy arolygon cyswllt cyflogeion blynyddol ffurfiol.

Mae ein mynegai ymgysylltu yn parhau'n uchel ar 72%, sy'n gyson ag arolwg pwls y llynedd. Mae cyd-gyngor a sefydlwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 yn parhau i glywed mwy o leisiau o bob rhan o'r mudiad wrth siapio'r Gronfa i fod yn lle gwych i weithio.

## Iechyd a Diogelwch

Mae'r Gronfa yn trin ei chyfrifoldebau dros Iechyd a Diogelwch ei staff, contractwyr a deiliaid grant fel mater o ddifrif. Rydym yn ceisio mabwysiadu arferion gorau wrth reoli ac adrodd ar risg. Mae newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio, gyda mwy o'n cydweithwyr yn gweithio i ffwrdd o ganolfannau swyddfa sefydlog, wedi ein gorfodi i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau ychwanegol a allai godi.

## Ardoll Brentisiaethau

Mae'r ardoll brentisiaethau'n berthnasol i bob mudiad sydd â bil cyflogau blynyddol dros £3 miliwn. Mae cyfraniadau at y cyfrif ardoll brentisiaethau'n 0.5% o'r cyfanswm bil cyflogau ar ôl didynnu lwfans £15,000.

Mae'r llywodraeth yn cyfrannu hyd at 10% at y cyfrif mewn perthynas â symiau sy'n gysylltiedig â Lloegr. Gall cyflogwyr ddefnyddio'r cyfrif i dalu am weithgareddau hyfforddiant cymwys. Mae trefniadau prentisiaeth mewn perthynas â Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon heb eu newid.

Mae'r Gronfa wedi gwneud cyfanswm cyfraniad o £145,000 (2023-24: £141,000) at y cynllun yn ystod y flwyddyn ac yn unol ag arweiniad cyfrifyddu'r llywodraeth mae wedi dileu hwn fel cost staff o dan drethi.

Mae'r Gronfa wedi hawlio cyfanswm o £71,000 (2023-24: £53,000) yn ôl mewn costau hyfforddi gan ddarparwyr priodol. Dangosir y costau hyn fel costau hyfforddi mewn costau gweithredu gyda mantais tynnu i lawr o'r cyfrif ardoll brentisiaethau wedi'i ddangos mewn incwm fel grant gan y llywodraeth.

## Cydraddoldeb mewn cyflogaeth

Mae'r Gronfa yn ceisio bod yn gyflogwr amrywiol a chynhwysol. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cydweithwyr yn adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu cefnogi'n briodol. Mae ein dull recriwtio'n sicrhau ein bod yn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr ac rydym yn defnyddio ffynonellau, sianeli, cysylltiadau, asiantaethau a dulliau hysbysebu priodol i gefnogi hyn.

Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r holl gydweithwyr i uchafu eu gallu i ymgymryd â'u rolau dros y Gronfa. Rydym yn cefnogi ystod o gyfleoedd hyfforddi sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol, ac yn unigryw, i'r sgiliau y mae eu hangen i gyflawni'r rôl gan gynnwys datblygu arweinwyr a rheolwyr. Pan fydd cydweithwyr yn datblygu problemau mynediad yn ystod eu cyflogaeth rydym yn ceisio sicrhau y gallant barhau i fodloni gofynion eu rôl gan gynnwys darparu cefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol fel y bo angen. Mae'r tabl isod yn amlinellu ein hadroddiad monitro cydraddoldeb ar gyfer 2024-25.

## Pobl ag Anableddau

| | Y Gronfa | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| **Staff sydd wedi datgan anabledd** | 19.5 | 16.9 | 25.0 |
| **Staff sydd heb ddatgan anabledd** | 80.5 | 83.1 | 75.0 |

## Rhywedd

| | Y Gronfa | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| **Benywaidd** | 69.9 | 54.5 | 47.8 |
| **Gwrywaidd** | 29.6 | 45.5 | 52.2 |
| **Anhysbys** | 0.5 | | |

## Rhywedd

| | Bwrdd | Cyfarwyddwyr | Uwch Staff y Gronfa (arweinwyr) |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| **Benywaidd** | 54.5 | 52.0 | 67.4 |
| **Gwrywaidd** | 45.5 | 48.0 | 32.6 |

## Grŵp Ethnig

| | Y Gronfa | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|
| | % | % |
| **Asiaidd** | 7.3 | 6.6 |
| **Du** | 4.2 | 5.2 |
| **Tsieineaidd** | 0.3 | 0.6 |
| **Cymysg** | 2.4 | 1.8 |
| **Arall** | 0.5 | 3.3 |
| **Gwyn** | 84 | 82.4 |
| **Dim Gwybodaethn** | 1.3 | 0.1 |
| **Ddim eisiau datgan** | - | - |

## LHDT+

| | Y Gronfa | Gwasanaeth Sifil |
|---|---|---|
| | % | % |
| **LHDT+** | 9.2 | 5 |
| **Nad sy'n LHDT+** | 71.5 | 67.4 |
| **Anhysbys** | 19.3 | 27.6 |

## Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae'n ofynnol i'r Gronfa adrodd ar ei pherfformiad i'r llywodraeth o dan y rheoliadau Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Mae manylion llawn ar gael ar borth bwlch cyflog rhwng y rhywiau GOV.UK ac fe'u cyhoeddir ar ein gwefan. Ar draws y Gronfa'n gyffredinol, rydym yn adrodd am fwlch cyflog rhwng y rhywiau o 2.2% (2023-24: 1.9%) ar gyfer cyflog canolrif, tra ar gyfer tâl cymedrig, y bwlch yw 6.4% (2023-24: 4.7%). Er bod y bwlch wedi lledu ychydig ers y llynedd, ar ôl recriwtio cyfran uwch o fenywod ar lefelau iau yn ystod y flwyddyn na dynion, rydym yn parhau i berfformio'n sylweddol well na mudiadau ledled y DU a'r Gwasanaeth Sifil ehangach.

## Bwlch Cyflog mewn perthynas ag Ethnigrwydd

Er nad oes dyletswydd gyfreithiol arnom i adrodd ar ein bwlch cyflog mewn perthynas ag ethnigrwydd, rydym wedi gwneud y penderfyniad i gyhoeddi ein canlyniadau ochr yn ochr â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ar draws y Gronfa'n gyffredinol, rydym yn adrodd am fwlch cyflog mewn perthynas ag ethnigrwydd o 0.3% (2023-24: 2.4%) ar gyfer cyflog canolrif, tra ar gyfer tâl cymedrig, y bwlch yw 3.2% (2023-24: 4.5%). Rydym yn falch o'r gostyngiad yn ein bylchau cyflog ers y llynedd a byddwn yn parhau â'r gwaith cadarnhaol rydym wedi'i ddechrau i leihau'r bwlch hwn ymhellach fyth.

# Amser Hwyluso Undebau Llafur

| | |
|---|---|
| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion perthnasol yr undeb yn ystod y flwyddyn ariannol | 3 |
| Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn | 2.4 |

**Canran yr amser sy'n cael ei dreulio ar amser hwyluso gan swyddogion perthnasol yr undeb:**

| | |
|---|---|
| 0% | - |
| 1-50% | - |
| 51-99% | 3 |
| 100% | - |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost yr amser hwyluso | £110,751 |
| Cyfanswm cost y bil cyflogau | £41,335,958 |
| Canran y bil cyflogau sy'n cael ei threulio ar amser hwyluso | **0.3%** |

| | |
|---|---|
| Oriau a dreulir ar weithgareddau undeb llafur â thâl | 180 |
| Oriau a dreulir ar amser hwyluso â thâl | 4,750 |
| Canran | **3.9%** |



David Knott
Chief Executive and Accounting Officer

2nd July 2025



Newbigin Community Trust, Lloegr

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Senedd Gogledd Iwerddon

## Barn am ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a Deddf Asedau Segur 2008 i 2022.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol ar gyfer Y Gronfa Loteri Fawr:

- Datganiad sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2025
- Datganiad Incwm Net Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian a Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- y nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol..

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith berthnasol ac yn Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2025 ac o'i gwarged cyn treth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, Deddf Asedau Segur 2008 i 2022 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddir oddi tanynt.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (ISA) (Deyrnas Unedig) a Nodyn Arfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol 2019 diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol oddi wrth y Gronfa Loteri Fawr yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm archwiliad a'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â'r busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod defnydd Y Cronfa Loteri Fawr o sail cyfrif busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Gronfa Loteri Fawr i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol cyfrifyddu y Gronfa Loteri Fawr wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Llywodraeth y Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle roedd yn rhagweld y byddai'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif ac adroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a gan eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld fel cael ei chamddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddf Asedau Segur 2008 i 2022.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddf Asedau Segur 2008 i 2022
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Gronfa Loteri Fawr a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod unrhyw gamddatgan materol yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan y Gronfa Loteri Fawr neu ddychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n cyfateb i'r cofnodion cyfrifo a'r dychweliadau
- nid yw rhai datgeliadau o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu dilys
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) i'r holl wybodaeth y mae rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill
- rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r C&AG sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r C&AG i bersonau o fewn y Gronfa Loteri Fawr y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith fel y bernir sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddfau Asedau Segur 2008 i 2022
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl cydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddfau Asedau Segur 2008 i 2022
- asesu gallu'r Gronfa Loteri Fawr i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Gronfa Loteri Fawr yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddf Asedau Segur 2008 i 2022.

Fy amcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISA (y Deyrnas Unedig) bob amser yn datgelu camddatgan materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatgan ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir ei fod yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, gellir disgwyl yn rhesymol eu bod yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoleiddio, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes y canlynol:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu a dangosyddion perfformiad allweddol y Gronfa Loteri Fawr
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Gronfa Loteri Fawr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Gronfa Loteri Fawr sy'n ymwneud â:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Gronfa Loteri Fawr sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Gronfa Loteri Fawr â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddfau Asedau Segur 2008 i 2022, a Rheoli Cyhoeddus Arian.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Gronfa Loteri Fawr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
    - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau
    - a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig
    - trafod ymhlith y tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth, rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli a gwariant grant. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Gronfa Loteri Fawr a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Gronfa Loteri Fawr. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddfau Asedau Segur 2008 i 2022, Rheoli Arian Cyhoeddus, cyfraith cyflogaeth a Deddfwriaeth treth.

## Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod, fe wnes i'r canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a chwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl
- adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol
- ymdriniais â'r risg o dwyll drwy reolaeth yn diystyru rheolaethau drwy brofi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill gan asesu a yw'r barnau ar amcangyfrifon yn dynodi rhagfarn bosibl a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.
- phrofi sampl o wariant grant i gael sicrwydd bod grantiau wedi'u gwario at y dibenion a fwriadwyd..

Fe wnes i gyfleu'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu. Roeddwn i'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities

Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

### Cyfrifoldebau eraill archwilwyr

Mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrhad archwilio rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion yn unol â bwriad Senedd y Deyrnas Unedig a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â gofal llywodraethu mewn perthynas â, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.s.

Gareth Davies
4 Gorffennaf 2025
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol

## Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025<br>£000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| **Incwm Loteri** | | | |
| Enillion gan y Loteri Genedlaethol | 13 | 717,280 | 689,346 |
| Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 34,495 | 33,588 |
| Llog banc a llog arall a dderbynnir | 2 | 484 | 631 |
| Adennill grantiau | 2 | 2,813 | 4,034 |
| | | **755,072** | **727,599** |
| **Incwm arian asedau segur** | | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy o Reclaim Fund Ltd | 31a | 143,407 | 90,374 |
| Llog banc derbyniadwy | 31a | 6,894 | 7,450 |
| Adennill grantiau | 31a | 121 | 68 |
| | | **150,422** | **97,892** |
| **Incwm Cronfa Community Organisations Cost of Living** | | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DCMS | 28 | 500 | 74,216 |
| Llog a dderbyniwyd | 28 | 19 | 117 |
| Adennill grantiau | 28 | 342 | - |
| | | **861** | **74,333** |
| **Incwm Cronfa Million Hours** | | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DCMS | 29 | 6,840 | 3,938 |
| Llog a dderbyniwyd | 29 | - | 23 |
| Adennill grantiau | 29 | 1 | - |
| | | **6,841** | **3,961** |

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | 30 | - | 12 |
| Adennill grantiau | 30 | - | 6 |
| | | **-** | **18** |
| **Incwm Cronfa Local Connections** | | | |
| Adennill grantiau | - | - | 2 |
| | | **-** | **2** |
| **Incwm Cronfa Living Places and Spaces** | | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DfI | - | - | - |
| Adennill grantiau | - | 1 | 3 |
| | | **1** | **3** |
| **Incwm arall** | 2 | 1,280 | 2,227 |
| **Cyfanswm incwm** | | **914,477** | **906,035** |

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| **Gwariant ar raglenni'r Loteri Genedlaethol** | | | |
| Gwariant ar grantiau | 3 | 768,077 | 700,565 |
| Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | 3 | (4,180) | (17,483) |
| Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni | 4 | 3,242 | 3,226 |
| | | **767,139** | **686,308** |
| **Gwariant ar y rhaglen arian asedau segur** | | | |
| Trosglwyddiadau/trosglwyddadwy i ddosbarthwyr penodol | 31a | 430 | 111,780 |
| Gwariant ar grantiau | 31a | 25,956 | 15,290 |
| Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | 31a | (89) | (58) |
| | | **26,297** | 127,012 |
| **Gwariant ar raglenni Cronfa Community Organisations Cost of Living Fund** | | | - |
| Gwariant ar grantiau | 28 | - | 70,709 |
| Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | 28 | (20) | (192) |
| Ad-dalwyd i DCMS | 28 | 845 | - |
| | | **825** | 70,517 |
| **Gwariant ar raglenni Cronfa Million Hours** | | | |
| Gwariant ar grantiau | 29 | 150 | 10,091 |
| | | **150** | 70,517 |
| **Gwariant ar raglenni Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws** | | | |
| Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | 30 | - | 219 |
| Ad-dalwyd i DCMS | 30 | 764 | - |
| | | **764** | **219** |

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant ar raglenni Cronfa Local Connections** | | | |
| Ad-dalwyd i DCMS | - | - | 5 |
| | - | **-** | **5** |
| **Gwariant ar raglenni Cronfa Living Places and Spaces** | | | |
| Gwariant ar grantiau | - | - | 21 |
| Ad-dalwyd i DfI | - | 1 | 13 |
| | | **1** | 34 |
| **Gwariant ar raglenni Cronfa Caru'n Cynefin** | | | |
| Gwariant ar grantiau | - | - | - |
| Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | - | - | 5 |
| | | **-** | 5 |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | 5 | 52,710 | 51,944 |
| Costau gweithredu a ailgodir | 5 | 1,443 | 1,557 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian asedau segur | 5 | 1,197 | 830 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian Cronfa Community Organisations Cost of Living | 5 | 500 | 3,316 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian Cronfa Million Hours | 5 | 359 | 177 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws | 5 | - | (213) |

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **Ailstrwythuro a buddsoddiad** | 8 | 2,610 | 1,194 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **853,995** | **952,996** |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn treth** | | **60,482** | **(46,961)** |
| Treth | 9 | (162) | (120) |
| Treth asedau segur | 9 | (2,170) | (1,748) |
| Treth Cronfa Community Organisations Cost of Living | 28 | (34) | - |
| Treth Cronfa Million Hours | 29 | (6) | - |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr net** | | **58,110** | **(48,829)** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn berthnasol i weithgareddau parhaus.

## Datganiad sefyllfa ariannol

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2025 £000 | Ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | 246 | 283 |
| Asedau anniriaethol | 11 | - | - |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 20 | 3,179 | 4,037 |
| | | 3,425 | 4,320 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac arian arall a dderbynnir | 12 | 3,819 | 4,712 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 312,882 | 231,961 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 551,989 | 530,214 |
| | | **868,690** | **766,887** |
| **Cyfanswm asedau** | | **872,115** | **771,207** |


| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2025 £000 | Ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach ac arian arall a delir | 14 | (578,334) | (587,454) |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | (723) | (586) |
| **Cyfanswm asedau llai ymrwymiadau net cyfredol** | | **293,058** | **183,167** |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Masnach ac arian arall a delir | 14 | (526,308) | (473,129) |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | (2,679) | (3,561) |
| **Darpariaethau** | 15 | (873) | (1,389) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(236,802)** | **(294,912)** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Arian wrth gefn y Loteri | | (434,467) | (366,755) |
| Arian wrth gefn asedau segur | | 197,644 | 76,886 |
| Arian wrth gefn Cronfa Community Organisations Cost of Living Fund | | 2 | 500 |
| Arian wrth gefn Cronfa Million Hours | | 19 | (6,307) |
| Arian wrth gefn Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws | | - | 764 |
| | | **(236,802)** | **(294,912)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 117 i 160 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ar 2 Gorffennaf 2025.



David Knott
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu



Y Fonesig Julia
Cleverdon Cadeirydd

## Datganiad newidiadau mewn ecwiti

### Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

| | Cyfrifon Loteri | Asedau Segur | Cronfa Community Organisations Cost | Cronfa Million Hours |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Sefyllfa warged gychwynnol | (366,755) | 76,886 | 500 | (6,307) |
| Trosglwyddwyd o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr | (67,712) | 120,758 | (498) | 6,326 |
| Sefyllfa warged derfynol | **434,467** | **197,644** | **2** | **19** |

### Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | Cyfrifon Loteri | Asedau Segur | Cronfa Community Organisations Cost | Cronfa Million Hours |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Sefyllfa warged gychwynnol | (355,458) | 108,584 | - | - |
| Trosglwyddwyd o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr | (11,297) | (31,698) | 500 | (6,307) |
| Sefyllfa warged derfynol | (366,755) | 76,886 | 500 | (6,307) |

| Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws | Cronfa Local Connections | Cronfa Living Places and Spaces | Cronfa Caru'n Cynefin | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 764 | - | - | - | (294,912) |
| (764) | - | - | - | 58,110 |
| - | - | - | - | (236,802) |

| Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws | Cronfa Local Connections | Cronfa Living Places and Spaces | Cronfa Caru'n Cynefin | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 752 | 3 | 31 | 5 | (246,083) |
| 12 | (3) | (31) | (5) | (48,829) |
| **764** | **-** | **-** | **-** | **(294,912)** |

## Datganiad llif arian

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Gwarged/ (Diffyg) dros y cyfnod** | | 58,110 | (48,829) |
| Colled wrth waredu asedau anghyfredol | 10, 11 | - | 45 |
| Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar ac amorteiddio asedau anniriaethol | 10, 11 | 138 | 245 |
| Dibrisiant asedau prydles hawl-i-ddefnydd | 20 | 885 | 1,456 |
| Treuliau llog | 20 | 153 | 174 |
| **Gwarged/(Diffyg) wedi'i addasu ar gyfer trafodion anariannol** | | **59,286** | **(46,909)** |
| Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnachu ac arian arall a dderbynnir | 12 | 893 | 40,705 |
| (Cynnydd) yn balans NLDF | 13 | (21,775) | (41,134) |
| Cynnydd mewn masnachu ac arian taladwy arall | 14 | 44,059 | 42,777 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn darpariaethau | 15 | (516) | 341 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | | **81,947** | **(4,220)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Ad-dalu benthyciadau a rhwymedigaethau prydlesu | 20 | 925 | (1,258) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10, 11 | (101) | (187) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod** | | **80,921** | **(5,665)** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | | |
| Balansau arian wedi'u cario ymlaen | | 312,882 | 231,961 |
| Llai balansau arian wedi'u cario ymlaen | | (231,961) | (237,626) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod** | | **80,921** | **(5,665)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 117 i 160 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2024-25 a gyhoeddir gan Drysorlys EF a'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag Adran 36A (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006) a Deddf Asedau Segur 2008 i 2022.

Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Gronfa at ddiben darparu barn wir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiedir gan y Gronfa ar gyfer 2024-25 isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon. Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu pan fo'n briodol er gwerth teg. Credwn nad yw'r gost hanesyddol yn sylweddol wahanol i werth teg.

Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn dilyn arferion gorau gofynion datgelu Deddf Cwmnïau.

### 1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes cyfredol; mae hyn yn gyson â'r canllawiau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth sy'n dweud "rhoi sylw i'r dybiaeth sylfaenol y bydd datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes cyfredol". Ar ben hynny, mae'n datgan y "dylai endidau noddedig y mae eu datganiadau o sefyllfa ariannol yn dangos cyfanswm rhwymedigaethau net baratoi eu datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai, ar ôl trafod gyda'u noddwyr, yr ystyrir bod y sail busnes gweithredol yn amhriodol". Nid oes unrhyw drafodaethau o'r fath wedi'u cynnal.

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw enw gweithredu'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorfforaeth statudol a sefydlwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006. Hyd y gŵyr y Bwrdd, nid oes unrhyw fwriad i ddiddymu'r ddeddfwriaeth honno.

Mae'r Gronfa'n gyfrifol am ddosbarthu 40% o'r symiau achosion da a godir drwy'r Loteri Genedlaethol, y mae'n eu dosbarthu drwy ddyfarniadau grant i gefnogi prosiectau â ffocws cymunedol. Dyma ei phrif ffynhonnell ariannu a busnes.

Yn ychwanegol at ddosbarthu arian a godir gan y Loteri Genedlaethol i achosion da, mae'r Gronfa'n gyfrifol am ddosbarthu arian a ryddheir o gyfrifon banc segur ac asedau perthynol dan ddarpariaethau Deddf Asedau Segur 2022. Mae'r Gronfa wedi'i chyfarwyddo yn y modd y mae arian cyfrifon segur yn cael ei ddosbarthu ac nid yw'n gwneud taliadau arian parod nes derbynnir arian parod.

Ni ddarperir unrhyw wasanaethau dewisol a gefnogir gan ffynonellau ariannu eraill.

Ar gyfer gweithgaredd grant y Loteri Genedlaethol tynnir arian parod i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) yn ôl yr angen. Arian parod yw balans y Gronfa yn NLDF i bob pwrpas.

Ar gyfer incwm y Loteri Genedlaethol a thaliadau grant mae'r Gronfa, fel rhan o'i phrosesau busnes craidd, yn cynhyrchu rhagolwg llif arian manwl sy'n ymestyn ymlaen ar hyn o bryd hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2029-30.

- Mae hwn yn defnyddio rhagolygon gweithredwyr o refeniw'r Loteri i lywio rhagamcanion incwm, gydag addasiadau'n cael eu gwneud yn lleol i adlewyrchu gofal dros uchelgeisiau twf yn y dyfodol. Mae'r Gronfa hefyd yn ystyried addasiad ar ragolygon incwm o +/- 5% yn ei rhagamcanion i ddangos effaith amrywiadau posibl yn erbyn rhagamcanion achosion canolog.
- Mae'n ofynnol i dimau ariannu ddarparu manylion am ymrwymiadau grant hysbys yn y dyfodol a dyfarniadau grant disgwyliedig yn y dyfodol i lywio'r rhagolygon llif arian. Lle nad yw dyfarniadau grant yn y dyfodol yn hysbys eto oherwydd nad yw rhaglenni'r dyfodol wedi'u cytuno eto, mae ymrwymiad grant heb ei ddyrannu wedi'i gynnwys yn y rhagolwg.
- Mae balans arian parod sylfaenol derbyniol hefyd wedi'i sefydlu yn NLDF, ar hyn o bryd yn seiliedig ar 20% o incwm y Loteri namyn £20 miliwn. Defnyddir hwn i bennu'r all-lif arian parod mwyaf a ragwelwyd o daliadau grant y gellir eu gwneud tra'n dal i ddiogelu lefel sylfaenol o arian yn NLDF.

Yn seiliedig ar y diweddariad diweddaraf o'r rhagolwg llif arian, mae'r Gronfa'n disgwyl cadw balans arian parod o £341.2 miliwn yn NLDF ar 31 Mawrth 2027. Mae hyn £211.4 miliwn yn uwch na'r isafswm balans arian parod derbyniol a bennwyd gan y Gronfa yn NLDF ar yr un pryd.

Er bod rhai risgiau i gyflawni hyn, er enghraifft, cynnal cyfran y Gronfa o 40% o incwm y Loteri, cyflawni yn erbyn cynlluniau twf uchelgeisiol gan y gweithredwr newydd a'r ansicrwydd cynhenid yn refeniw y Loteri yn y dyfodol, nid yw'r Bwrdd yn ystyried bod unrhyw ansicrwydd perthnasol i'w gasgliad ei bod yn briodol i'r cyfrifon gael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

### 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balansau a ddelir yn NLDF yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y balans hwn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar 31 Mawrth 2025, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan y Gronfa mewn perthynas ag ymrwymiadau presennol a'r rhai yn y dyfodol.

### 1.4 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannu a chyfarpar wedi'u cydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol am y gost, ac eithrio eitemau â chost o lai na £2,000 sy'n cael eu dibrisio i'r Datganiad incwm cynhwysfawr ym mlwyddyn eu caffael.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad yn ystod amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

- **Gwelliannau prydles**
  Dros gyfnod y les
- **Cyfarpar TG**
  3 blynedd
- **Offer, dodrefn a ffitiadau swyddfa**
  3 blynedd

### 1.5 Asedau anniriaethol

Yn unol ag IAS 38 'Asedau Anniriaethol', cydnabyddir costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi'r meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw fel ased anniriaethol. Mae costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn cynnwys ffioedd contractwyr allanol a chostau cyflogeion. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol o'r asedau rydym yn amorteiddio ar sail linol dros y bywyd defnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

- **System rheoli grantiau**
  Pedair blynedd neu fywyd economaidd defnyddiol sy'n weddill pan fydd wedi'i ddiwygio
- **Gwefan**
  Pum mlynedd

Nid ydym yn amorteiddio costau mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu. Mae asedau anniriaethol wedi bod yn destun adolygiad gwerth gostyngol o dan IAS 36 (nodyn 11).

### 1.6 Cronfa bensiwn

PCSPS, sy'n gynllun pensiwn amlgyflogwr heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio. Fel arall gallant ymuno â Chynllun Pensiwn Partneriaeth y Gwasanaeth Sifil - pensiwn budd-ddeiliad. Telir buddiannau pensiwn gan PCSPS. Mae ein rhwymedigaethau wedi'u cyfyngu i gost, sydd wedi'i osod gan Brif Actwari'r Llywodraeth, mewn perthynas â chyflogau a delir ym mhob blwyddyn. Prisiwyd y cynllun ddiwethaf ar 31 Mawrth 2020.

### 1.7 Prydlesi

#### Lesai

Nodir asedau hawl i'w defnyddio yn y datganiad sefyllfa ariannol ar gost a bennir gan werth gyfredol y taliadau dan bob prydles. Caiff y costau hyn eu hamorteiddio dros gyfnod isafswm y brydles gan gynnwys cyfnodau dewisol lle mae'r Gronfa'n sicr neu'n weddol sicr o arfer yr opsiwn i ymestyn. Codir y costau ariannol o wasanaethu'r asedau ar brydles fel llog yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

#### Leswr

Pan fyddwn wedi darparu cyfnod dirent neu gymhelliad arall i denant,mae cost y cymhelliad hwn wedi'i dosrannu dros y cyfnod i ba un bynnag yw'r cynharaf o'r dyddiad adolygu rhent neu ddyddiad dod i ben y les ar sail linol.

### 1.8 Gwariant ar raglenni

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa ddosbarthu grantiau i ariannu neu gynorthwyo ariannu prosiectau a gwneud neu gychwyn trefniadau sydd â'r nod o dalu am wariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd fel a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

#### Dyfarniadau grant

Cyfrifir dyfarniadau grant fel gwariant yn y Datganiad Incwm Net Cynhwysfawr a, hyd nes y cânt eu talu, fel rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol os ydynt yn gweddu i ddiffiniad rhwymedigaethau yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, p'un a ydynt yn deillio o rwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol.

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel gwariant a chyfrifir am rwymedigaethau pan:

- fo'r Gronfa wedi dod i benderfyniad pendant ar y dyfarniad
- mae derbynnydd y dyfarniad wedi'i hysbysu amdano
- mae'r dyfarniad yn rhydd rhag unrhyw amodau o dan reolaeth y Gronfa.

Nid yw dyfarniadau grant y gwnaed penderfyniad ffurfiol arnynt gan y Gronfa nad ydynt yn bodloni diffiniad technegol rhwymedigaethau, naill ai oherwydd nad ydynt wedi'u cyfathrebu i'r derbynnydd, neu gan nad ydynt yn bodloni meini prawf llym mewn perthynas â naill ai amodau penodol neu fathau o ddyfarniadau (gweler isod), wedi'u cynnwys mewn gwariant yn y Datganiad Incwm Net Cynhwysfawr neu fel rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ond yn cael eu datgelu fel rhwymedigaethau amodol yn Nodyn 17.

### Dyfarniadau datblygu

Pan fydd y Gronfa'n cadw'r disgresiwn i wneud dyfarniadau dilynol yn dilyn cam datblygu a ariannwyd, nid yw'r dyfarniad dilynol posib yn cael ei drin fel rhwymedigaeth hyd nes bod y Gronfa wedi gwneud penderfyniad ffurfiol i symud ymlaen ag ef.

### Dyfarniadau ar sail perfformiad

Pan fydd talu dyfarniad cyfan neu ran ohono'n amodol ar amod perfformiad, nid yw'r rhan o'r dyfarniad sy'n destun yr amod yn cael ei drin fel rhwymedigaeth hyd nes bod yr amod yn cael ei fodloni.

### Dyfarniadau cam lluosog

Pan wneir dyfarniad sy'n daladwy dros gamau lluosog ac mae parhau â'r dyfarniad yn dibynnau ar ganlyniad adolygiadau ffurfiol gan y Gronfa, bydd camau diweddarach y dyfarniad yn cael eu trin fel rhwymedigaeth naill ai os mai natur yr adolygiad yw cadarnhau cynnydd, neu os mai canlyniad yr adolygiad yw bod y Gronfa'n parhau â'r dyfarniad.

### Dosbarthu rhwymedigaethau

Mae rhwymedigaethau grant ar ddyddiad y Datganiad sefyllfa ariannol wedi'u dosbarthu'n groniadau oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol.

### Grantiau sy'n cael eu had-dalu a'u hadennill

Mae amodau ein grant yn cynnwys grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd pan fydd y deiliad grant yn methu â chydymffurfio ag amodau a thelerau neu pan fydd gwariant gwirioneddol derbynnydd yn is na'r grant a dalwyd yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau.

Mae arian sy'n cael ei adennill yn cael ei gydnabod fel incwm ar ôl derbyn yr ad-daliad.

### Gwariant uniongyrchol ar raglenni

Rydym yn cofnodi 'gwariant uniongyrchol ar raglenni' fel y costau hynny a geir wrth gyflwyno gwasanaethau'n uniongyrchol i fuddiolwyr neu dderbynyddion grant o dan a36B Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. Er enghraifft, darparu strwythurau cefnogi ymgeiswyr a deiliaid grant a sicrhau ansawdd er budd uniongyrchol derbynyddion grant.

### Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu

Rydym yn cofnodi 'gwariant grantiau wedi darfod neu eu diddymu' pan fydd y deiliad grant wedi dewis dychwelyd arian grant nas defnyddiwyd i'r Gronfa neu pan fyddwn wedi dewis diddymu arian grant nas defnyddiwyd gan y deiliad grant. Ym mhob achos mae hyn yn gysylltiedig â symiau a gofnodwyd yn flaenorol fel rhwymedigaethau.

## 1.9 Treth

Codir treth gorfforaethol ar sail y gyfraith dreth sydd mewn grym ar ddyddiad y sefyllfa ariannol. Mae'r dreth hon ar log a dderbyniwyd ar falansau arian a ddelir mewn cyfrifon banc masnachol. Rydym yn dyrannu treth gorfforaeth mewn perthynas â llog a dderbynnir ar arian Asedau Segur fel gwariant ar Asedau Segur.

Rydym yn gofrestredig ar gyfer treth ar werth (TAW). Codir ac adferir TAW ar ein gweithgareddau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o weithgareddau busnes a ddisgrifir mewn deddfwriaeth TAW. Mae hyn yn cynnwys elfennau o'n gweithgareddau trydydd parti. Codir TAW anadferadwy ar wariant neu wedi'i gyfalafu yng nghost asedau sefydlog.

## 1.10 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon a ddelir ar alwad gyda banciau masnachol.

## 1.11 Darpariaethau

Mae'r Gronfa'n cydnabod darpariaeth pan fydd:

- rhwymedigaeth gyfreithiol o ganlyniad i benderfyniad yn y gorffennol
- Mae'n debygol y bydd angen adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth
- phan ellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

Ar hyn o bryd mae gennym ddarpariaethau ar gyfer costau sy'n ymwneud ag eiddo, diswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar.

## 1.12 Rheoli'r grant

### Mudiadau dirprwyol

Rydym wedi ymgymryd â chytundebau gyda'r bwriad i nifer o gyrff dirprwyedig weithredu fel mudiadau arweiniol wrth gyflwyno cynlluniau grant. Wrth wneud hyn rydym wedi dirprwyo'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau am grantiau statudol i fudiadau eraill. Mae arian a roddir ymlaen llaw i fudiadau dirprwyol at ddibenion talu ymrwymiadau grant yn cael ei gydnabod fel ymrwymiad grant ar y pwynt dyfarnu.

### Ymddiriedolaethau

Mae'r Gronfa wedi gwneud dyfarniadau i gwmnïau cyfyngedig trwy warant newydd sy'n gweithredu fel unig ymddiriedolwr mewn ymddiriedolaethau elusennol newydd. Cofnodir arian a ddyfernir i'r ymddiriedolaethau hyn fel rhwymedigaeth hyd nes ein bod yn gwneud taliadau i'r ymddiriedolaethau. Nid yw'r symiau a ddelir gan yr ymddiriedolaeth wedi'u dangos fel asedau.

### Cynlluniau ar y cyd

Os ydym wedi ymrwymo i gynllun ar y cyd, fel a ddiffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir ymrwymiadau grant a wneir trwy'r cynllun ar y cyd ar sail ein cyfran yn y cynllun. Cofnodir arian a anfonir ymlaen at y cynllun ar y cyd at ddiben talu ymrwymiadau grant fel ased cyfredol hyd nes i ni dderbyn cadarnhad bod y taliadau mewn perthynas â'r ymrwymiadau hynny wedi'u gwneud. Mae costau gweinyddu wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm Net Cynhwysfawr yn unol â'r swm a godir ar y Gronfa.

### 1.13 Asedau trydydd parti

Mae'r Gronfa'n geidwad rhai asedau penodol sy'n perthyn i drydydd partïon. Nid yw'r rhain wedi'u cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gennym unrhyw fuddiant uniongyrchol ynddynt. Dangosir y balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yn nodyn 23.

### 1.14 Offerynnau ariannol

Mae'r Gronfa wedi mabwysiadu Offerynnau Ariannol IFRS 9 a ddaeth i rym o flwyddyn ariannol 2018-19. Rydym wedi adolygu ein hofferynnau ariannol mewn perthynas â dosbarthu, mesur ac amhariad, gan nodi'r colledion credyd disgwyliedig lle bo'n berthnasol. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau yr ystyrir eu bod yn ariannol eu natur wedi'u hamlinellu yn nodyn 19. Nid ydym yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth.

### 1.15 Adrodd Cylchrannol

Yn unol ag IFRS 8 mae Bwrdd y Gronfa, fel 'Prif Gorff Gwneud Penderfyniadau Gweithredol', wedi pennu ein bod yn gweithredu mewn pum segment daearyddol materol - y Deyrnas Unedig, Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gennym ffynhonnell incwm sylweddol unigol gan y Loteri, ac mae'r fformat adrodd cylchrannol yn adlewyrchu'n strwythur rheoli ac adrodd mewnol. Gweithredir rhai rhaglenni ar draws y Deyrnas Unedig gyfan ac adroddir ar y rhain yn annibynnol i'r pedair gwlad.

### 1.16 Arian Asedau Segur

Mae'r Gronfa wedi asesu bod cyfarwyddiadau gwario'n creu rhwymedigaeth bosib. Felly, bydd symiau cyfeiriedig heb gytundebau wedi'u llofnodi yn cael eu datgelu fel rhwymedigaethau amodol, o ystyried y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau trwy ddrafftio a llofnodi cytundeb newydd gyda pharti arall rywbryd yn y dyfodol.

Mae symiau o dan gytundeb wedi'i lofnodi ond heb incwm gan Reclaim Fund Ltd eto ar gael i'w talu yn cael eu cydnabod fel darpariaethau, o ystyried bod y rhwymedigaeth wedi'i chreu drwy lofnodi'r cytundeb ond bod ansicrwydd ynghylch amseriad y taliad. Mae symiau o gytundebau sydd wedi llofnodi ac incwm o Reclaim Fund Ltd yn cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau ariannol o dan IFRS 9 ac IAS 37.

Mae trafodion asedau segur yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn ac maent yn amodol ar farn archwilio. Er eglurder, mae datganiadau ariannol ffurf fer sy'n ymwneud ag arian asedau segur yn unig wedi'u cynnwys yn nodyn 31.

### 1.17 Cronfa Community Organisations Cost of Living

Cyfrifwyd am arian Cronfa Community Organisation Cost of Living Llywodraeth y DU o dan yr un polisïau ag arian y Loteri

Genedlaethol, gyda'r symiau'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn ac yn destun barn archwilio. Er tryloywder ac eglurder, mae datganiadau ariannol ffurf fer sy'n ymwneud â'r rhaglen ariannu hon yn unig wedi'u cynnwys yn nodyn 28..

### 1.18 Cronfa Million Hours

Cyfrifwyd am arian Cronfa Million Hours o dan yr un polisïau ag arian y Loteri Genedlaethol, gyda'r symiau'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn ac yn destun barn archwilio. Er tryloywder ac eglurder, mae datganiadau ariannol ffurf fer sy'n ymwneud â'r rhaglen ariannu hon yn unig wedi'u cynnwys yn nodyn 29.

### 1.19 Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws

Cyfrifwyd am arian Cronfa Gymorth Cymunedol Coronafeirws (CCSF) Llywodraeth y DU o dan yr un polisïau ag arian y Loteri Genedlaethol, gyda'r symiau'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn ac yn destun barn archwilio. Er tryloywder ac eglurder, mae datganiadau ariannol ffurf fer sy'n ymwneud ag arian CCSF yn unig wedi'u cynnwys yn nodyn 30.

### 1.20 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Mae Contractau Yswiriant IFRS 17 wedi'i gyhoeddi a bydd yn cael ei gymhwyso o dan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) o flwyddyn ariannol 2025-26. Sefydlodd y safon hon egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant. Ar hyn o bryd mae'r Gronfa'n asesu effaith IFRS 17 ar ei datganiadau ariannol a bydd yn mabwysiadu'r safon yn unol â chanllawiau FReM.

Gwerthusiadau Asedau Heb eu Buddsoddi – Mae newidiadau i'r FReM, yn weithredol o 1 Ebrill 2025, wedi'u cyhoeddi ond nid ydynt yn weithredol eto ac nid ydynt wedi'u mabwysiadu'n gynnar gan y Gronfa. Mae'r Gronfa'n asesu effaith y newidiadau hyn ar ei datganiadau ariannol a bydd yn mabwysiadu'r polisi diwygiedig yn unol â chanllawiau FReM.

Bydd newidiadau i'r FReM yn gymwys o 1 Ebrill 2025 mewn perthynas â chyfrifyddu ar gyfer buddion cymdeithasol. Nid yw'r Gronfa wedi mabwysiadu'r newidiadau hyn yn gynnar, mae wrthi'n asesu'r effaith ar ei datganiadau ariannol a bydd yn mabwysiadu'r newidiadau diwygiedig yn unol â chanllawiau FReM.

## 1.21 Amcangyfrifon cyfrifyddu a barn

Mae paratoi datganiadau ariannol yn gofyn bod rheolwyr yn ffurfio barn, tybiaethau neu amcangyfrif sy'n effeithio ar y symiau asedau, rhwymedigaethau, incwm a threuliau a adroddir amdanynt.

Caiff amcangyfrifon a barn eu gwerthuso'n rheolaidd a'u diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod o'u hadolygu.

Mae'r polisïau cyfrifyddu'n disgrifio meysydd sy'n ymwneud â gradd uchaf o dechnegau ffurfio barn, tybiaethau neu amcangyfrif, megis nodyn 1.5 (Asedau anniriaethol), nodyn 1.8 (Gwariant ar raglenni) a nodyn 1.11 (Darpariaethau).

Y barnau mwyaf arwyddocaol yw:

- Gwariant ar raglenni - mae'r Gronfa'n cydnabod gwerth dyfarniadau sy'n destun amodau perfformiad fel rhwymedigaethau amodol yn hytrach na chroniadau grant. Mae'r farn yn seiliedig ar amodau a thelerau'r contractau dyfarnu.

Yr amcangyfrifon mwyaf arwyddocaol yw

- Darpariaethau – Rydym wedi amcangyfrif costau dadfeiliad mewn perthynas ag ailstrwythuro ein gofod swyddfa yn seiliedig ar wybodaeth gan ein Hadran Gyfreithiol sydd wrthi'n trafod gyda landlordiaid ar ffioedd setlo.
- Dosbarthu rhwymedigaethau grant

Rydym wedi defnyddio offeryn modelu taliadau grant i bennu elfen o'r rhaniad rhwng rhwymedigaethau grant tymor byr a hirdymor.

## 1.22 Incwm

Mae effaith cymhwysiad Refeniw o Gytundebau gyda Chwsmeriaid IFRS 15 wedi cael ei asesu, gydag adolygiad a dadansoddiad o bob cytundeb refeniw. Rydym yn dod i'r casgliad nad oes gennym unrhyw refeniw perthnasol o gontractau gyda chwsmeriaid. Lle mae gan y Gronfa gytundeb gyda thrydydd parti sy'n adran o'r llywodraeth ar gyfer gwasanaethau ariannu uniongyrchol neu ar gyfer partneriaeth cydariannu, mae'r cytundebau'n nodi neu'n awgrymu y dylid trin y refeniw fel grant llywodraeth. Felly, rydym yn parhau i gymhwyso Cyfrifo ar gyfer Grantiau Llywodraeth IAS 20 lle mae incwm a threuliau yn cyd-fynd yn ystod yr un cyfnod.

Mae incwm y Loteri Genedlaethol yn dderbyniadwy drwy statud, ac fel y cyfryw yn cael ei drin fel incwm o dan gontract fesul FReM.

## 2. Incwm

Isod mae dadansoddiad o incwm arall nad yw wedi'i nodi ar wahân yn y Datganiad Incwm Net Cynhwysfawr.

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrt h2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Llog banc a llog arall a dderbynnir** | | | |
| Llog banc derbyniadwy | | 484 | 631 |
| | | **484** | **631** |
| **Incwm arall** | | | |
| Gwerthu tir ar Benrhyn Greenwich | 6 | (68) | - |
| Incwm o gyflwyno arian nad yw'n arian y Loteri | | 668 | 1,459 |
| Incwm o gyflwyno arian y Loteri ar ran dosbarthwyr eraill | | 86 | 88 |
| Incwm rhent | | 103 | 118 |
| Mân incwm | | 491 | 562 |
| | | **1,280** | **2,227** |
| **Adennill grantiau gan ddeiliaid grant** | 1.8 | | |
| Adennill grantiau | | 2,813 | 4,034 |
| | | **2,813** | **4,034** |

## 3. Gwariant ar raglenni'r Loteri Genedlaethol

Mae IFRS 8 yn mynnu datgelu data ariannol fesul cylchran adroddadwy. Mae'r Gronfa'n rheoli ac yn adrodd am weithgareddau dyfarnu grantiau fesul cylchrannau daearyddol. Er hynny, nid yw costau gweithredu'n cael eu rheoli a'u hadrodd ar sail gylchrannol.

Mae'r tabl isod yn amlinellu gwariant grant, ar gyfer pob portffolio, a godir ar y Datganiad Incwm Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

| | DEYRNAS UNEDIG | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwariant ar grantiau | 85,210 | 541,928 | 62,906 | 43,116 | 34,917 | 768,077 |
| Llai gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | (34) | (3,857) | (126) | 20 | (183) | (4,180) |
| **Gwariant net ar grantiau a wnaed yn 2024-25** | **85,176** | **538,071** | **62,780** | **43,136** | **34,734** | **763,897** |
| Gwariant net ar grantiau a wnaed yn 2023-24 | 50,139 | 515,717 | 51,321 | 39,196 | 26,709 | 683,082 |

## 4. Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni

Costau yn ymwneud â gwariant er budd uniongyrchol derbynyddion grant a'u buddiolwyr a wnaed fel rhan o gontract yn hytrach na dyfarniad grant.

| | DEYRNAS UNEDIG | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol i dderbynyddion a buddiolwyr grant 2024-25** | 856 | 2,264 | - | 2 | 120 | 3,242 |
| Cefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol i dderbynyddion a buddiolwyr grant 2023-24 | **(2,791)** | **5,200** | **704** | **24** | **89** | **3,226** |

## 5. Costau gweithredu

| | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri £000 | Costau gweithredu a ailgodir £000 | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian asedau segur £000 |
|---|---|---|---|
| Tâl cydnabyddiaeth cyflogeion | 39,496 | 1,344 | 1,123 |
| Teithio a threuliau | | | |
| - Staff | 1,276 | 17 | 5 |
| - Bwrdd a Phwyllgor | 25 | - | - |
| Taliadau o dan lesi gweithredol tymor byr/gwerth isel: | | | |
| - Eiddo | 55 | - | - |
| - Arall | 7 | - | - |
| Costau llety eraill | 764 | - | - |
| Costau cyfathrebu | 1,039 | 3 | 3 |
| Cefnogaeth allanol ar gyfer rhaglenni grant | 1,342 | 66 | 17 |
| Gwerthuso rhaglenni | 171 | (6) | 37 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 1,241 | - | 1 |
| Ffioedd proffesiynol | 781 | - | 1 |
| Tâl archwilwyr ar gyfer gwaith archwilio | 165 | - | - |
| Costau isadeiledd TG | 2,837 | - | - |
| Costau eraill | 514 | 7 | - |
| Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | - | - |
| TAW | 1,821 | 12 | 10 |
| Eitemau anariannol | | | |
| - Dibrisio (ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio)) | 138 | - | - |
| - Amorteiddio asedau hawl i ddefnyddio | 885 | - | - |
| - Costau llog ar rwymedigaethau prydlesi | 153 | - | |
| | **52,710** | **1,443** | **1,197** |



There were no fees for any non-audit services with external auditors.

| | Costau gweithredu gweithredu ar gyfer arian Cronfa Cost of Living £000 | Costau gweithredu ar gyferv dosbarthu arian Cronfa Local Connections £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 Cyfanswm costau gweithredu £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 Cyfanswm costau gweithredu £000 |
|---|---|---|---|---|
| | 500 | 356 | 42,819 | 42,098 |
| | - | 2 | 1,300 | 1,198 |
| | - | - | 25 | 25 |
| | - | - | | |
| | - | - | 55 | 341 |
| | - | - | 7 | 69 |
| | - | - | 764 | 1,378 |
| | - | - | 1,045 | 1,002 |
| | - | - | 1,425 | 1,270 |
| | - | - | 202 | 208 |
| | - | - | 1,242 | 1,245 |
| | - | - | 782 | 355 |
| | - | - | 165 | 160 |
| | - | - | 2,837 | 3,758 |
| | - | - | 521 | 626 |
| | - | - | - | 45 |
| | - | 1 | 1,844 | 1,958 |
| | - | - | | |
| | - | - | 138 | 245 |
| | - | - | 885 | 1,456 |
| - | - | - | 153 | 174 |
| | **500** | **359** | **56,209** | **57,611** |

## 6. Dangosydd perfformiad ariannol

Ein dangosydd perfformiad ariannol yw'r gyfran o incwm y Loteri a wariwn ar ddosbarthu, wedi'i hasesu dros gyfnod o dair blynedd. O'r mesur hwn rydym yn hepgor costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri dros fudiadau eraill, isosod eiddo a gwariant anghymhwysol. Rydym hefyd yn eithrio costau unigol buddsoddi i gyflawni mesurau effeithlonrwydd yn y dyfodol. Mae TAW anadferadwy hefyd wedi'i eithrio o wariant cymwys.

Fel olynydd i Gomisiwn y Mileniwm, mae gan y Gronfa hawl i gyfran o'r elw o werthu tir ar Benrhyn Greenwich a wnaed gan Awdurdod Llundain Fawr, wedi i gostau penodol gael eu talu. Yn 2024-25, derbyniwyd £94,000, anfonebwyd £9,000 a hawliwyd £171,000 yn ôl gan Awdurdod Llundain Fwyaf oherwydd gordaliad yn 2021-22. Ni gronnwyd unrhyw incwm pellach yn 2024-25.

Ar y sail hon, roedd y gost o ddosbarthu ein cyfran o incwm y Loteri Genedlaethol yn 6.7% o incwm y Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn (2023-24: 6.8%). Wedi'i hasesu dros gyfnod treigl o dair blynedd, y gyfran oedd 6.7%.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri Genedlaethol (yn unol â Nodyn 5) | 52,710 | 51,843 | 49,899 |
| Llai incwm rhent (yn unol â Nodyn 2) | (103) | (118) | (187) |
| Llai mân incwm (yn unol â Nodyn 2) | (491) | (562) | (381) |
| Namyn TAW anadferadwy | (1,844) | (1,958) | (1,541) |
| **Cyfanswm gwariant cymwys** | **50,272** | **49,205** | **47,790** |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol (yn unol â Nodyn 13) | 717,280 | 689,346 | 707,237 |
| Incwm Buddsoddi (yn unol â Nodyn 13) | 34,495 | 33,588 | 14,192 |
| Gwerthu tir ar Benrhyn Greenwich (yn unol â Nodyn 2) | (68) | - | 2,055 |
| **Cyfanswm incwm cymwys** | **751,707** | **722,934** | **723,484** |
| **Canran** | **6.7%** | **6.8%** | **6.6%** |

### Safle treigl o dair blynedd

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 |
|---|---|
| | £000 |
| Cyfanswm gwariant cymwys | 147,267 |
| Cyfanswm incwm cymwys | 2,198,125 |
| **Canran** | 6.7% |

## 7. Costau staff

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Tâl a chyflogau | 29,977 | 30,253 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,236 | 3,131 |
| Costau pensiwn eraill | 8,123 | 7,473 |
| Costau ardoll brentisiaethau | 145 | 141 |
| Costau staff asiantaeth | 1,338 | 1,100 |
| | 42,819 | 42,098 |

## 8. Costau ailstrwythuro

Rydym yn adolygu'r ffordd yr ydym wedi'n strwythuro'n rheolaidd ac yn gwneud newidiadau i gyflwyno gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n addas i'r diben. Mae costau ailstrwythuro yn cynnwys taliadau terfynu a thrafodion eiddo.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taliadau terfynu | 2,705 | 1,404 |
| Rhesymoli eiddo | (95) | (210) |
| | 2,610 | 1,194 |

Yn ystod 2024-25, fe wnaethom ryddhau darpariaethau ar gyfer costau adfer ar gyfer ein swyddfeydd ym Manceinion a'r Drenewydd. Rydym wedi creu darpariaeth ar gyfer costau adfer ar gyfer ein swyddfa yng Nghaerwysg. Rydym wedi creu darpariaeth ar gyfer taliadau terfynu sy'n ymwneud â datblygu sefydliadol i gefnogi cyflawni ein strategaeth. Datgelir manylion pecynnau ymadael yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth.

## 9. Treth

Mae'r Gronfa'n talu treth gorfforaethol ar log banc ac unrhyw log arall a dderbynnir. Mae cost treth net o £161,925 ar gyfer y flwyddyn (2023-24: £120,000). Mae gan asedau segur gost treth net am y flwyddyn o £2,170,411 (2023-24: £1,415,000)

Nid yw incwm buddsoddi a gynhyrchir ar falansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn destun treth gorfforaethol y Deyrnas Unedig.

## 10. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau prydlesol | TG | Offer, dodrefn a ffitiadau swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Pris | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 1.827 | 954 | 325 | 3,106 |
| Ychwanegiadau | 101 | - | - | 101 |
| Gwastraff | (4) | (368) | - | (372) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **1,924** | **586** | **325** | **2,835** |
| Dibrisio | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 1,706 | 792 | 325 | 2,823 |
| Tâl am y flwyddyn | 59 | 79 | - | 138 |
| Gwastraff | (4) | (368) | - | (372) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **1,761** | **503** | **325** | **2,589** |
| Llyfrwerth net | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **163** | **83** | **-** | **246** |
| Pris | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 3,412 | 1,359 | 681 | 5,452 |
| Ychwanegiadau | - | 187 | - | 187 |
| Gwastraff | (1,585) | (592) | (356) | (2,533) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **1,827** | **954** | **325** | **3,106** |
| Dibrisio | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 3,107 | 1,297 | 681 | 5,085 |
| Tâl am y flwyddyn | 139 | 87 | - | 226 |
| Gwastraff | (1,540) | (592) | (356) | (2,488) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **1,706** | **792** | **325** | **2,823** |
| Llyfrwerth net | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **121** | **162** | **-** | **283** |

Mae'r holl welliannau prydlesol ar eiddo prydles fer gyda phrydles sy'n dod i ben mewn llai nag 20 mlynedd.

## 11. Asedau anniriaethol

| | System rheoli grantiau | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Pris | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 427 | 427 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwastraff | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **427** | **427** |
| Amorteiddio | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 427 | 427 |
| Tâl am y flwyddyn | | |
| Gwastraff | - | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **427** | **427** |
| Llyfrwerth net | | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **-** | **-** |
| Pris | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 427 | 427 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwastraff | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **427** | **427** |
| Amorteiddio | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 408 | 408 |
| Tâl am y flwyddyn | 19 | 19 |
| Gwastraff | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **427** | **427** |
| Llyfrwerth net | | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **-** | **-** |

## 12. Masnach ac arian arall a dderbynnir

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Yn cael ei ddal gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer talu rhwymedigaethau grantiau | 100 | - |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 18 | 42 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,176 | 2,730 |
| Arian cyfatebol Ewropeaidd | 22 | 1,469 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 503 | 471 |
| | **3,819** | **4,712** |

## 13. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 530,214 | 489,080 |
| Enillion gan y Loteri Genedlaethol | 717,280 | 689,346 |
| Incwm buddsoddi o NLDF | 34,495 | 33,588 |
| Arian a dynnwyd i lawr o NLDF | (730,000) | (681,800) |
| Cynnydd net yn y balans | **21,775** | **41,134** |
| **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth** | **551,989** | **530,214** |

Mae'r Gronfa'n derbyn cyfran o'r arian a delir gan weithredwr y Loteri i NLDF ar ôl didyniad ar gyfer costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth weithredu ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, costau'r rheoleiddiwr (y Comisiwn Hapchwarae), costau'r rheolwr buddsoddi (y Comisiynwyr Dyled Cenedlaethol) a chostau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.

## 14. Masnach ac arian arall a delir

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| TAW | 23 | 32 |
| Treth a nawdd cymdeithasol arall | 880 | 877 |
| Masnach daladwy | 493 | 35 |
| Yn ddyledus i gynlluniau partner/mudiadau dirprwyol ar gyfer talu rhwymedigaethau grant | 664 | 2,299 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 2,074 | 2,248 |
| Symiau taladwy eraill | 2,545 | 2,215 |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 571,655 | 579,748 |
| | **578,334** | **587,454** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 526,308 | 473,129 |
| | **526,308** | **473,129** |

### Rhwymedigaethau grant

Mae rhwymedigaethau grant ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol wedi'u dosbarthu'n ddarpariaethau neu'n rwymedigaethau amodol os byddant yn bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, neu, os na fyddant, fel croniadau.

## 15. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2024 | 155 | 731 | 503 | 1,389 |
| Darpariaethau newydd a grëwyd | 60 | - | 813 | 873 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | - | (731) | (503) | (1,234) |
| Darpariaethau a ryddhawyd | (155) | - | - | (155) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **60** | **-** | **813** | **873** |

### Dadfeiliadau

Roedd gennym ddarpariaethau ar gyfer dadfeiliad yn 2023-24 mewn perthynas â'n swyddfeydd ym Manceinion a'r Drenewydd. Yn ystod 2024-25, rhyddhawyd y darpariaethau hyn ar ôl derbyn cadarnhad nad oedd unrhyw gostau adfer yn ddyledus. Mae darpariaeth newydd wedi'i chreu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â'n swyddfa yng Nghaerwysg.

### Ailstrwythuro: ymddeol yn gynnar, diswyddo a chefnogaeth

O ganlyniad i ailstrwythuro, mae rhai swyddi wedi'u nodi fel rhai nad oes eu hangen mwyach. O ganlyniad i hyn, mae staff wedi gadael neu wedi ymddeol yn gynnar.

Pan fydd staff cymwys yn ymddeol yn gynnar, mae'r Gronfa o dan rwymedigaeth gontract i fodloni cyfraniadau pensiwn penodol hyd nes y bydd y staff hyn yn cyrraedd oedran ymddeol statudol.

Gwneir taliadau diswyddo'n unol â threfniadau a thelerau cytundebol a amlinellir yn nhrefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

## 16. Croniadau grant

| | Ar 31 Mawrth 2025 £000 | Ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| **Symud croniadau grant** | | |
| Rhwymedigaethau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | 1,052,877 | 1,011,994 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 794,613 | 908,454 |
| Rhwymedigaethau wedi darfod a'u diddymu | (4,288) | (17,715) |
| Rhwymedigaethau grant a fodlonwyd | (745,239) | (849,856) |
| **Croniad a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth** | **1,097,963** | **1,052,877** |

| | £000 | £000 |
|---|---|---|
| **Dosbarthiad croniadau grant ar ddiwedd y flwyddyn** | | |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 571,655 | 579,748 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 526,308 | 473,129 |
| **Cyfanswm croniadau grant** | **1,097,963** | **1,052,877** |
| **Croniadau grant sy'n heneiddio** | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 571,655 | 579,748 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | 308,117 | 281,420 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | 161,370 | 142,574 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na thair blynedd ond llai na phedair blynedd | 44,961 | 38,885 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na phedair blynedd ond llai na phum mlynedd | 11,855 | 9,568 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd | 5 | 682 |
| | **1,097,963** | **1,052,877** |

## 17. Rhwymedigaethau Amodol

Datgelir grantiau fel rhwymedigaethau amodol os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu trin fel rhwymedigaethau.

| Dyfarniadau grant a wneir gan y Gronfa nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu trin fel rhwymedigaethau | **Ar 31 Mawrth 2025** | **Ar 31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| | 12,379 | 13,537 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau grant amodol** | **12,379** | **13,537** |

Rydym wedi cydnabod rhwymedigaeth wrth gefn o £7.9 miliwn (2023-24: £8.5 miliwn) ar gyfer gweithgareddau a ariennir gan y Loteri nad ydynt ar hyn o bryd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau gan nad yw'r penderfyniad wedi'i gyfleu i'r ymgeisydd eto.

Yn ogystal, o fewn asedau segur, rydym wedi cydnabod rhwymedigaeth wrth gefn o £4.5 miliwn (2023-24: £5.0 miliwn) ar 31 Mawrth 2025 yn ymwneud â rhwymedigaeth bosibl i dalu hyd at £500,000 y flwyddyn i The Oversight Trust (OST) - Assets for the Common Good (Big Society Trust gynt) am eu costau gweinyddol. Mae'r rhwymedigaeth bosibl hon yn unol â gweithred gytundeb rhwng OST a'r Gronfa a wnaed ar 10 Rhagfyr 2019, sy'n ddilys am 15 mlynedd o'r dyddiad hwnnw. Mae'r rhwymedigaeth wrth gefn rydym yn ei chydnabod ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer y 9 mlynedd sy'n weddill.

## 18. Cynlluniau ar y cyd

### Parks for People

Gweinyddir y cynllun hwn gan y National Heritage Memorial Fund ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb. Rydym wedi cytuno i gyfrannu hyd at £150.3 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £386 miliwn. Wedi'u cynnwys o fewn rhwymedigaethau grant nid oes unrhyw ymrwymiadau grant newydd (2023-24: dim) a dim rhwymedigaethau wrth gefn, sy'n cynrychioli ein cyfraniad at gynllun ar y cyd Parks for People. Mae ffigur y credydwyr yn cynnwys £0.7 miliwn (2023-24: £2.3 miliwn) sy'n ddyledus i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn perthynas â'n cyfraniad i daliadau a wnaed ganddynt i'n derbynyddion grant.

## 19. Risgiau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mabwysiadodd y Gronfa Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9 o flwyddyn ariannol 2018/19 gan ddefnyddio'r ymagwedd gronnol. Gan nad oes gan y Gronfa y pŵer i fenthyg, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer fwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag sy'n arferol ar gyfer y cwmnïau a restrir, i'r graddau y mae'r safon yn berthnasol iddynt. Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael; eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r mudiad.

Mae hyn yn golygu bod y Gronfa yn agored i ychydig iawn o risgiau uniongyrchol o ran hylifedd, y farchnad neu gredyd.

## Risgiau hylifedd

Bodlonir gofynion arian parod ar gyfer gwariant Loteri trwy dynnu i lawr yn erbyn rhagamcaniadau angen wythnosol o'r balansau a ddelir ar ran y Gronfa gan NLDF. Ym mis Mawrth 2024, balans y gronfa oedd £530 miliwn. Roedd hyn wedi cynyddu i £552 miliwn erbyn 31 Mawrth 2025, a bryd hynny roedd £995 miliwn o ymrwymiadau grant i'w talu eto. Wrth gyllidebu ar gyfer gwariant cyfredol, mae'r Gronfa'n cydbwyso all-lif y taliadau arian parod yn erbyn rhwymedigaethau grant ynghyd â blaen-rhagamcaniadau o incwm y Loteri wedi'u darparu gan DCMS.

Mae'r Gronfa'n cynnal isafswm trothwy wrth gefn NLDF er mwyn bodloni ymrwymiadau yn y dyfodol.

Yn 2024-25, deilliodd £752 miliwn (82.3%) o incwm y Gronfa o'r Loteri Genedlaethol, gan gynnwys incwm o £34 miliwn a ddeilliodd o enillion buddsoddi'r balans a ddelir gyda'r NLDF. Roedd incwm o arian asedau segur yn £150 miliwn (16.4%). Yr incwm sy'n weddill yw Incwm Cronfa Miliwn Hours (£7 miliwn) a swm bach o incwm adfer grantiau, llog banc a mân incwm (£5 miliwn).

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025<br>£000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024<br>£000 |
|---|---|---|
| **Asedau hylifol** | | |
| Gwerth marchnad buddsoddiadau NLDF | 551,989 | 530,214 |
| Arian parod | 312,882 | 231,961 |
| **Cyfanswm** | **864,871** | **762,175** |

## Risgiau marchnad a chyfraddau llog

Mae asedau ariannol y Gronfa Loteri Fawr yn cael eu buddsoddi yn NLDF, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau isel eu risg megis bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian hwn. Y Comisiynwyr ar gyfer Lleihau'r Ddyled Genedlaethol (CRND) sy'n gyfrifol am fuddsoddi a rheoli'r cronfeydd hyn. Ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, £552 miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau yn NLDF ar y farchnad. Ar gyfartaledd enillodd arian NLDF 4.95% yn ystod y flwyddyn. Delir y balansau arian sy'n cael ei dynnu i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i dalu am ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol â chyfradd llog o 2.45% yn ystod y flwyddyn. Roedd y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £313 miliwn. Mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa'n agored i risgiau cyfraddau llog sylweddol.

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - arian y Loteri | 11,487 | 49,765 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - arian asedau segur | 300,382 | 181,125 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf – arian Cronfa Community Organisations Cost of Living | 7 | 520 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - arian CCSF | - | 551 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - arian Cronfa Million Hours | 1,006 | - |
| Sterling ar gymysgedd o gyfraddau penodol - NLDF | 551,989 | 530,214 |
| | **864,871** | **762,175** |

## Risgiau credyd

Mae arian derbyniadwy y Gronfa'n cynnwys balansau rhynglywodraethol Mae'r balansau rhynglywodraethol yn bennaf gyda chyd-ddosbarthwyr y Loteri ac yr oeddent oll wedi'u had-dalu neu eu cytuno erbyn cyfnod llofnodi'r cyfrifon.

## Risgiau Arian Tramor

Nid oes gan y Gronfa unrhyw asedau nad sy'n sterling ac nid yw'n agored at unrhyw risgiau yn ymwneud â chyfnewidfeydd tramor.

## Asedau ariannol fesul categori

| **Asedau yn ôl y Datganiad sefyllfa ariannol** | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Asedau anghyfredol | 3,425 | 4,320 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 551,989 | 530,214 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - arian y Loteri | 11,487 | 49,765 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - arian asedau segur | 300,382 | 181,125 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod – arian Cronfa Community Organisations Cost of Living | 7 | 520 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - arian CCSF | - | 551 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - arian Cronfa Million Hours | 1,006 | - |
| | **868,296** | **766,495** |

## Prisiad Teg

Mae'r Bwrdd yn disgwyl i'r llyfrwerth gyfateb i'r gwerth teg ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol. Ar y sail bod:

- Yr holl adneuon arian parod mewn banciau masnachol yn y DU.

Er ein bod yn datgelu gwerth £526 miliwn o ymrwymiadau grant nad ydynt yn ddyledus i gael eu talu tan ar ôl un flwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r Gronfa o dan rwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf. Mae amodau a thelerau'r grant hefyd yn darparu am stopio taliadau pa bydd arian annigonol ar gael i fodloni'r gofynion.

Mae'r holl eitemau taladwy yn ddyledus o fewn telerau contract arferol, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng llyfrwerth a gwerth teg.

## Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

| **Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad Sefyllfa Ariannol** | **2024-25** | **2023-24** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Mewn llai na blwyddyn | 578,334 | 587,454 |
| Mewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy | 308,117 | 281,420 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | 218,186 | 191,027 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | 5 | 682 |
| | **1,104,642** | **1,060,583** |

Mae'r Datganiad sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigur uchod wedi'i wahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn ac mewn mwy na blwyddyn. Mae'r rhaniad hwnnw'n seiliedig ar brofiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan grantïon gan nad yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys y cyfryw raniad.

# 20. Prydlesi

## Asedau hawl i ddefnyddio

| | Ar 31 Mawrth 2025 £000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 17,058 |
| Ychwanegiadau | 27 |
| Ailbrisiadau | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **17,085** |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 13,021 |
| Tâl am y flwyddyn | 885 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **13,906** |
| **Llyfrwerth net** | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **3,179** |

| | At 31 March 2024 £000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 13,533 |
| Ychwanegiadau | 3,525 |
| Ailbrisiadau | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **17,058** |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 11,565 |
| Tâl am y flwyddyn | 1,456 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **13,021** |
| **Llyfrwerth net** | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **4,037** |

Prydlesi eiddo yw'r unig ased hawl i ddefnyddio sydd gan y Gronfa.

Mae ychwanegiadau at asedau hawl-i-ddefnyddio yn ystod 2024-25 oherwydd prydles newydd ar gyfer ein swyddfa yn Y Drenewydd.

## Atebolrwydd prydlesi

| | Ar 31 Mawrth 2025 £000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2024 | (4,147) |
| Ychwanegiadau | (27) |
| Cost ariannol | (153) |
| Rhent | 925 |
| Ailbrisiadau | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **(3,402)** |

| | Ar 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2023 | (1,706) |
| Ychwanegiadau | (3,525) |
| Cost ariannol | (174) |
| Rhent | 1,258 |
| Ailbrisiadau | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **(4,147)** |

## Atebolrwydd prydlesi sy'n aeddfedu

| | Ar 31 Mawrth 2025 £000 |
|---|---|
| Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn | (723) |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn a ddim yn hwyrach na phum mlynedd | (2,616) |
| Hwyrach na phum mlynedd | (63) |
| | **(3,402)** |

**Prydleswyr**

| | Ar 31 Mawrth 2025 £000 |
|---|---|
| Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn | 37 |
| Hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na phum mlynedd | 101 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - |
| | **138** |

## 21. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni.

| | Ar 31 Mawrth 2025 | Ar 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y grantiau a ddilëwyd | 1,190,864 | 1,544,763 |
| Nifer y dyfarniadau a ddilëwyd | 137 | 161 |
| Nifer y dyfarniadau a ddilëwyd uwchben £100,000 | - | - |

Nid oedd unrhyw golledion nad ydynt yn gysylltiedig â grantiau yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2025 (2023-24: dim). Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i fudiad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant
- Cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2025, ni wnaed unrhyw daliadau arbennig mewn perthynas â thrafodion grant (2023-24: dim).

## 22. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae'r Gronfa yn gorff cyhoeddus anadrannol. Ei hadran noddi yw DCMS. Gan hynny, mae DCMS wedi cael ei drin fel parti cysylltiedig trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal trafodion materol amrywiol gyda DCMS a chyrff eraill yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Mae trafodion gyda DCMS yn adlewyrchu incwm a dderbyniwyd drwy Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a secondio staff i mewn. Mae DCMS hefyd wedi rhoi contract i'r Gronfa i reoli Cronfeydd Community Organisations Cost of Living a Million Hours.

Mae trafodion gyda dosbarthwyr eraill y Loteri'n cynnwys incwm a dderbyniwyd ar gyfer rheoli dyfarniadau a darparu gwasanaethau proffesiynol.

Mae taliadau'n cael eu gwneud i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer eu gwasanaethau rhedeg rhaglenni grant.

At hynny, mae gennym nifer o drafodion materol gydag adrannau a chyrff Llywodraeth sy'n ystyried adrannau llywodraeth eraill fel eu hadrannau noddi hwy:

- Cyllid a Thollau EF mewn perthynas â thrafodion Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol.
- Mae'r Adran Tai, Ffyniant Bro a Chymunedau (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gynt) wedi rhoi contract i'r Gronfa i reoli Cronfa Cymunedau'r Arfordir ar gyfer portffolio Cymru.
- Mae'r Swyddfa Cymdeithas Sifil wedi rhoi contract i'r Gronfa i reoli'r Gronfa Cyfleoedd Bywyd a Chronfa #iwill.

Mae Cronfa #iwill yn rhaglen ariannu ar y cyd lle mae'r Gronfa'n cyfrannu ei hadnoddau arian loteri a hefyd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau dyfarnu grantiau.

## Aelodau Bwrdd a Phwyllgorau

Mae'r Gronfa'n glynu wrth god ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau'n cadw cofrestrau buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a wneir i'r Gronfa a buddiannau masnachol lle mae gan fudiadau berthynas â ni neu lle gallai fod ganddynt berthynas â ni.

Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor a fyddai'n cael eu hystyried yn rhesymol fel rhai sy'n arwain at wrthdaro buddiannau, yn bennaf ynghylch grantiau i fudiadau sy'n gwneud cais am grant, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod datgeliad yn cael ei wneud a bod y Bwrdd neu'r aelod pwyllgor yn tynnu'n ôl ar gyfer y hyd unrhyw drafodaeth ar yr eitem berthnasol. Mae gofyn hefyd bod cydweithwyr ar draws y Gronfa'n datgelu unrhyw fuddiannau perthnasol mewn mudiadau rydym yn eu hariannu neu a dderbyniwn geisiadau ganddynt.

Mae ein gweithdrefnau'n sicrhau hefyd nad yw swyddogion grant yn ymwneud â phrosesu ceisiadau y byddai ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau Bwrdd a Phwyllgorau wedi datgan buddiannau mewn cyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gan y Gronfa fuddiannau busnes â nhw. Mae buddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Bwrdd ar gael ar wefan Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – www.tnlcommunityfund.org.uk.

Datgelir aelod y Bwrdd neu'r pwyllgor, y mudiad a natur y berthynas ar wefan y Gronfa. Nid yw'r rhain yn drafodion cyrff cysylltiedig y mae'r gofynion cydnabod yn eu gwneud yn ofynnol yn unol ag IAS 24. Mae iawndal i holl aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau wedi'i nodi yn yr Adroddiad Tâl cydnabyddiaeth.

## 23. Asedau trydydd parti

Mae'r asedau hyn yn cynrychioli balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yr ydym yn rheoli rhaglenni grant ar eu rhan, Fforwm Cyllidwyr Cymru ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, i wneud taliadau a brosesir gan y Gronfa o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Mae gwahaniaeth amseru symiau mewn perthynas â'r balansau hyn yn gynwysedig yn y symiau sy'n ddyledus neu'n daladwy yn y datganiad sefyllfa ariannol fel bo'n briodol.

Ar 31 Mawrth 2025, cadwyd y balansau banc a ganlyn ar ran trydydd partïon:

| | 31/03/2024 | Mewnlifoedd | All-lifoedd | 31/03/2025 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| DCMS: Life Chances Fund a Cronfa #iwill | 1,237 | 8,187 | 8,766 | 658 |
| Creative Scotland, Arian i Bawb Yr Alban | (6) | 505 | 496 | 3 |
| Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol | (8) | 7,578 | 7,108 | 462 |
| Sport Scotland, Arian i Bawb Yr Alban | (148) | 501 | 543 | (190) |
| Llywodraeth Yr Alban, Scottish Land Fund, Delivering Financial Inclusion | 8,633 | 6,733 | 7,523 | 7,843 |
| Yr Adran Tai, Ffyniant Bro a Chymunedau, Cronfa Cymunedau'r Arfordir | 860 | 24 | 30 | 854 |
| Cyllid Ewropeaidd - Swyddfa'r Cabinet | 59 | 460 | 519 | - |
| Fforwm Cyllidwyr Cymru | - | 4 | - | 4 |
| **Cyfansymiau** | **10,627** | **23,992** | **24,985** | **9,634** |

## 24. Menter ar y Cyd - Uned Hyrwyddo’r Loteri Genedlaethol

Mae Uned Hyrwyddo’r Loteri Genedlaethol (NLPU) yn fenter ar y cyd rhwng gweithredwr y Loteri, y dosbarthwyr Loteri a DCMS. Sefydlwyd NLPU i gynyddu ymwybyddiaeth gadarnhaol a chefnogaeth y cyhoedd o ddosbarthu arian Loteri ar draws y Deyrnas Unedig, gan gyfrannu at iechyd cyffredinol y Loteri Genedlaethol a hyrwyddo teyrngarwch a chyfranogiad. Ariennir traean o NLPU gan weithredwr y Loteri a dau draean yn uniongyrchol gan NLDF. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2024-25 oedd £5 miliwn (2023-24: £3.3 miliwn). Mae’n atebol i Fwrdd Rheoli sy’n cynnwys cynrychiolwyr tri budd-ddeiliad allweddol: gweithredwr y Loteri, y dosbarthwyr Loteri a DCMS, gyda’r Comisiwn Hapchwarae’n bresennol fel arsylwr.

Nid yw cyfran y fenter ar y cyd sy’n ymwneud â’r Gronfa wedi’i chyfuno o fewn y cyfrifon blynyddol o ystyried ei hanfateroldeb.

Mae mwy o wybodaeth a chyfrifon NLPU ar gael yn www.achosiondayloteri.org.uk

## 25. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2025, nid oedd gennym unrhyw ymrwymiadau cyfalaf (2023-24: £0.0 miliwn).

## 26. Asedau amodol

Mae hawl gan Ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol dderbyn cyfran o enillion o werthu tir ar Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn gyfnewid am gyfrannu £675m ychwanegol miliwn at ariannu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain. Mae’r trefniadau wedi’u disgrifio mewn cytundeb cyfreithiol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Awdurdod Llundain Fawr dyddiedig 29 Mawrth 2012 sy’n disgrifio dosbarthiad yr arian rhwng Awdurdod Llundain Fawr a’r dosbarthwyr loteri (trwy’r adran graidd). Disgwyliwn y bydd y GLA yn cyfathrebu’n uniongyrchol â Chyrff Dosbarthu’r Loteri ar ragolygon o dderbyniadau tir sy’n ddyledus i’r Loteri Genedlaethol a’r amseriad ar gyfer gwneud taliadau o’r fath.

Fel y corff olynol, gan gymryd yr eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy’n weddill gan Gomisiwn y Mileniwm pan gafodd ei ddiddymu yn 2006, mae gan y Gronfa hawl i gyfran o’r enillion o werthu tir ar Benrhyn Greenwich a wnaed gan Awdurdod Llundain Fwyaf unwaith y bydd costau penodol wedi cael eu talu. Rhagwelir y bydd taliadau o £44.8 miliwn (2023-24: £50.3 miliwn) yn cael eu derbyn rhwng 2016 a 2041, gyda £10.4 miliwn eisoes wedi cael ei derbyn erbyn diwedd 2024-25. Nid oes unrhyw incwm ychwanegol wedi’i gronni ar gyfer 2024-25.

O dan ddarpariaethau Deddf Asedau Segur 2008 i 2022, gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o gyfrifon segur i Reclaim Fund Ltd (RFL), endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl. Mae RFL yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion yr arian cyfrifon segur i'r Gronfa Loteri Fawr.

Mae RFL yn cyfrifo'r rhwymedigaeth sy'n ddyledus i'r Gronfa ac yn cydnabod hyn fel credydwr, sy'n cyfateb i ddyledwr ac incwm cysylltiedig y mae'r Gronfa'n rhoi cyfrif amdano. Yn ogystal, mae RFL yn nodi swm dros dro o incwm yn y dyfodol y gellir ei drosglwyddo i'r Gronfa. Mae'r Gronfa bellach yn cydnabod hwn fel ased wrth gefn yn unol ag IAS 37: Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol. Mae RFL wedi nodi bod y gwerth hwn yn debygol o fod rhwng £139 miliwn a £145 miliwn ar gyfer 2025-26 (2024-25: £143.4 miliwn).

## 27. Adolygiad ar ôl y fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen a hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon sy'n gofyn am addasiad i'r datganiadau ariannol. Dehonglir dyddiad awdurdodi cyhoeddi'r cyfrifon gan y Swyddog Cyfrifyddu fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 28. Cronfa Community Organisations Cost of Living

Cytunwyd ar y rhaglen hon yn 2023-24, gyda dyddiad gorffen o 30 Mehefin 2024. Cyfanswm cost y rhaglen yw £75.1 miliwn, y bydd DCMS yn ei ddarparu drwy gytundeb grant. Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y bydd y Gronfa yn gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant. Er bod cyfnod gweithredol y rhaglen hon wedi dod i ben, rydym yn parhau i adrodd am fân ad-daliadau/addasiadau cyn cysoni'n derfynol.

## Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DCMS | 500 | 74,216 |
| Llog | 19 | 117 |
| Adennill grantiau | 342 | |
| **Cyfanswm incwm** | **861** | **74,333** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | | 70,709 |
| Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | (20) | (192) |
| | **(20)** | **70,517** |
| Ad-dalwyd i DCMS | **845** | **-** |
| Costau gweithredu | 500 | 3,316 |
| Treth gorfforaethol | 34 | - |
| **Cyfanswm gwariant** | **1,359** | **73,833** |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm net cynhwysfawr** | **(498)** | **500** |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2024 | 500 | - |
| Cyfanswm incwm net cynhwysfawr | (498) | 500 |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **2** | **500** |

## Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 7 | 520 |
| **Cyfanswm asedau** | **7** | **520** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Rhwymedigaethau grant | (5) | (20) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | (5) | (20) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **2** | **500** |

## Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2025, rydym wedi dileu colledion o £13,510, gan gynrychioli dau ddyfarniad. (2023-24 dim). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000 (2023/24 dim).

## 29. Cronfa Million Hours

Cytunwyd ar y rhaglen hon yn 2023-24 gyda dyddiad gorffen o 30 Medi 2026. Cyfanswm cost y rhaglen yw £22 miliwn, a bydd DCMS yn cyfrannu £11 miliwn ohono trwy gytundeb grant gyda'r Gronfa. Bydd y £11 miliwn sy'n weddill yn cael ei gyfrannu gan y Gronfa. Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y bydd y Gronfa yn gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant.

### Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DCMS | 6,840 | 3,938 |
| Llog | - | 23 |
| Adennill grantiau | 1 | - |
| **Cyfanswm incwm** | **6,841** | **3,961** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | 150 | 10,091 |
| Costau gweithredu | 359 | 177 |
| Treth gorfforaethol | 6 | - |
| **Cyfanswm gwariant** | **515** | **10,268** |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr net** | **6,326** | **(6,307)** |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2024 | (6,307) | - |
| Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr net | 6,326 | (6,307) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **19** | **(6,307)** |

### Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 1,006 | - |
| Symiau eraill i'w derbyn | 1,811 | |
| **Cyfanswm asedaus** | **2,817** | **-** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Rhwymedigaethau grant | 2,798 | (6,307) |
| Symiau taladwy eraill | - | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **2,798** | **(6,307)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **19** | **(6,307)** |

### Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2025, ni fu unrhyw ddileadau (2023-24 dim). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000.

## 30. Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws

Yn 2020-21, derbyniodd y Gronfa £200 miliwn ar ffurf grant gan y Trysorlys ar gyfer rhaglen Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws, i'w dosbarthu i elusennau a mudiadau cymunedol yn Lloegr i'w galluogi i ateb y gofynion a osodir arnynt gan bandemig COVID-19. Roedd rhaid cwblhau'r rhaglen weithgarwch erbyn diwedd mis Medi 2020 gyda'r disgwyliad y bydd y mudiadau derbyn yn gwario'r arian o fewn chwe mis o'i derbyn. Llofnodwyd y cytundeb grant ar 22 Mai 2020 gan DCMS a'r Gronfa. Mae'r cysoniad terfynol ar gyfer y rhaglen hon bellach wedi'i gwblhau.

## Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Llog | - | 12 |
| Ad-daliadau | - | 6 |
| **Cyfanswm incwm** | **-** | **18** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | - | - |
| Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | - | 219 |
| | | 219 |
| Ad-dalwyd i DCMS | **764** | **-** |
| Costau gweithredu | - | (213) |
| **Cyfanswm gwariant** | **764** | **6** |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm net cynhwysfawr** | **(764)** | **126** |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2024 | 764 | 752 |
| Cyfanswm (gwariant)/ incwm net cynhwysfawr | (764) | 12 |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **0** | **764** |

### Datganiad sefyllfa ariannol

| | Year ended 31 March 2025 £000 | Year ended 31 March 2024 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | - | 551 |
| Symiau eraill i'w derbyn | - | 213 |
| **Cyfanswm asedau** | **-** | **764** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a delir | - | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **-** | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **-** | **764** |

### Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2025, rydym wedi dileu colledion o £120,736, gan gynrychioli 15 o ddyfarniadau (2023-24: £321,410 gan gynrychioli 35 o ddyfarniadau). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000 (2023-24: dim).

## 31. Asedau Segur

O dan ddarpariaethau Deddfau Asedau Segur 2008 i 2022 gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o asedau segur i RFL, endid dielw sydd wedi'i awdurdodi i weithredu fel y gronfa adennill.

Mae RFL yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion yr arian cyfrifon segur i'r Gronfa. Mae'r Gronfa'n dosbarthu'r arian hwnnw yn unol â'r Ddeddf a chyfarwyddiadau a gyhoeddir iddi gan Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol â'i wariant yn Lloegr a gan y gweinyddiaethau datganoledig o ran gwariant yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae arian yn cael ei ddosrannu ar draws y DU yn unol ag offeryn statudol a gymeradwyir gan y Senedd.

Didynnir y costau a delir gan y Gronfa a'r Gweinidog mewn perthynas â gweithredu'r cynllun yn gyffredinol cyn eu dyrannu rhwng y pedair gwlad.

Didynnir y costau a gafwyd gan y Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'r gwledydd unigol o'r arian a ddyrennir.

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Asedau Segur newydd 2022 ym mis Chwefror 2022. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi pŵer i ehangu cwmpas y cynllun Asedau Segur ymhellach i dderbyn y trosglwyddiadau o asedau segur ychwanegol ac ehangu dibenion cymdeithasol ac amgylcheddol defnyddio'r arian. Bydd y Gronfa yn parhau i weithio'n agos gyda DCMS ac RFL wrth i'r gweithgaredd hwn ddatblygu.

## 31a. Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy o Reclaim Fund Ltd | 143,407 | 90,374 |
| Llog | 6,894 | 7,450 |
| Adennill grantiau | 121 | 68 |
| **Cyfanswm incwm** | **150,422** | **97,892** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau i ddosbarthwyr dynodedig | 430 | 111,780 |
| Gwariant ar grantiau | 25,956 | 15,290 |
| Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | (89) | (58) |
| | **26,297** | **127,012** |
| Costau gweithredu | 1,197 | 830 |
| **Cyfanswm gwariant** | **27,494** | **127,842** |
| **Gwarged/(gwariant) cyn treth** | **122,928** | **(29,950)** |
| Treth | (2,170) | (1,748) |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr net** | **120,758** | **(31,698)** |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2024 | 76,886 | 108,584 |
| Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr net | 120,758 | (31,698) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **197,644** | **76,886** |

## 31b. Datganiad sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 300,382 | 181,125 |
| **Cyfanswm asedau** | **300,382** | **181,125** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a delir | (2,166) | (1,682) |
| Ymrwymiadau grant i ddosbarthwyr penodol | (67,447) | (79,477) |
| Rhwymedigaethau grant | (33,125) | (23,080) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **(102,738)** | **(104,239)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **197,644** | **76,886** |

## 31c. Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl gyda Dyraniad fesul Gwlad

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 Cyfanswm | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Dadansoddiad yn ôl Segment** | | | | | | |
| Incwm | - | - | - | - | 150,301 | 97,824 |
| Namyn costau gweithredu | **-** | **-** | **-** | **-** | **(3,367)** | **(2,578)** |
| **Incwm net ar gael i'w dosbarthu** | | | | | **146,934** | **95,244** |
| **Ar gael i bob gwlad** | 123,278 | 12,342 | 7,200 | 4,114 | | |
| Adennill grantiau | - | 69 | 46 | 6 | 121 | 68 |
| Ymrwymiadau grant i ddosbarthwyr penodol | (430) | - | - | - | (430) | (111,780) |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | - | (9,014) | (12,880) | (3,973) | (25,867) | (15,230) |
| **Gwarged/ (Diffyg) ar gyfer y flwyddyn** | **122,848** | **3,397** | **(5,634)** | **147** | **120,758** | **(31,698)** |

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 Cyfanswm | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans arian a ddygwyd ymlaen | **33,727** | **16,759** | **19,950** | **6,450** | **76,886** | **108,584** |
| **Balans cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **156,575** | **20,156** | **14,316** | **6,597** | **197,644** | **76,886** |
| **Symud croniadau grant** | | | | | | |
| Rhwymedigaethau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2024 | 79,477 | 9,495 | 5,360 | 8,225 | 102,557 | 114,016 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 430 | 9,021 | 12,880 | 4,055 | 26,386 | 127,069 |
| Rhwymedigaethau wedi darfod a'u diddymu | - | (7) | - | (82) | (89) | (58) |
| Rhwymedigaethau grant a fodlonwyd | (12,459) | (7,886) | (2,303) | (5,634) | (28,282) | (138,470) |
| **Croniad a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **67,448** | **10,623** | **15,937** | **6,564** | **100,572** | **102,557** |
| **Croniadau grant sy'n heneiddio** | | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 67,447 | 6,340 | 6,065 | 3,627 | 83,480 | 93,173 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | - | 3,090 | 5,086 | 1,766 | 9,942 | 6,272 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | - | 1,193 | 4,346 | 1,030 | 6,569 | 2,144 |

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 Cyfanswm | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na thair blynedd ond llai na phedair blynedd | - | - | 354 | 94 | 448 | 529 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na phedair blynedd ond llai na phum mlynedd | - | - | 86 | 47 | 133 | 354 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd | - | - | - | - | - | 86 |
| | **67,448** | **10,623** | **15,937** | **6,564** | **100,572** | **102,557** |

## Ased Amodol

O dan ddarpariaethau Deddfau Asedau Segur 2008 i 2022 gall banciau, cymdeithasau adeiladu a mudiadau ariannol eraill drosglwyddo arian o asedau segur i RFL, endid dielw sydd wedi'i awdurdodi i weithredu fel y gronfa adennill. Mae RFL yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion yr arian cyfrifon segur i'r Gronfa Loteri Fawr.

Mae RFL yn cyfrifo'r rhwymedigaeth sy'n ddyledus i'r Gronfa ac yn cydnabod hyn fel credydwr, sy'n cyfateb i ddyledwr ac incwm cysylltiedig y mae'r Gronfa'n rhoi cyfrif amdano. Yn ogystal, mae RFL yn nodi swm dros dro o incwm yn y dyfodol y gellir ei drosglwyddo i'r Gronfa.

Mae'r Gronfa bellach yn cydnabod hwn fel ased wrth gefn yn unol ag IAS 37: Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol. Mae RFL wedi nodi bod y gwerth hwn yn debygol o fod rhwng £139 miliwn a £145 miliwn ar gyfer 2025-26 (2024-25: £143.4 miliwn).

## Atebolrwydd Amodol

Mae'r Gronfa wedi cydnabod atebolrwydd amodol o £4.5 miliwn ar 31 Mawrth 2025 (31 Mawrth 2024: £5.0 miliwn) mewn perthynas â rhwymedigaeth bosibl i dalu hyd at £500,000 y flwyddyn i The Oversight Trust (OST) - Assets for the Common Good (Big Society Trust gynt) am ei chostau gweinyddol. Mae'r rhwymedigaeth bosibl hon yn unol â gweithred gytundeb rhwng OST a'r Gronfa a wnaed ar 10 Rhagfyr 2019, sy'n ddilys am 15 mlynedd o'r dyddiad hwnnw. Mae'r atebolrwydd amodol rydym yn ei chydnabod ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer y naw mlynedd sy'n weddill.

# Ein cefndir statudol

### Cyfarwyddiadau Polisi

Rhoddir y pŵer i'n hadran noddi a'r gweinyddiaethau datganoledig o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 i roi Cyfarwyddiadau mewn perthynas â materion sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu grantiau.

Mae'r cyfarwyddiadau polisi cyfredol mewn perthynas â Lloegr, Ynys Manaw ac ariannu Deyrnas Unedig wedi'u disgrifio isod. Cyhoeddwyd y rhain gan Swyddfa'r Cabinet ac fe ddaethant i rym at 1 Ebrill 2012. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fydd yn gyfrifol am gyfarwyddiadau polisi yn y dyfodol.

Mae'r Gronfa wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn ym mhob agwedd faterol trwy gydol y flwyddyn ariannol 2024-25.

Mae'r cyfarwyddiadau polisi presennol mewn perthynas â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a gyhoeddwyd gan y gweinyddiaethau datganoledig priodol, wedi'u nodi yn ddiweddarach yn yr adran hon.

### Lloegr a'r Deyrnas Unedig

### Cyfarwyddiadau a roddir i'r Gronfa Loteri Fawr o dan Adran 36e(1)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd)

Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd).

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd dros Swyddfa'r Cabinet, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddi gan adran 36E(1)(b) ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 36E(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

### Lloegr, Ynys Manaw a'r Deyrnas Unedig

### Cyfarwyddiadau Cyffredinol

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant y Deyrnas Unedig, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu ei harian o dan adran 25(1).

A. Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir:

(i) Yn sicrhau bod pobl yn cymryd rhan ac yn ymwneud â defnyddio ariannu'r Gronfa i ddarparu atebion i'r materion sydd fwyaf pwysig iddynt yn eu cymunedau

(ii) Yn helpu adnabod a galluogi'r rhai sy'n barod i arwain y broses o ddarparu'r atebion hyn ac yn dileu rhwystrau ar gyfer y rhai y gallai fod angen cymorth arnynt i wneud hyn

(iii) Yn cefnogi atebion newydd ac arloesol ochr yn ochr â modelau sydd wedi profi eu gwerth, ac yn cynhyrchu dysgu i helpu datblygiad polisïau ac arfer y tu hwnt i ariannu'r Gronfa.

B. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n cyflawni dosbarthiad yr ariannu i ledaeniad gweddol eang o brosiectau, yn bennaf y rhai a gyflwynir gan y sector gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mudiadau newydd eu cyfansoddi, mudiadau sy'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd â'u pencadlys yn y Deyrnas Unedig y maent yn gweithio tramor.

C. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles cyhoeddus a chymdeithasol nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

D. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dyrannu grantiau, a allai gynnwys partneriaethau â darlledwyr, cyfryngau electronig, print a digidol a chyfryngau eraill.

E. Yr angen am sicrhau bod grantiau'n cael ei ddosbarthu ar sail angen, gan gyflwyno canlyniadau mesuradwy ac effaith ehangach ar gyfer cymunedau ac unigolion.

F. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i dderbynyddion i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

G. Bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

1. Ymgysylltu – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ac ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac mewn mentrau ymdeithasol.

2. Cynrychiolaeth – dylai datblygu rhaglenni gymryd y rhai mewn angen mwyaf i ystyriaeth trwy dargedu anghydraddoldeb a gwella gallu pobl a chymunedau i gyfrannu at raglenni'r Gronfa, cymryd rhan ynddynt ac elwa o'r canlyniadau a ariennir trwyddynt.

3. Cynaladwyedd – gallu'r rhaglen i wella'r amgylchedd heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

4. Buddion tymor hwy – y gall prosiectau gyflawni dichonolrwydd a gwydnwch ariannol dros y tymor hwy.

5. Ychwanegedd a Chydweddu – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt.

6. Gweithio ar y cyd – pan fydd hyn yn cyflawni canlyniadau gwell, dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gefnogi gweithredu ar y cyd rhwng mudiadau a ariennir a phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil.

## Gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â

gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu arian, y dibenion dros ddosbarthu arian, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

A. Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun unigryw polisi, camau gweithredu'r llywodraeth a chymdeithas sifil gan ychwanegu gwerth mewn ffyrdd priodol at yr amcan o greu cymdeithas fwy teg, rhydd a chyfrifol lle mae pawb yn chwarae rhan wrth wella'u cymuned a helpu ei gilydd.

B. Yr angen am sicrhau y caiff ariannu ei ddosbarthu i brosiectau sy'n creu buddion ar gyfer pobl a chymunedau lleol a wasanaethir gan y sector gwirfoddol a chymunedol.

C. Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir yn ymdrin ag un neu fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn:

(i) Annog cyfranogiad cymdeithasol mewn cymunedau a dileu rhwystrau

(ii) Cryfhau gallu mudiadau gwirfoddol a chymunedol

a mentrau cymdeithasol

(iii) Chryfhau a chynyddu gallu'r farchnad buddsoddi cymdeithasol i gefnogi buddion cyhoeddus a gweithredu cymdeithasol.

D. Yr angen am ystyried:

(i) Buddion a chwmpas cymryd camau effeithiol ar gyfer Lloegr neu Ynys Manaw yn gyffredinol ac ar gyfer rhannau gwahanol o Loegr neu Ynys Manaw

(ii) Meintiau poblogaeth a lefelau amddifadedd economaidd a chymdeithasol cymharol mewn rhannau gwahanol o Loegr ac Ynys Manaw.

Llofnodwyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet

28 Mawrth 2012.

## Yr Alban

### Cyfarwyddiadau a roddir i'r Gronfa Loteri Fawr o dan adran 36e(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993

Trwy hyn mae Gweinidogion Yr Alban, wrth ddefnyddio'r pwerau a roddir iddynt gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

### Cyfarwyddiadau Cyffredinol

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y

dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

A. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo budd y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C. Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

D. Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

E. Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

F. Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant,'

(ii) os ceisir arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect

b) sicrhau bod y broses gwerthuso a rheoli ar gyfer sylweddol yn cyfateb i broses Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

G. Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

H. Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa y cyfryw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

I. Yr angen am fynnu elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da gan ffynonellau eraill sy'n gweddu i allu rhesymol gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, ddod o hyd i'r cyfryw gefnogaeth.

J. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

K. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Gwariant Datganoledig Yr Alban

3. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A. Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo'n briodol; gweithio yng nghyd-destun y fframwaith perfformiad cenedlaethol i adeiladu Alban fwy teg a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

B. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian dros amser i ymdrin â'r flaenoriaeth lleihau anghydraddoldeb; ac ar yr un pryd sicrhau lledaeniad rhesymol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y rhai sy'n gweithio ar lefel leol yn unig, mentrau a mudiadau cymdeithasol a mudiadau sydd wedi'u lleoli yn Yr Alban ac yn gweithio tramor.

C. The need to have regard to C. Yr angen am ystyried buddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban.

D. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n cyfrannu at gynaladwyedd trwy gefnogi gweithgareddau sy'n helpu ymgorffori newidiadau a dylanwadu ar ddatblygu hir dymor.

E. Yn olaf, yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) Hyrwyddo dysgu a datblygu cymunedol

(ii) Hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol

(iii) Hyrwyddo grymuso cymunedau a chyfleoedd cynhwysol i bawb gymryd rhan

(iv) Hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

4. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i waith sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion a ganlyn:

(i) Lleihau anghydraddoldeb trwy daclo anfantais a gwahaniaethu

(ii) Grymuso pobl trwy alluogi pobl i ymgysylltu a dylanwadu.

5. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion a ganlyn wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

(i) Cyflawni'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau trwy ddewis yr ymagwedd fwyaf priodol mewn meysydd polisi priodol er mwyn ychwanegu gwerth at yr ymdrech gyhoeddus gyffredinol

(ii) Trosoli'r gwerth uchaf posib ar gyfer pobl a chymunedau o adnoddau trwy gefnogaeth dros wirfoddoli, gwaith teg a chaffael cynaliadwy.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Yr Alban Chwefror 2016.

## Cymru

### Cyfarwyddiadau a roddwyd i'r Gronfa Loteri Fawr o dan adran 36e Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993

Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd).

Trwy hyn mae Gweinidogion Cymru, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 36E(4)(a) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr (yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac a gyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Y Gronfa") a sicrhau caniatâd gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet yn unol ag adran 36E(8) (b) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa.

### Gwariant Datganoledig Cymru

Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu gwariant datganoledig Cymru, at ba bwrpas ac o dan ba amodau, bydd y Gronfa'n ystyried y materion canlynol o dan Adran 25(1).

A. Ystyried egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig:

- gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru
- annog cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am yr hir dymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd
- atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cyd-gysylltiedig
- y pum dull o weithio: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys
- saith nod llesiant.

B. Sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian i ystod eang o brosiectau a ddarperir yn bennaf gan y trydydd sector. Dylai hyn gynnwys mudiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.

C. Sicrhau bod y Gronfa'n gweithredu o fewn cyd-destun polisi, llywodraethol, cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan sicrhau bod ariannu'n gweddu i ac yn ychwanegu gwerth at waith y llywodraeth tra'n aros ar wahân iddi ar yr un pryd.

D. Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu mewn modd sy'n cefnogi cymunedau i ffynnu, ac sy'n hygyrch i bob cymuned, gan gynnwys y rhai a fydd angen cymorth ychwanegol.

E. Ystyried buddiannau Cymru gyfan a buddiannau gwahanol rannau o Gymru, gan gynnwys:

- y patrymau demograffig ac amddifadedd amrywiol yng ngwahanol rannau o Gymru
- barn cymunedau Cymru wrth osod blaenoriaethau a dosbarthu arian.

F. Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu i brosiectau sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus a chymdeithasol ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er budd preifat.

G. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, gan adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru trwy:

- gweithio yn ôl yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg yn holl weithgareddau'r Gronfa yng Nghymru

- gweithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n Cynllun Iaith Gymraeg, mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg.

H. Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu sy'n gwella amgylchedd Cymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac ar yr un pryd hyrwyddo ei botensial i wella ansawdd bywyd cymunedau ac unigolion.

I. Darparu cefnogaeth i'r sawl sy'n ymgeisio i'r Gronfa, ac i fudiadau sy'n derbyn ariannu, er mwyn gwella cyflwyno canlyniadau prosiect a'u galluogi i ddarparu atebion cadarnhaol i'r materion sydd o'r pwys mwyaf iddyn nhw a'u cymunedau.

J. Cefnogi arloesedd a modelau sydd wedi'u profi, i gynhyrchu dysgu i helpu datblygu ac ymarfer polisi y tu hwnt i ariannu'r Gronfa.

K. Cynnwys amod ym mhob dyfarniad bod yn rhaid i dderbynwyr gydnabod ariannu'r Loteri Genedlaethol a defnyddio brandio cyffredin y Loteri Genedlaethol.

L. Sicrhau bod y Gronfa'n ffocysu gwariant ar gyflawni'r canlyniadau a ganlyn dros amser:

- Mae pobl yn iach ac yn byw bywydau cynhyrchiol mewn cymdeithas ffyniannus ac arloesol
- Amgylchedd gwledig a threfol gwydn gyda defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru
- Cryfheir amgylchiadau i greu cymunedau mwy cryf, diogel a chydlynol, gan wella cyfiawnder cymdeithasol ac ar yr un pryd, lliniaru effaith tlodi yn ogystal ag annog twf economaidd cynaliadwy.

## Gogledd Iwerddon

### Cyfarwyddiadau a roddir i'r Gronfa Loteri Fawr o dan adran 36e(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd).

Trwy hyn mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo budd y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C. Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

D. Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

E. Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

F. Yr angen: ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant:

(ii) os ceisir arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau bod y broses gwerthuso a rheoli ar gyfer prosiectau sylweddol yn cyfateb i broses Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib

G. Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa

H. Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa y cyfryw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

I. Yr angen am fynnu elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da gan ffynonellau eraill sy'n gweddu i allu rhesymol gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, ddod o hyd i'r cyfryw gefnogaeth.

J. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

K. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

### Gwariant Datganoledig Gogledd Iwerddon

3. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian

i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio dramor y mae ganddynt bencadlys yng Ngogledd Iwerddon.

B. Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

C. Yr angen am ystyried buddiannau Gogledd Iwerddon yn gyffredinol, buddiannau holl rannau gwahanol Gogledd Iwerddon a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Ogledd Iwerddon.

4. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

A. Mae gan bobl gyfle i gyflawni eu potensial llawn

B. Gall pobl gymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau i greu newidiadau cadarnhaol

C. Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol gwell a mwy diogel.

D. Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb.

5. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

A. Gwella sgiliau hanfodol i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd.

B. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu cymunedol.

C. Adeiladu gallu cymunedau.

D. Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli ac ar gyfer ymgysylltu rhwng ac o fewn cymunedau.

E. Adeiladu partneriaethau cymunedol a gwirfoddol/statudol.

F. Gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau cymunedol.

G. Cynyddu cyfranogiad cymunedol wrth amddiffyn, adfer a chynnal yr amgylchedd trefol a gwledig.

H. Helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i wneud dewisiadau ffordd o fyw mwy iach.

I. Hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigolion a chymunedau.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon

## Cyfarwyddyd Cyfrifon

### Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddi-wylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn rhoi'r cyfarwyddiadau cyfrifon hyn yn unol ag adran (35)3 Deddf y Loteri Genedlaethol 1993

1. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Loteri Fawr yn flaenorol) mewn perthynas â'r cyfrifon blynyddol ar wahân y mae'n ofynnol iddi eu paratoi mewn perthynas â'i gweithgareddau dosbarthu'r loteri.

2. Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn paratoi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 a'r blynyddoedd ariannol dilynol yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu argraffiad Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF ('y FReM') sef mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar ei chyfer, ynghyd ag unrhyw ddatgeliad ychwanegol neu ofynion eraill y cytunwyd arnynt gyda'r adran, gan gynnwys canllawiau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) ar gyfer gwneud cais am ddatgeliad.

3. Caiff y cyfrifon eu paratoi fel y byddant yn:

- rhoi barn wir a theg am faterion ar 31 Mawrth 2024 a diwedd blynyddoedd ariannol dilynol ac o'r incwm a gwariant (neu, fel bo'n briodol, ganlyniad adnoddau net), newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a
- Darparu datgeliad o unrhyw wariant neu incwm materol na chymhwyswyd at y dibenion a fwriedir gan Senedd y Deyrnas Unedig neu drafodion materol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.
- Dilyn y gofynion cyfrifyddu a datgelu a ddisgrifir yn Atodiad A ac Atodiad B.

4. Bydd yn ofynnol cydymffurfio â gofynion FReM o dan yr holl amgylchiadau heblaw am y rhai eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon ddarparu barn wir a theg. Os, yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, bod cydymffurfiad â gofynion FReM yn anghyson â'r gofynion i roi barn wir a theg, dylid mynd i ffwrdd o ofynion FReM i'r graddau sy'n ofynnol i roi barn wir a theg yn unig. Yn yr achosion hyn, dylid defnyddio barn hysbys a diragfarn i ddyfeisio triniaeth amgen addas y dylai fod yn gyson gyda nodweddion economaidd yr amgylchiadau perthnasol ac ysbryd FReM. Dylid trafod unrhyw ymadawiad materol o'r FReM gyda'r Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys EF.

5. Dylai'r cyfrifon gydymffurfio â'r holl arweiniad a gofynion perthnasol yn unol â'r Arweiniad Cyllidebu Cyfunol (CBG), Rheoli Arian Cyhoeddus (MPM) a'r cytundeb rheoli neu ddogfen fframwaith.

Trwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

11 Ebrill 2024

## ATODIAD A

Mae'r paragraffau a ganlyn yn datgelu'r gofynion ychwanegol y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys, yr Adran a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, uwchben y datgeliadau hynny sy'n ofynnol yn FReM.

1. Bydd y **datganiad incwm/gwariant cynhwysfawr net** yn cynnwys y canlynol fel eitemau ar wahân, lle bo'n faterol:

    1. cyfran yr enillion Loteri y gellir eu priodoli i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
    2. cyfran incwm buddsoddi Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol y gellir eu priodoli i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
    3. llog sy'n dderbyniadwy ar arian loteri
    4. ad-dalu grantiau
    5. unrhyw incwm arall
    6. grantiau a wnaed o arian Loteri
    7. grant sydd wedi darfod neu ei ddiddymu a gofnodwyd yn flaenorol fel rhwymedigaethau o arian Loteri
    8. y cyfanswm costau gweithredu a delir mewn perthynas â gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol

2. Bydd y **datganiad sefyllfa ariannol** yn cynnwys:

    1. o dan y pennawd "Asedau cyfredol": a ddangosir fel buddsoddiad, y balans a ddelir ar ran Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol;
    2. Dylid datgelu grant sy'n dod yn ddyledus i'w dalu o fewn blwyddyn ar wahân o dan y pennawd "rhwymedigaethau cyfredol'.
    3. Dylid datgelu grant sy'n dod yn ddyledus i'w dalu ar ôl mwy na blwyddyn ar wahân o dan y pennawd "rhwymedigaethau anghyfredol'.

3. Bydd y **Datganiad Llif Arian** yn defnyddio'r dull anuniongyrchol wrth gyflwyno "llif arian o weithgareddau gweithredu';
4. Dylai'r **Nodiadau i'r Cyfrifon** fodloni gofynion FReM a chynnwys: :

    1. Datganiad y paratowyd y Cyfrifon ar ffurf a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chaniatâd y Trysorlys yn unol ag Adran 35D(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.
    2. Datganiad o'r polisïau cyfrifyddu. Mae'n rhaid i hyn gynnwys datganiad sy'n esbonio natur y balansau a ddelir ar ran Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel a ganlyn:
    3. "Mae balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, mae cyfran y balansau hyn y gellir eu priodoli i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i'w gweld yn y Cyfrifon ac, ar ddyddiad y Datganiad sefyllfa ariannol, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eu bod ar gael i'w ddosbarthu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol mewn perthynas ag ymrwymiadau cyfredol a rhai'r dyfodol."

4. Gwerth ymrwymiadau grant ar ddiwedd y flwyddyn y mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi'u gwneud nad ydynt wedi'u cynnwys fel rhwymedigaethau yn y Datganiad sefyllfa ariannol gan nad oeddent yn bodloni gofynion cael eu trin fel rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw
5. Pan fydd grantiau'n fwy na'r adnoddau sydd ar gael fel a ddangosir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol, nodyn sy'n esbonio sail resymegol y gor-ymrwymiad gan gymryd unrhyw gyngor a dderbyniwyd gan yr Adran i ystyriaeth fel y bo'n briodol.
6. Nodyn sy'n cysoni balans agoriadol a therfynol a ddelir yn NLDF. Dylai hyn ddatgelu enillion a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol, incwm buddsoddi, enillion a cholledion nas gwireddwyd ar fuddsoddi, ac arian a dynnwyd i lawr o NLDF.
7. Dadansoddiad o'r cyfanswm rhwymedigaethau grant (cyfredol ac anghyfredol) yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol i ddangos:

   - Rhwymedigaeth a ddygwyd ymlaen
   - Rhwymedigaethau yn y flwyddyn
   - Dadrwymedigaethau
   - Rhwymedigaethau a dalwyd
   - Rhwymedigaeth a gariwyd ymlaen
   - Dadansoddiad o'r rhwymedigaeth ar gyfer bob blwyddyn hyd at a gan gynnwys pum mlynedd a thros pum mlynedd.

# ATODIAD B

## Gofynion datgelu ychwanegol

### IFRS 16 Prydlesi

Bydd y cyfrifon yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag addasiadau FreM a dehongliadau o Brydlesi Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 (IFRS 16) o 2019-2020. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r endid gymryd yr opsiwn o fewn y FreM i fabwysiadu'r safon hon yn gynnar.

## Cyfarwyddiadau asedau segur

### Cyfarwyddiadau a roddir i'r Gronfa Loteri Fawr (yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol) o dan adran 22(3) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu 2008 fel y'i diwygiwyd

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 22(3) Adeiladu Segur 2008 ("y Ddeddf") (c.31) ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") yn unol ag adran 22(7) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa.

1. 1. Mae'r holl Gyfarwyddiadau Gwario hyd yn hyn yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith gyda'r Cyfarwyddwyd Gwario hwn yn eu disodli.

**Dyraniadau blaenorol**

2. 2. Mae'r Gronfa wedi'i chyfarwyddo'n flaenorol i ddosbarthu'r symiau canlynol o gyfran Lloegr o arian cyfrifon segur o dan y cynllun, ac mae'n ofynnol iddi barhau i wneud hynny hyd nes y cyflawnir yr ymrwymiadau hyn yn llawn (mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r degolyn agosaf ar gyfer y dibenion y cyfarwyddyd hwn):

Dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng DCMS a'r Gronfa a gytunwyd ar 17 Hydref 2018, dosbarthodd y Gronfa cyfanswm o £1.144 miliwn ar ffurf grantiau nad sy'n rhaid eu had-dalu i fudiadau gwirfoddol ieuenctid mewn lleoliadau targedig trwy'r Gronfa Capasiti Ieuenctid, gyda'r Gronfa a DCMS wedi cytuno ar grantiau o'r fath. Bydd y Gronfa'n parhau i reoli'r grantiau hyn tan eu cwblhad £90m (gyda £55.9m o hwnnw'n cael ei dosbarthu erbyn Rhagfyr 2021) i fodloni gwariant ar neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau, cyfleusterau neu gyfleoedd i ddiwallu anghenion pobl ifanc, yn unol ag a18(1)(a) y Ddeddf, a gyflwynir gan Youth Futures Foundation Limited

£96 miliwn (y dosbarthwyd £51.5 miliwn ohono erbyn mis Rhagfyr 2021) i gwrdd â gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â (i) datblygu gallu unigolion i reoli eu harian, neu (ii) gwella mynediad at wasanaethau ariannol personol, yn unol ag adran 18(1)(b) o'r Ddeddf, a ddarperir gan Fair4All Finance Limited; a

£435m (gyda £435m o hwnnw'n cael ei dosbarthu erbyn Rhagfyr 2021) ar ffurf grantiau nad ydynt yn ad-daladwy i'r Big Society Trust i fuddsoddi yn Big Society Capital ac i fodloni gofyniad ariannu cychwynnol Access – the Foundation for Social Investment, yn gweithredu fel cyfanwerthwr buddsoddiad cymdeithasol yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf.

£30m (gyda £21m o hwnnw'n cael ei dosbarthu erbyn Rhagfyr 2021) ar ffurf grantiau nad ydynt yn ad-daladwy miliwn Access- the Foundation for Social Investment, gan weithredu fel cyfanwerthwr buddsoddi cymdeithasol yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf.

**Dyraniadau newydd**

3. Bellach mae'n ofynnol i'r Gronfa ddosbarthu symiau pellach o gyfran Lloegr o arian cyfrifon segur fel a ganlyn:

£20m ar ffurf grantiau nad ydynt yn ad-daladwy miliwn Access – the Foundation for Social Investment, gan weithredu fel cyfanwerthwr buddsoddi cymdeithasol yn unol ag adran 18 y Ddeddf;

£20 miliwn i fodloni gwariant ar neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau, cyfleusterau neu gyfleoedd i ddiwallu anghenion pobl ifanc, yn unol ag

a18(1)(a) y Ddeddf, a gyflwynir gan Youth Futures Foundation Limited; a £4 miliwn i fodloni gwariant ar neu'n ymwneud â (i) datblygu gallu unigolion i reoli eu harian, neu (ii) wella mynediad at wasanaethau ariannol personol, yn unol ag a18(1)(b) y Ddeddf, a gyflwynir gan Fair4All Finance Limited

### Ychwanegedd

4. Bydd y Gronfa'n ystyried sut y gall telerau ac amodau perthnasol eu trefniadau gyda'r mudiadau hyn sicrhau:

bod yr arian yn cael ei defnyddio dim ond ar gyfer prosiectau, neu agweddau ar brosiectau, y byddai arian yn annhebygol o fod ar gael ar eu cyfer gan adran o'r Llywodraeth.

### The Oversight Trust

5. Bydd y Gronfa hefyd yn dosbarthu hyd at £500,000 y flwyddyn o gyfran Lloegr arian y cyfrifon segur, ac ar ffurf grant, i The Oversight Trust – Assets for the Common Good (OST) ar sail barhaol (oni bai a than y cyhoeddir cyfarwyddiadau pellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Y Cyfryngau a Chwaraeon i addasu neu ddisodli'r cyfarwyddyd hwn).

6. Bydd OST ond yn defnyddio'r ariannu hwn i gynorthwyo cyrff eraill sydd o fewn rheolaeth gyfreithiol unigryw neu helaeth OST, ac sy'n dosbarthu arian cyfrifon segur i fodloni gwariant sydd â diben cymdeithasol neu amgylcheddol. Roedd £1m wedi'i ddosbarthu i OST at y dibenion hyn erbyn Rhagfyr 2021, gyda £0.4m arall yn debygol o gael ei ddosbarthu cyn diwedd Rhagfyr 2021.

Rhaid i gyrff eraill fel hyn, ar ben hyn, naill ai (i) fod yn gyfanwerthwr buddsoddiad cymdeithasol; neu (ii) ddefnyddio arian cyfrifon segur wrth gyflawni eu swyddogaethau sydd:

i. yn bodloni'r gwariant ar neu sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, cyfleusterau neu gyfleoedd i ddiwallu anghenion pobl ifanc; neur

ii. yn bodloni gwariant ar neu sy'n ymwneud â (a) datblygu gallu unigolion i reoli eu cyllidebau, neu (b) wella mynediad at wasanaethau ariannol personol.

### Dim taliadau eraill

7. Cyfarwyddir y Gronfa i beidio â gwneud unrhyw daliadau eraill o gyfran Lloegr o arian cyfrifon segur tan i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi rhagor o Gyfarwyddiadau dan y Ddeddf.

Llofnodwyd trwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

## Cyfarwyddiadau a roddir i'r Gronfa Loteri Fawr o dan adran 22(5)(b) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 mewn perthynas â gwariant yn yr Alban

Trwy hyn mae Gweinidogion yr Alban, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 22(5)(b) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") yn unol ag adran 22(7) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur o dan y Ddeddf honno mewn perthynas â gwariant

Yr Alban, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyffredinol a ganlyn wrth bennu'r sawl i bwy y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau, at ba ddibenion y bydd y Gronfa'n gwneud dosbarthiadau, y broses a ddefnyddir i benderfynu pa daliadau i'w gwneud ac o dan ba amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau.

2. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur fod:

A. ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat;

B. ar gyfer prosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol;

C. dim ond ar gyfer mudiadau trydydd sector, h.y. mudiadau sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion ar gyfer cymdeithas neu'r amgylchedd;

D. rhaid cydbwyso annog arloesedd gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd; a

E. dylid ceisio hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy.

3. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr sicrhau bod ymgeiswyr:

A. ym mhob achos yn dangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y dosbarthiad;

B. mewn achosion pan geisir arian cyfalaf;

a). dangos cynllun busnes clir gan gynnwys unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, a rhoi ystyriaeth i faint a natur y prosiect; ac

b). ar gyfer prosiectau mawr, dangos bod prosesau gwerthuso a rheoli prosiectau'n cyfateb i rai Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth; neu

C. mewn achosion pan na cheisir arian cyfalaf, dylid ystyried argaeledd tebygol unrhyw arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl  ar ôl i arian cyfrifon segur ddod i ben, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian cyfrifon segur gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

4. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa sicrhau'r canlynol:

A. y pennir cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae dosbarthiadau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw;

B. cynnwys amod ym mhob dosbarthiad bod derbynyddion yn cydnabod defnyddio arian asedau Segur gan ddefnyddio brand cytunedig Cynllun Asedau Segur Yr Alban;

C. sicrhau bod ganddi'r cyfryw wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol;

D. gweithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ddull effeithiol o gyflwyno ei swyddogaethau ac amcanion;

E. lle bo’n bosib, cynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a gwneud dosbarthiadau;

F. gweithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo’n briodol; cefnogi Alban Fwy Teg wrth ddatblygu cyfleoedd i bawb ffynnu o fewn cenedl sy’n fwy llwyddiannus ac yn fwy cynaliadwy;

G. dros amser, sicrhau dosbarthiad arian i ledaeniad rhesymol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y rhai sy’n gweithio ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd wedi’u lleoli yn Yr Alban ac yn gweithio tramor;

H. ystyried buddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o’r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o’r Alban;

I. sicrhau y bwriedir i brosiectau gyfrannu at gyflawni diben trosgynnol Llywodraeth Yr Alban o dwf economaidd cynyddol a chynaliadwy a hefyd un neu fwy o’r amcanion strategol a ganlyn:

Mwy clyfar: Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd

Mwy cryf a diogel: Cymunedau sy’n cydweithio i ymdrin ag anghydraddoldeb

Mwy gwyrdd: Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl

Mwy iach: Pobl a chymunedau mwy iach; a

J. chymryd yr egwyddorion a ganlyn i ystyriaeth:

Ymgysylltu – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ac ymgysylltu’n weithredol â phartneriaid cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector.

Undod a Chydlyniant - sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled Yr Alban yn cael cyfle i gyfrannu at genedl sy’n fwy llwyddiannus, cymryd rhan ynddi ac elwa ohoni.

Cynaladwyedd – gwella amgylchedd Yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol, a lleihau effaith Yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

## Cyfarwyddiadau Penodol

5. Cyn gweithredu unrhyw un o’i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mewn perthynas â gwariant Yr Alban, mae’n rhaid i’r Gronfa gydymffurfio â’r cyfarwyddyd penodol a ganlyn wrth bennu’r unigolion at bwy y mae’r Gronfa’n gwneud dosbarthiadau, at ba ddiben y dylai’r Gronfa wneud y dosbarthiadau hynny:

A. Mae’n rhaid i’r Gronfa ddarparu asesiad effaith seiliedig ar dystiolaeth o ddosbarthu’r arian cyfrifon segur yn unol â chyfyngiadau a ragnodwyd a ddisgrifiwyd yng Ngorchymyn Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur (Yr Alban) 2010 ac yn unol ag un o’r opsiynau a ganlyn:

Opsiwn 1: Cefnogi pedair thema bolisi eang: byddai'n rhaid i'r Gronfa gefnogi bod dosbarthiad yr arian yn cael ei ddosrannu'n rhesymol i gefnogi pedair thema bolisi eang:

Cyfleoedd i blant a phobl ifanc;

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy fwy o weithgareddau;

Cryfhau gweithgareddau rhwng y cenedlaethau; a

Chreu cyfleoedd cyflogaeth gymunedol.

Opsiwn 2: Dosrannu 50%, 67% neu 100% o'r arian cychwynnol i'w drosglwyddo gan y Gronfa Loteri Fawr i ymddiriedolaeth waddoledig. Byddai gweddill yr arian wedyn yn cael ei ddosbarthu gan y Gronfa i gefnogi'r pedair thema bolisi eang.

## Cyfarwyddiadau a roddir i'r Gronfa Loteri Fawr o dan adran 22 Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 mewn perthynas â gwariant yng Nghymru

Trwy hyn mae Gweinidogion Cymru, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 22 Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr (yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac a gyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Y Gronfa), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

1. Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu arian o asedau segur mewn perthynas ag arian Cymru, at ba bwrpas ac o dan ba amodau, rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r canlynol:

A. Ystyried egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig:

gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru  annog cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am yr hir dymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd  atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cyd-gysylltiedig y pum dull o weithio: hirdymor; atal; integreiddio; cydweithio; cymryd rhan saith nod llesiant.

B. Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu i brosiectau sy'n hyrwyddo lles cyhoeddus a chymdeithasol ac nad yw wedi'i fwriadu'n bennaf er budd preifat.

C. Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau cynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

D. Sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian i ystod eang o brosiectau a ddarperir yn bennaf gan y trydydd sector. Dylai hyn gynnwys mudiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Mewn sefyllfaoedd eithriadol, gellir dosbarthu arian i awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill lle mae prosiect yn cynnwys partneriaeth neu gonsortiwm, a bod y corff statudol yn gweithredu mewn swyddogaeth gydlynu.

E. Cydbwyso annog arloesedd â rheoli risg.

F. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, gan adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru trwy:

gweithio yn ôl yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg yn holl weithgareddau'r Gronfa yng Nghymru

gweithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n Cynllun Iaith Gymraeg, mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg.

G. Y pennir cyfyngiadau amser ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

H. Sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant.

I. Sicrhau bod y Gronfa'n gweithio gyda mudiadau eraill lle mae hon yn fodd effeithiol o ddarparu elfennau o arian asedau segur yng Nghymru.

J. Sicrhau bod gan y Gronfa'r wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle bo angen.

K. Cynnwys amod ym mhob dyfarniad bod derbynwyr yn cydnabod arian asedau segur ac yn defnyddio brandio Cynllun Asedau Segur y cytunwyd arno.

L. Mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar ganlyniadau, gan gydweithio'n agos â phartneriaid priodol i gyflawni'r patrwm buddsoddiad gorau er budd cymunedau ledled Cymru.

M. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, rhaid i'r Gronfa ystyried buddiannau Cymru gyfan, buddiannau gwahanol rannau o Gymru, meintiau cymharol y boblogaeth a'r cwmpas i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol yng ngwahanol rannau Cymru.

## Cyfarwyddiadau Penodol

2. Rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau penodol canlynol wrth benderfynu ar y personau y mae'n rhoi grantiau iddynt ac at ba bwrpas.

A. Rhaid i'r Gronfa weithredu'n unol â'r cyfyngiadau a ragnodir sydd wedi'u disgrifio yng Ngorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 (Cyfyngiadau a Ragnodir) (Cymru) 2010 ac yn unol â'r themâu a ganlyn:

Cefnogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial trwy weithio trwy'r trydydd sector i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a dileu'r rhwystrau i ddatblygiad personol a chyflogaeth.

Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ehangach trwy weithgareddau cymunedol â ffocws.

B. Rhaid i'r Gronfa ystyried y buddion ehangach y gall ceisiadau eu cynnig, yn enwedig eu potensial i ddenu arian o ffynonellau eraill (e.e. cyllid cyfatebol) a'r cyfraniad y gallant ei wneud i bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru.

## Cyfarwyddiadau gwariant a roddir i'r Gronfa Loteri Fawr o dan adran 22(5)(c) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008

Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008, (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Asedau Segur 2022), a elwir o hyn ymlaen fel y "Ddeddf", wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf, bydd y Gronfa Loteri Fawr (Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol bellach) yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir iddi o dan adran 22 o'r Ddeddf.

Trwy hyn, mae'r Adran Gyllid, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddi gan Adran 22(5)(c) o'r Ddeddf ac ar ôl ymgynghori â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol fel sy'n ofynnol o dan Adran 22(7) o'r Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol mewn perthynas â gwariant Gogledd Iwerddon o dan y Ddeddf.

- O dan y Cyfarwyddiadau Polisi diwygiedig hyn, dylai Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol baratoi a mabwysiadu cynllun strategol ar gyfer Gogledd Iwerddon fel y nodir yn Atodlen 3 Rhan 1 o'r Ddeddf.
- Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ymgynghori ar gynnwys y Cynllun Gweithredu Strategol cyn ei osod gerbron y Cynulliad fel y nodir yn Atodlen 3 Rhan 1 Paragraff 4 Is-adran 6 (b) y Ddeddf.

Dylai'r Cynllun fod ar gael er budd y trydydd sector yng Ngogledd Iwerddon, trwy brosiectau/gwaith a ddarperir yn bennaf gan fudiadau Gwirfoddol, Cymunedol a Menter Gymdeithasol i gynyddu gallu, tyfu gwytnwch ac annog cynaliadwyedd.

- Dylai'r Cynllun sicrhau bod gan brosiectau/gwaith a ariennir gynrychiolaeth ddaearyddol deg ar draws Gogledd Iwerddon.
- Dylai gwersi a ddysgwyd o ddosbarthu cronfeydd Cyfrifon Segur mewn mannau eraill gael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gogledd Iwerddon lle bo hynny'n bosibl.
- Ni fydd yr Adran yn cyfyngu ar ddefnydd neu ddosbarthiad y Cynllun, fodd bynnag, yr egwyddor yw na ddylid defnyddio arian cyfrifon segur i ariannu prosiectau neu agweddau ar brosiectau a fyddai fel rheol yn denu ariannu statudol.
- O ran modelau cyflenwi, gallai'r rhain olygu, ond heb fod yn gyfyngedig i, Fodel Benthyciad Buddsoddi ar gyfer mudiadau mwy sefydledig, model hybrid grant/benthyciad neu fodel arddull grant mwy traddodiadol i gefnogi mudiadau cymunedol ar lawr gwlad i ddatblygu gallu a meithrin gwytnwch.
- Fel y caniateir o dan y Ddeddf, caiff Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol gyflawni'r Cynllun yn ei gyfanrwydd neu weithio gyda thrydydd parti. Dylid penodi unrhyw drydydd parti yn unol ag Adran 25 (1) o'r Ddeddf a chadw at yr amodau wedi hynny fel y nodir yn y Ddeddf.
- Un o amodau'r holl ariannu a ddosberthir o'r Cynllun yw bod yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gydnabod y defnydd o ariannu Asedau Segur, gan ddefnyddio'r brandio y cytunwyd arno ar gyfer y Cynllun Asedau Segur yng Ngogledd Iwerddon.
- Bydd dosbarthiad ariannu o dan y Cynllun Asedau Segur yn gyfyngedig i brosiectau sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon fel y nodir yn Adran 22 5(c) o'r Ddeddf.
- Dylai'r trefniadau Adrodd a Chyfrifyddu fod fel y nodir yn Atodlen 3, Rhan 3, y Ddeddf.

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND


## Cysylltwch â ni

### Prif swyddfa

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
3 Embassy Drive, Edgbaston, Birmingham B15 1TR

ffôn 028 9568 0143
ffacs. 020 7211 1750

Ar gyfer y rhai sydd â nam ar y clyw neu'r lleferydd:
Cyfnewid Testun: 18001 plws 020 7211 1800 neu 0300 500 5050



ISBN 978-1-5286-5697-9
E03348114